



Gwaith Dafydd ab Edmwnd

<https://hdl.handle.net/1874/376931>

GWAITH
DAFYDD AB EDMWND

A GASGLWYD O YSGRIFYFRAU PENIARTH, LLANSTEPHAN,
CAERDYDD, HAVOD, MOSTYN, COLEG YR IESU
A'R AMGUEDDFA BRYDEINIG

GAN
THOMAS ROBERTS, M.A.



BANGOR
1914

~~VAN HAMEL~~

~~433~~

vervullen

E DONATIONE

A. G. van HAMEL

PROFESSORIS

ORDINARIJ IN

ACADEMIA

RHENO-TRAIECTINA

1923—1946

3583

W II 6 Dat E 1

THE BANGOR WELSH MSS. SOCIETY
VI., VII., VIII.

GWAITH DAFYDD AB EDMWND

10 67

RIJKSUNIVERSITEIT UTRECHT



1556 6825

3583


W II b Daf E 1

1867

GWAITH
DAFYDD AB EDMWND

A GASGLWYD O YSGRIFYFRAU PENIARTH, LLANSTEPHAN,
 CAERDYDD, HAVOD, MOSTYN, COLEG YR IESU
 A'R AMGUEDDFA BRYDEINIG

GAN
THOMAS ROBERTS, M.A.



BANGOR
 1914

Instituut voor
 Keltische taal — en letterkunde
 der Rijksuniversiteit te Utrecht

Two hundred copies, privately printed for
'The Bangor Welsh Manuscripts
Society,' by JARVIS & FOSTER
Bangor, January
1914

Instituut voor
Keltische taal—en letterkunde
der Rijksuniversiteit te Utrecht



vervallen

RHAGAIR.

CASGLWYD y cywyddau a'r awdlau sy'n canlyn o ysgriflyfrau Peniarth, Llanstephan, Caerdydd, Havod, Mostyn, Coleg yr Iesu, a'r Amgueddfa Brydeinig. Ymddengys pob cywydd ynghyda'i deitl yn union fel y mae yn yr ysgriflyfr ac eithrio ychydig eiriau sydd i'w gwelod mewn cromfachau, a roddais i i mewn o lawysgrifau eraill.

Priodolir rhai o'r cywyddau i feirdd eraill, ac anodd yw dweyd pwy a'u cyfansoddodd. Ceir enw Ieuan Deulwyn mewn rhai ysgriflyfrau wrth amryw a roddir yn fynych i Ddafydd ab Edmwnd. Gadewais y rhai hynny allan am eu bod wedi eu hargraffu eisoes yng nghyfrol iii. o'r gyfres hon (rhif iv., viii., xiii., xxi. yng 'Ngwaith Ieuan Deulwyn'); a hefyd ddwy neu dair arall ag yr oedd tystiolaeth y llawysgrifau hynaf yn erbyn eu priodoli i Ddafydd ab Edmwnd. Oherwydd fod gweithiau'r bardd yn llenwi cyfrol fwy o lawer nag y bwriadodd y Gymdeithas i Rifyn Dwbl fod, cyfyngir y nodiadau i hanes y personau enwir yn y cywyddau yn unig. Dyledus yw i mi ddiolch i'r Parch. T. Shankland, Llyfrgellydd Coleg y Brifysgol, Bangor, am lawer cyfarwyddyd; i'r Athro E. A. Lewis, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, am gopio i mi rif xxxix. yn y Llyfrgell Genedlaethol; i Mr. W. S. Jones, M.A., Ysgrifennydd y Cyngor Amaethyddol Cymreig am gopio rhif xxxvi. a liv. o ysgriflyfrau Coleg yr Iesu, Rhydychen; ac i Mr. J. Alban Morris (Alban), Caerdydd, am gopio rhif xxxvii., liv., lv., ac ychydig englynion o Lawysgrifau Mostyn.

T. ROBERTS.

NORMAL COLLEGE,
BANGOR.

TALFYRIADAU.


P.	am	Peniarth MS.
Ll.	,,	Llanstephan MS.
H.	,,	Hafod MS.
C.	,,	Cardiff MS.
M.	,,	Mostyn MS.
J.C.	,,	Jesus College MS.
B.M.	,,	British Museum MS.
Add. MS.	,,	Additional MS.
G.B.C.	,,	Gorchesterion Beirdd Cymru.
L.G.C.	,,	Lewis Glyn Cothi.

Cyfeiriais at y llawysgrifau yn ol y rhif a roddir iddynt gan
Dr. Gwenogvryn Evans yn ei *Reports on MSS. in the Welsh
Language.*

T.R.

DAFYDD AB EDMWND.

GWR bonheddig genedigol o blwyf Hanmer, yng nghwmwd Maclor Saesneg, oedd Dafydd ab Edmwnd. Preswyliai ar ei dir ei hun mewn lle o'r enw Pwll Gwepira, yn Hanmer, ac y mae lle i gasglu iddo dreulio rhan o'i oes yn Nhegeingl hefyd. Dywedir mai ei eiddo ef oedd Llyn Hanmer a llawer o diroedd o'i amgylch,¹ ac mai efe oedd perchenn Llys Fasi yn Nyffryn Clwyd. Yr oedd yn aelod o deulu uchelwaed, fel y canfyddir oddiwrth y llinach ganlynol:²



¹ P. 267. ² Codwyd yr ach o P. 134, a Lloyd, *History of Powys Fadog*, iii. 379. ³ Un o swyddogion Edward I.
⁴ John Upton oedd y cyntaf o'r teulu i gymeryd yr enw Hanmer.

Gwelir oddiwrth yr ach mai chwaer i Ddafydd ab Edmwnd oedd mam ei ddisgybl Tudur Aled, a chyfeiria'r bardd hwnnw at y berthynas oedd rhyng-ddo a'i athro yn y farwnad a ganodd iddo:

F'ewythr o waed, f' athro oedd
Fynwes gwawd, fy nysg ydoedd.

Gwyddys fod i'r bardd ddau o blant, ond methais a darganfod pwy oedd eu mam. Oferwr mawr a diogyn hynod oedd Edward ap Dafydd ab Edmwnd. Dywedir iddo werthu ei holl dir ond y llyn ar ol marw ei dad,¹ a chyfansoddodd Howel Bangor yr englyn di-odl canlynol iddo i'w gynghori i adael ei ffyrdd drygionus:

Llafuria, gweithia ymysg gweithwyr byd
Bid d'enaid yn deilwng
Rhag ofn o fewn rhyw gyfnod
Id farw yn dy oferedd.²

Ceir cyfeiriad pellach at Edward ap Dafydd mewn ysgrif Lladin (dyddiedig yr unfed ddydd ar bymtheg o Ebrill, 1514), a argraffwyd yn "History of the Parish of Hanmer," t. 198. Rhydd ei hanes yn trosglwyddo ei hawl i eisteddle yn eglwys Hanmer i Syr Thomas Hanmer, ac i'w etifeddion am byth, a diau mai i'r un boneddwr y gwerthodd ei dir.

Nodir yn ysgriflyfr T. Salisbury, Erbistock, ei fod yn offeiriad yn Eglwys Hanmer yn 1313 (Thomas, *History of St. Asaph*, t. 823), ond dywedir yn Pennant, *Tours in Wales*, i. 282 (argraffiad Syr John Rhys), mai Cwnstabl Castell Caernarfon yn ystod teyrnasiad Edward I. oedd, a thystia Breese hefyd yn *Calendars of Gwynedd*, t. 125, ei fod yn dal y swydd honno yn 1306-1307. ³Cyndad teulu Hanmer, a thad-yng-nghyfraith Owen Glyndwr. Yr oedd yn un o farnwyr Llys y Brenin yn adeg Risiart II. ⁴"Iolyn pioedd plas iolyn yn hangmer ac a vu varw yn ddiectifedd o briod ai dir aeth yn rhan rhwng Edmwnd a jankyn," P. 134.

¹P. 267. ²*The Cambrian Journal*, 1859, t. 27.

Mae cyfeiriad at ferch y bardd yn "Cwrtmawr MS. 14, t. 183," lle y ceir rhestr gan Lewis Morris Môn o'r pethau hynotaf a welodd gan Sion Owen o'r Nant, yn Sir Ddinbych. Ymhlith pethau eraill enwir marwnad "Merch Dd. ap Edmwnd."¹

Yr oedd Dafydd ab Edmwnd yn ei flodau yn hanner olaf y bymthegfed ganrif. Enillodd y gadair arian yn Eisteddfod Caerfyrddin, a chytunir yn gyffredin mai yn y flwyddyn 1451 y cynhaliwyd honno drwy ganiatad y Brenin Harri VI. Gruffudd ap Nicolas oedd y brawdwr ar y beirdd, ac ysgrifennodd Ab Edmwnd bennill o fawl iddo am ei fawrddysg adeg yr Eisteddfod (rhif liii). Yr oedd y bardd erbyn 1451 wedi meistrolï'r gynghanedd a'r mesurau, ac yn hyddysg yn llenyddiaeth y canol oesoedd. Diau fod cynrychion ei awen yn lluosog, ac efe eto ond gwr ieuanc. Hwyrach mai cywyddau serch oedd prif ffrwyth ei awen yr adeg honno, ac ambell farwnad, oblegid yr oedd colli cyfaill yn cynhyrfu ei awen yn fwy nag yr oedd terfysgoedd y cyfnod. Mae gennym brawf iddo ysgrifennu ei farwnad i Ddafydd ab Ieuan ap Hywel o Lwydiarth ym Mon (rhif xli.) cyn 1461, canys lladdwyd y gwr hwnnw ryw bryd yn ystod teyrnasiad Harri VI. mewn ymladdfa yn Beaumaris rhwng milwyr y castell a gwyr y wlad oddiamgylch.² Mae'n sicr i Ddafydd ab Edmwnd gyrraedd gwth o oedran, canys ceir tystiolaeth yn ei weithiau iddo ganu rhai cywyddau o fewn ychydig flynyddoedd i ddiwedd y ganrif. Cyfansoddodd gywydd moliant i Sion ap Risiart abad Llanegwestl (rhif l.) Nid oes sicrwydd ym mha flwyddyn y penodwyd Sion ap Risiart yn abad, ond

¹ Dr. Gwenogfryn Evans, *Reports on MSS. in the Welsh Language, ii.* ² Llwyd, *Beaumaris Bay*, t. 19.

*of Thomas by Dafydd Hanmer,
p. XXXI*

efe ddilynodd Sion Llwyd oedd yn ben y mynachty yn 1485. Ymddengys mai oddeutu 1497-98 y bu farw, gan fod Dafydd ab Ieuan yn abad yno yn 1498.¹ Cyfansoddwyd y cywydd felly ryw bryd rhwng 1485 a 1497, ond ni ellir cyfyngu'r cyfnod, oherwydd nad yw dyddiad penodi Sion ap Risiart yn hysbys. Yn ei hen ddyddiau hefyd y canodd y bardd ei gywydd moliant i deulu Lleweni (rhif xlv.) Thomas Salbri, mab Thomas Salbri Hen, gan molir gan mwyaf, ond enwir y cwbl o'i frodyr a'i chworiydd. Cyfeirir ato fel Siryf Fflint:

Siryf a lefys yrru
Sir y Fflint fal sarff i lu;

ac ni phenodwyd ef yn siryf hyd 1495.² Gelwir ef yn y cywydd hwn hefyd yn 'Syr Tomas';

Syr Tomas wrias onnen
Salbri lle bu Harri hen;

ac yn y flwyddyn 1497 y gwnawd ef yn farchog gan Harri VII., am ei ddewrder ym mrwydr Blackheath,³ lle yr ymladdodd ar ochr y brenin yn erbyn gwrthryfelwyr o Gernyw. Ni chyfansoddwyd y cywydd hwn felly cyn 1497. Dywedir yn Llanwrin MS. 1, t. 155, mai yn 1490 y bu Dafydd ab Edmwnd farw,⁴ ond mae'r cywydd hwn yn cadarnhau iddo fyw o leiaf saith mlynedd wedi hynny. Claddwyd ef yn Hanmer, yn ol tystiolaeth Gutun Owen yn ei farwnad iddo:

Ymddifad wyf am Ddafydd,
Eglwys Siad yn i gloi sydd;

hynny ydyw, eglwys Sant Chad, a sefydlodd eglwys Hanmer.

¹ Lloyd, *History of Powys Fadog*, v. 148. ² Taylor, *Historic Notices of Flint*, t. 49. ³ Burke, *Dictionary of the Peerage and Baronetage of the British Empire*, t. 867. ⁴ Dr. Gwenogfryn Evans, *Reports on MSS. in the Welsh Language*.

Mae'n debig nad achosodd neb gymaint o gynwrf ymhlith beirdd Cymru ag a ddarfu Dafydd ab Edmwnd. Ei ddosbarth ar y mesurau cerdd dafod a fabwysiadwyd yn Eisteddfod Caerfyrddin oedd achos yr anghydfod. Yn yr Eisteddfod honno enillodd y gadair arian am drefnu y pedwar mesur ar hugain, ac am ganu arnynt yn orchestol. Ceir hanes ei daith i Gaerfyrddin, gyda'i ddisgybl Gutun Owen, a'i weithredoedd yn yr Eisteddfod yn P. 267, ac argraffwyd hanes tebig yng *Ngreal Llundain* (1805), o lyfr Iago ap Dewi. Gwrthdystiodd Gwilym Tew a Llawdden a beirdd eraill o'r Deheudir yn erbyn trefniad Dafydd ab Edmwnd, oherwydd na chynhwysai y cwbl o'r hen fesurau. Haerent mai gwag orchestion oedd y ddau fesur a ddychmygasai efe, ac awgrymodd Llawdden mai am obr a roddasai Dafydd i Ruffudd ap Nicolas, ac nid am ganu, yr enillasai ef y gadair.¹ Cyfeiria Gutun Owen a Lewis Môn at yr anghydfod, ac at waith Ab Edmwnd yn cipio'r wobr, yn eu marwnadau iddo (Atodiad II. a III.) :

gwraidd vu, gyrrodd ai vin
 ynghur veirdd yng nghaer vyrddin.—G.O.
 trychant yn taro i ochel
 trwy bawb i dvg ynte 'r bel.—L.M.

Gan nad oedd y dosbarth hwn yn gymeradwy gan feirdd y Deheudir, trefnasant i gynnal eu heisteddfod ar wahan i feirdd Gwynedd. Parhaodd y rhwyg am ganrifoedd. Gwnaethant ddosbarth arall ar y mesurau cerdd dafod a alwent yn 'hen ddosbarth,' a mabwysiadwyd ef yn 1681 yng ngorsedd Bewpyr. Ond dychmygu mesurau newyddion a wnaethant hwythau mewn gwirionedd. Cyhuddwyd Dafydd ab Edmwnd gan feirdd y Deheudir ar hyd yr oesoedd,

¹P. 267. Gwel rhif lxxv.

yn enwedig gan Edward Dafydd, Llewelyn Sion, a Iolo Morgannwg, o ddefnyddio pedwar pennill ar hugain yn lle pedwar dosbarth ar hugain o fesurau; a cheisiodd Gwallter Mechain brofi mai o fesurau Morgannwg y tardd pedwar mesur ar hugain Dafydd ab Edmwnd.¹ Ond nid oedd mesurau Morgannwg mewn bod yr adeg honno. Dau fesur yn unig a ddyfeisiodd Dafydd, sef y Cadwynfyr a Gorchest y Beirdd. Hen fesurau oedd y gweddill, ac enwir y cwbl oddigerth yr Hupynt Hir yng ngramadeg Llyfr Coch Hergest.² Y ddau fesur wrthododd oedd y ddau fesur Englyn o'r Hen Ganiad. Rhannodd yr Englynion Proest i ddau ddsbarth yn lle i dri fel cynt, ac ychwanegodd yr Hupynt Hir, hen fesur y cenid arno yn gyffredin yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Heblaw dyfeisio dau fesur hynod gaeth o newydd, mynnai ychwanegu at gaethter dau arall, sef yr Hupynt a'r Tawddgyrch Cadwynog, trwy ddefnyddio odlau cyfochrog (*double rhymes*). Ei amcan yn gwneud hynny oedd codi'r safon y gofynnid i ddisgyblion ei chyrraedd, er gwahardd y rhigymwyr diddysg, diddawn oedd y pryd hwnnw mor chwannog i fwynhau breintiau'r beirdd.

Ystyrid Dafydd ab Edmwnd gan yr hen feirdd y goreu o brydyddion gwlad Wynedd, a chredent nad oedd neb yng Nghymru a ganai yn ogystal ag ef ar fesur awdl. Canmolir ei athrylith gan Tudur Aled, Gutun Owen a Lewis Môn yn eu marwnadau iddo. Barn Tudur Aled oedd mai ei ewythr oedd yr unig un o feirdd Cymru y gellid ei gymharu a Dafydd ap Gwilym:

¹ Gweithian Gwallter Mechain, iii. 125. ² Gwel erthygl yr Athro J. Morris Jones yn *Zeitschrift für Celtische Philologie*, iv.

ni bu fyw neb fwy i awen
ond da fardd glyn teifi wen,
mab gwilym heb gywely
heb iddo frawd ni bydd fry.

I Iolo Goch y cymharai Gutun Owen ei athraw:

nid eiliodd onid Iolo,
yr ail fal yr eiliai fo.

Fel yr awdurdod uchaf ar y mesurau y canmolai
Lewis Môn ef, ac am ei allu i gyfansoddi arnynt
mor orchestol y canai:

y dull o'i gerdd, deall gwych,
yw diweddgrefft ar dowddgrych;
caid owdl o frig gwawdodyn
caid yn frau cadwynfyr yn.

Ond gogan geir iddo gan Uto'r Glyn. Chwerw
iawn oedd teimladau'r naill tuag at y llall, ac y mae
eu cywyddau ymryson yn lled anghoeth. Argreffir
dau o gywyddau duchan Guto yn yr Atodiad.

Maredudd ap Rhys oedd athraw barddonol
Dafydd ab Edmwnd, a bu yntau yn athraw i Dudur
Aled a Gutun Owen. Mae ei gyfansoddiadau yn
hynod am gywreinrwydd eu ffurf. Nid oes ganddo
yr un awdl yn cynnwys y pedwar mesur ar hugain,
ond ceir yn ei weithiau engreiffiau o gynifer a
phymtheg o honynt, yn ol fel y trefnwyd hwy
ganddo yn Eisteddfod Caerfyrddin. Mae cymeriad
llythrennol mewn nifer fawr o'i gywyddau, hynny
ydyw, yr un llythyren sydd yn dechreu pob llinell
(gwel rhif i., viii.) Mewn amryw o honynt hefyd
ceir cymeriad cynganeddol, hynny yw, mae dechreu
y llinellau yn cynganeddu a'i gilydd (gwel rhif vi.),
ac yn ei awdlau mae cyrch gymeriad, sef y gair olaf
yn y pennill yn dechreu y pennill nesaf ato, a'r gair
olaf yn yr awdl yr un a'r gair cyntaf ynddi (gwel
rhif xxxviii. a xlvi.) Rhed yr un brifodl trwy ei

awdlau hefyd, ac y mae'r odlau eraill yn aml yn gyfochrog (gwel rhif xlix.) Heblaw hyn, cynhwysa ei gywyddau gynganeddion gorchestol a chywrain, er enghraifft, ceir y gynghanedd groes rywiog ymhob llinell o rif xix., a gellir canu rhif lii. wyneb gwrthwyneb. Ond er caethed ei reolau, mae llawer o'i gywyddau yn dra rhagorol.

Er fod y bardd yn ei flodau yn adeg Rhyfeloedd y Rhosynnau, prin y crybwylla ef am dertysgoedd y cyfnod. Cywyddau serch yw prif ffrwyth ei awen, ac y maent yn nodedig am eu disgrifiadau o brydferthwch merch; er enghraifft:

dy laeswallt fal dy lusael,
dy ddrem fal duedd yr ael;
dy bryd fal dillad brodyr
du a gwyn i hudaw gwyr;
dy wyneb fal od unnos,
dy wrid fal bagad o ros.

Gwych yw ei ddisgrifiad o wallt melyn hefyd:

aur yw'r llwyn a'i roi ar lled,
a fu lwyn cyn felyned . . .
a'i lewych noswyl Ieuan
a'i frig yn debig i dan . . .
tegwch i grudd fal rhuddaur
twyn o wallt fal tonnau aur . . .

Cyffelybir y rhai'n er moli ei phrydferthwch i gymeriadau yn chwedlau Cymru Fu, megis Olwen, Enid, Eigr, Esyllt ac Indeg; a chymhara'r bardd ei hun hefyd, er dangos maint ei gariad, i gymeriadau y sonnir am danynt yn y rhamantau. Siomedigaeth o fethu ennill gwrthrych ei serch yw ei destun yn fynych, ac aml y cyfeiria at ei dristwch o'r herwydd:

y mae i mi am y myd
wyneb un yn i benyd . . .
e fyn hiraeth fy nhorri
am hon ni wyr ymhoen i.

Rhydd gynghorion i'r fun i ymwrthod a'r balch,
a'r ffol, a'r cybydd, a hefyd y rhyhael, canys

nid gwell rhyhael, anfael fydd,
yn rhoi i gwbl na rhygybydd.

Heblaw defnyddio prydferthwch natur er dis-
grifio tegwch Gwen, ceir yn ei gywyddau ychydig
ddarluniau o olygfeydd natur ar wahanol dymhorau.
Goganu'r gaeaf wnai yntau fel Dafydd ap Gwilym:

ni ad nos hir na dwyn serch,
na byrddydd i neb ordderch,
braen yw dail a brwyn dolydd
barugog yw brig y gwydd . . .
gwae fi dan y gaeaf du
gem gwyr nad gwiw ym garu.

Can fawl i'r ywen sydd a'i dail yn wyrdd ynghanol
gaeaf:

a bron goed heb yr un gwyrdd,
ond ywen mewn gown duwyrdd;
dail ir hardd ar dal y rhiw
dail sidan dulas ydiw.

Yr haf oedd ei ddewis dymor ef; a dengys ei ddis-
grifiad o'r deildy fis Mai fel yr ymhyfrydai wrth weld
y fron yn dechreu glasu, a'r blodau yn ymagor:

taer fudo tua'r fedwen
ty gwyrdd i letya gwen . . .
llen a'n cudd rhag llun yn car,
llwyn yw'r oed llawn o'r adar,
dug ar i vrig diagr fry
do syndal dewis hundy . . .
llygaid dydd a fydd i ferch
llenlleiniau llwyn a llanerch . . .
a rhidens ar i hadail
a rydd duw o wyrdd y dail.

Hoff oedd hefyd o glywed swynol gân yr adar:

awn i gael yn y gwely
araith gan y fronfraith fry . . .
a dal ar gerdd odlau'r gog
ac adar y fron goediog

a chlywed uchel eos
ni thau ar nen i thy'r nos.

Ond ni rydd Ab Edmwnd ddisgrifiadau o'r adar fel geir yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym, ac nid oes cynifer o fanylion yn ei ddarluniau o natur ag y sydd yn eiddo'r prifardd.

Ceir ymhlith cynhyrchion ei awen hefyd amryw gywyddau gofyn a chywyddau moliant i bendefigion yr oes i'w clodfori am eu dewrder a'u haelioni. Canmolai Sion ap Risiart, abad Llanegwestl, am ei fawrddysg a'i garedigrwydd, a dengys ei gywydd yn eglur fod yr abad a'r mynachod yn fawr eu parch gan y beirdd yn yr amser hwnnw. Canai Gutun Owen a Guto'r Glyn hwythau i abadau Llanegwestl yn yr un cyfnod, ac y mae'n amlwg fod yr elyniaeth fodolai rhwng y beirdd a'r mynachod yn adeg Dafydd ap Gwilym a Sion Cent wedi diflannu, canys croesawai'r abadau y beirdd yn niwedd y bymthegfed ganrif, a gwerthfawrogent lenyddiaeth Gymraeg.

Cyfansoddodd Dafydd ab Edmwnd, fel y mwyafrif o feirdd Cymru, amryw gywyddau duwiol. Pabydd selog ydoedd wrth gwrs; addolai Fair, a chanodd gywydd moliant iddi. Ystyriai mai trwyddi hi y cai fynediad i'r nefoedd:

nid awn bun n'ad in boeni
i'n tre tad ond trwyot ti.

Cyfeiria at ei phum pryder a'i phum llawenydd yn y byd, a'i saith goruchafiaeth yn y nef, yn ol fel y dysgai'r offeiriaid Pabaidd. Credai ei bod wedi ei dyrchafu'n uwch na'r angylion, a bod pawb "fry yn ei henwi'n frenhines." Edrychai ar y Duw Dad fel awdur pob da, a chyfrannwr pob bendith; a chanodd am ddyfodiad Mab Duw i'r byd i ddwyn

croes er prynnu dyn. Canfyddir oddiwrth Englynion y Misoedd (rhif lxiii.) y parch a dalai i goffawd-wriaeth y saint. Ffuriant fath o galendar yn nodi'r gwyliau a gynhelid yn y gwahanol fisoedd. Ystyriai'r saint a'r merthyron fel noddwyr iddo, a chredaf ei fod yntau, fel y rhelyw o babyddion ei oes yn dymuno rhan yn eu heiriolaeth.

Barddoniaeth Ab Edmwnd oedd cynllun y beirdd am amser maith. Mabwysiadwyd ei reolau gan feirdd Gwynedd yn gyffredinol. Cadarnhawyd hwy yn Eisteddfod Caerwys yn 1523, a hefyd yn yr ail Eisteddfod a gynhaliwyd yno yn 1568.

Dengys ei holl gyfansoddiadau fod ganddo allu neilltuol i gynganeddu'n orchestol. Ond ni sylweddolodd mai cyfyngu ar ei ddawn farddonol yr oedd wrth ofalu cymaint am gywreinrwydd ffurf; a rhaid cyfaddef fod caethter y mesurau ddyfeisiwyd ganddo yn llyffetheirio awen.

ERRATA.

Tudalen 31, ll. 5, darllener 'ddlae' yn lle 'ddylae.'
,, 37, ll. 4, ,, 'aeron' ,, 'areon.'

CYWYDDAU AC AWDLAU SERCH

I

COWYDD I FERCH AC EF YN GWILIED DAN Y PARED

[ADD. MS. 14967]

dyn wyf yn kerdded y nos
dedwyddach oedd dy diddos
dyn hurt am gerdded yn hwyr
dros hyn duw aro synwyr
du arnaf ydiw oernos
duw dy nawdd dued y nos
dyn ni bu ar dyno bach
dan bared wyneb oerach
deffro vvn differ venaid
duw dyn blin sy dan dy blaid
dyro ti a gai deiran
dy wisce dy gardod i wan
dy lety dy law ataf
dy dec korff dywaid ai kaf
[dy fwyn air er dy fonedd
dy fin fal diod o fedd]¹
dy vaeth dy gellwair dy vodd
dy veinael am di vwynodd
dy laeswallt val dy lusael
dy ddrem² val duedd³ yr ael

¹ B. M. 29. ²drem; ³dued, C. 7.

dy bryd val dillad brodyr
 du a gwyn i hudaw gwyr
 [dy wyneb gwyn di enwir
 dwy ael o liw dv o lir]¹
 dy wyneb val od vnos
 dy wrid val bagad o ros²
 dy garv di a gerais
 dy gas ym nis dygai sais
 dic wy yn arwain dy gerdd
 dann vargod yn overgerdd
 [du law a wna dialedd
 defni yngwallt difwynaw ngwedd]³
 drwyr⁴ ffenestr dyror⁴ ffunen
 dy vam hael i doi ym henn
 dy gerdd ymhob gwlad a gaf
 dy bwyth nis di obeithaf
 dy garv ym digio rwy
 diseml wyd disyml ydwy
 digon kayad yw dogylch
 dyn dec wyd nawdd duw [n]⁵ dygylch
 dic wy yn arwain dy gan
 duc ym gas⁶ dwe ym gusan
 dy gyngor rrac dic angen
 davydd⁷ i gael dy vodd gwen

DD AP EDMWNT AI KANT

¹ C. 49. *dy rudd fal cafod o ros, C. 64. ³ B. M. 29.
⁴ drwy . . . dyro, C. 7. ⁵ B. M. 29. ⁶ dygym gas, C. 7.
⁷ da vydd, C. 49.

KOWYDD MERCH

[CARDIFF MS. 11]

Addo imi dda am wawd
 oedd i wen yn ddi ddamawd
 kynig avr kynig arian
 kynig pob kyleneig lan
 nid hwn ywr gwerth aberthyn
 ni wysnaetha da yn lle dyn
 o gwna yn ol i chanmolwr
 fo wna gwen ofyn yw gwr
 molais wen yn hemylav saint
 i dduw ir archaf feddevaint
 da liw gwallt ar dal gwyn
 dwy did avr ar dy dorvn
 os y ferch a anerchaf
 ni wn i pa vn a wna
 ai mynv ym i hanerch
 ai bwrw swyn i beri serch
 moesed oi gwallt ir allt draw
 ede hir iw di hevraw
 mine yr haf a geisia gwyr
 i rroi swyn ar i synwyr
 mi a swyna ar afal
 yn llawr ddyn lliw eira . . .
 irimwyn riw swyn ysydd
 bevnoeth ar j gwbenydd
 diod trystan im anerch
 a barafi lle bor ferech
 i brawd wyf ef a roed ym
 galon dafydd ap gwilim

ynfvd am geilw yn anfwyn
ymhob tir i megir mwyn
ni bv er yn oes moesen
yn bwyta bara yw ben
vn gwr mor wan o gariad
yn byw yn hir a mab ynhad
och dduw na chawn ddewis
ai myd ai mowyd vn mis
kael gwen am gwnai yn fyw enyd
oni chaf wen yn iach fyd

DD AP EDMWNT AI KANT

III

I GARI MWYN

[CARDIFF MS. 49]

Gwr y ty gariad diwyd
gynne fvm mi gwynn fy myd
am nad oedd er mwyn y dyn
yn oed dydd onid devddyn
agos iawn i gyssanav
yn vn an dwyn yno /n/ dav
da fv gael i dyfv gwir
dwylo ymwnwgl dal meinir
yr wyf a mel ar vy min
yn ir ol enav evrin
gwr vyddwn meingryf iddi
gida honn pes gadai hi
vy meistres fv am estron
vorav a hwyr vavr yw hon

minav sydd mewn y syddyn
mal ar dasg yn moli /r/ dyn
gemav gwydd a gae om gwaith
gwas amod a gais ymaith
bevnydd i gwnaf eb vnoed
bedwar kae or bedw ar koed
a gerlont o vrig irlwyn
a gair mawl i gari mwyn
ymodais i ysmudaw
or lle /n/ y dref ir llwyn draw
taer fvdo tvar fedwen
ty gwyrdd i letya gwenn
mae yno goed mwyna gawn
megis o nennav meigiawn
gaer oed dydd gorav tyddyn
gwydd a dail i gvddio dyn
llenn an kvdd rag llvn yn kar
llwyn yw /r/ oed llawn or adar
dvg ar i vrig diagr fry
do syndal dewis hvndy
melfed yw tersed y tir
mai llvndain y meilliondir
llygaid dydd a fydd i ferch
llenlleiniav llwyn a llanerch
gwynion ar fanblv gweynvdd
gwely teg i gael oed dydd
a ridens ar i hadail
a rydd duw o wyrdd y dail
awn i gael yn y gwely
araith gan y fronfraith fry
kyd gysgv kyd brynv baint
kyd orwedd lle kaid erwaint
a dal ar gerdd odlav /r/ goc
ac adar y fronn goidioc

a chlywed vchel eos
ni thai ar nen i thy /r/ nos
vy llwyn a vo llywenydd
falle fvn mac velly fydd
angel bryd yngwely brwyn
ai gwrlid o vrig irlwyn
angylion bob ton in ty
angyles ar vyngwely
nid a om kof dameg gwen
down i vyd dan y fedwen
am enaid mi a meinir
a el i nef o lwyn ir

DAVYDD AP EDMWNT AI KANT

IV

KOWYDD O WAITH DD AP EDMWNT
I GARI MWYN I GEISIO GENTHI
EGOR Y DRWS IDDO PAN OEDD
EF DAN Y PARED MEWN REW AC
EIRA

[LLANSTEPHAN MS. 163]

Gwawr bryd¹ o gaer beredvr
gari mwyn egor y mvr
kares havl kaerav selen²
kam a wnai gav dryssav drem
ath vardd ath gydymaith vo
allan i hvnan heno
am le klyd mewn amlwc klos³
yr ofnaf ar aeafnos

¹ gwawr brydain, B. M. 55. ² selem, B. M. 23; salem, B. M. 55.

³ ar oerllyd ros, B. M. 55.

mae od yn gwnevtivr mevdwy
 mae yn y bais mi a wn bwy
 [maer eira nid mwyr oroen
 jm krys rrwng ymhais am kroen]¹
 ar bais yn oeri eb wedd
 ar anwyd or ewinedd
 iownach rac kas ne enwir
 kavv ty no rac kariad hir
 arthvr ydwyf wrth rodiaw
 am y drws oddiyma draw
 arnaw bv gyfeiliorni
 yr vn vodd sy arnaf vi
 eisie medrv drws medron
 ar gaer vry² ar gwr y vronn
 oer ym or barvc ar ia
 yw r mentyll i remanta
 a nofio tv ar pared
 or llwch am devfraych ar lled
 y nofiad a wnaeth neifion
 o droya vavr draw i von
 och nad gwiw ychenaid gas
 ymy alw am grefft melwas
 y lleidr o hvd a lledryd
 aeth a bvn i eitha byd
 ynghoed yr a dringhiedydd
 i fwrw kaingk o vric gwydd
 a dringo heno val hwnn
 yn vchel a chwenychwn
 er dy fwyn yr ydwyf vi
 mewn eira yma yn oeri
 dyred vyn raed a oerai
 dyro dy beinn drwy dy bais

¹ B.M. 23.

² vraith, B.M. 23.

ath law yn vn oth lewys
ac ar llall egor y llys

DAVYDD AP EDMWNT

v

CYWYDD I GARI MWYN

[CARDIFF MS. 49]

O dduw para vyd a ddaw
a fydd elw o vyddyliaw
am a ddaeth im ddoe a wn
am a ddel y myddyliwn
y meddwl y mae eiddig
yn i ddwyn a wn o ddig
gwae a ddyg ag a ddygai
gofal am vn gyfliw mai
my vi af i ymovyn
my vi ni wn mae fy nyn
mynwes gvl am nas gwelais
mi a wn rif minev rais
i mae imi am y myd
wyneb vn yn i benyd
wyf gul pawb a vo gelyn
i wen i thal a wynaeth hyn
gwlyb ywr grvdd a glybwr g[wres]
gwlybwr ffynnon galabes
di hinon yw yn bron an bro
di hinedd ydiw heno
oer ywr gwynt oyra ar a g[aid]
oerach hin ywr ychenaid

gweddio poed gweddw fo p[wy]
 gwraic vn o gaer i gonwy
 ychydig yr meddig mav
 a ddyall fyngweddiav
 doe ir llv y darlleais
 dwy rol ar bared yr ais
 orgraff ar gorbedw ir grwyn
 awgrym yw i gar[i] mwyn
 magv serch mav gas orch[wyl]
 myn yr hin nid mwyn yr [hwyl]
 megais ar fron^t y magwn
 mab o hvd mi bie hwn
 llyna dwf nid llai nai dad
 llvn gwr yn llawn o gariad
 oes vn ferch mor gvsanwyn²
 a gair mab o garv mwyn³
 i glangorff ni chais glvngoed
 yn arwydd ym ni rydd oed
 hwyr i ddai herwydd a wn
 e hi ir van yr ervyniwn
 hwyr vinav llei hervyniodd
 hwyr ar var herwr oi vodd

DAVYDD AP EDMWNT AI KANT

¹ megis ar vodd, B.M. 24.

² na gwas anfwyn, B.M. 24.

³ gari mwyn, B.M. 24.

KOWYDD O WAITH DAFYDD AP ED-
 MWNT I DDIOLCH AM GAE BEDW
 A ROESAI KARI MWYN IDDO YN
 ARWYDD

[LLANSTEPHAN MS, 163]

karv r wyf is kwr yr allt
 kari mwyn kwyr i manwallt
 karv r oedd kerir addwyn
 karv i mae kari mwyn
 karwyf megys i kerais
 kari¹ a vriw korf yr ais
 kariad pa ham i kerym
 kares oedd kae a roes ym
 kymar yw kae ym a roed²
 kyweirgorn kaeav irgoed
 kae ar y vronn kowir vric
 kowyddwr nid kae eiddic³
 kae ir yw hwnn kari hael
 kyweithas val kae ithael
 kywaethoc yw r kae⁴ weithion
 kywaeth yw kae o waith hon
 kelv y ddwyf kael o dda
 kenioc ar lvn kae anna
 [caewc o dewvrig gwaiail
 caeau y deau ai dail]⁵

¹ caru, B.M. 32. ² cyweir ym yw r cae a roed, B.M. 29.

³ kaf rent am ddwyn kae o vrig
 kywyddail nis kae eiddig, C 7.

⁴ kywaethoc im kai, B.M. 23. ⁵ B.M. 29.

kyffesaf nas kayff oesoedd
 kadwa i swllt kae dewis oedd
 kefn hwnn ni ad¹ kof yn hwyr
 kae vy nith verch keifn neithwyr
 kae vy nith verch keifn ni ad
 kwngkwerio kangav kariad
 kari a wnaeth kowrain wedd²
 kyd bwysso koed ai byssedd
 kymhessvr i kymhwysai
 kymwys ym yw kae mis mai
 kae vyllyn i kaf oi llaw
 koed vnyd yn kadwynaw
 kae o vrys rwym kyfrwys rodd
 kyfrwysdra ai kyfrestriodd
 kefais o vanfedw kyfyn
 koed trwy goed kae tri ac vn
 kae ierwerth vab y kyriawc
 kyfriw hwnn nis kaf y Rawc
 kynglyn rwym yw r kengl anrec
 kae ynglyn o dair konglen dec³
 kedwir ef or koed yr oedd
 kae yn dlws kenedl oesoedd
 koed vanwyl kadwai veinioes
 kae da rawc pe kaid ai roes

DAVYDD AP EDMWNT

¹ cefn hwn y daw, B.M. 32. ² Cari a wyr cywir wedd, B.M. 29.

³ Cenglyn o dair cenglen deg, B.M. 32.

KOWYDD I GAE BEDW A ROESAI
WENN HWLYN YN ARWYDD I DD
AP EDMWNT

[LLANSTEPHAN MS. 163]

Manylgae mwyn wialgoed¹
mawr i waith i mi a roed
irwydd llwyn yr oedd ai llaw²
wenn hwlyn yn³ i heiliaw
o rodd y verch yr oedd fav
ysgwier eos gaeav⁴
am gae Raid ym garv honn
a roes gwenn o wrysc gwynion⁵
ar ol Roi or ail Riain
i vadoc hett o vedw kain
gwenn a roes o gae ni rydd
gyd efell i gae davydd
bendiged pob vn degan
bowyd ym yw or bedw man
gwell i mi no gallv mon
gael mw nai gwiall meinion
dime goed vel dyma gael
dor nyth y deryn ithael
ystol megys y delyn
ar svd oc a roes y dyn
dillin yw or dvl newydd
da i gw nai wav digon o wydd
vgeinkaingk pei gw nai gankae
a wnai n y koed yn vn kae

¹vy mvn eilgoed, B.M. 23. ²evrodd ai llaw, C. 5. ³wrth, C. 5.

⁴ysgeiyr oes o gayav, C. 5. ⁵o ros gwynionn, B.M. 23.

ysgewyll y sy gaewydd
ac yn y gwaith egin gwydd
evrych ni wnai o arian
a waeodd merch o wydd man
o myn i troi ym nid Raid
ymgvraw^t am gae evraid
gofyn ym a gaf yn nes
gae manwydd i gav mynwes
bedw davell bawd a devvys
bvn ai bath ar benn i bys
kawn oi gwaith val kenioc wenn
kroesgae nid o vric gwrysgen
mwynyn yw meinion wiail
meinwen rodd mynwn yr ail
echwyn yw i chae newydd
i vn ai tal yn oed dydd

DAVYDD AP EDMWNT

VIII

KOWYDD GORCHESTOL I WENN HWL-
YNN I EDLIW IDDI I BOD YN
GYHYD YN WEDDW.

[ADD. MS. 14866]

Hawddfyd ir ddihuddai fau
hiraythus i hareithiau
hwyr i byw yn hir oi bodd
hwy noi gwr hwn a garodd

^tym gvrio, C. 5.

hi ni fynn yw hen fwynwas
honni i cherdd hyn yw i chas
hydawdd arnaf i hoedi
hyd y dydd im hudwyd i
hudol meddai hi ydwyf
hyd y nos i hadyn wyf
hi ni ad ym hun o daw
heno heb fy nihunaw
hynfer^t a wnaeth i hanfodd
heb ym i chael hi oi bodd
hi ni wra henw arall
heb roi 'i llwyth heibio ir llall
hipiawdd lawer oi hepil
heb parhau i hap ar hil
help lesg oedd i hilio plant
hi 'n weddw o hwn a wyddant
haws oedd gynhwysio iddi
hil falch pe cynhaliai fi
hiliwn o wen hwlyn wyr
haelion a beirdd a helwyr
hi ar don hwyr odineb
hwyl y nyn ni hilia o neb
hon er dwyn i henwr da
hiraeth ai lludd hi i wra
hi a ddug ni haedd ogan
hirddu glog hardd yw a glan
hinon a wnai wahanu
hoen o ddyn a hyn o ddu
henwer gwen hyny yw r gwir
honno megis i henwir
hanmer wawr hoen merwerydd
hyd i del hi ydyw y dydd

^t hvnfyr, P. 99.

henwi i ddwyf hyn o ddyn
haul faelawr o hil felyn¹
hin o bell a henwa byd
huan ail i hanwylyd
hylaw lun² haul oleuni
hin o nef yw hon y ni
hoen lluwch yn dwyn henw oi lliw
henw o dad hynod ydiw
heulwen caer hwlyn ceri
honno fyth a henwa fi
hyd awst am barhau i dyn
hyd awst i hoed a estyn
hyd awst os hi a dystiwn
hyd awst i hoedi a wn
hyd awst val hwyaid estyn
hyd awst ni hedai un
hyd awst nid hoyw i dyscu³
hyd awst tra byrha i dy
hi ni ad ym hyn a wn
hi ni fynn hyn a fynnwn

DAFYDD AP EDMWND

IX

CYWYDD I GYNGHORI MERCH NA
PHRIODAI NEB O NIS CAI EF HI

[ADD. MS. 14866]

Truan im pen bob ennyd
trefnu bar tra fwy n y byd

¹ hoywliw felyn, C. 49. ² hyloyw lun, B.M. 52.

³ dystu, B.M. 52.

tal ni welaf i Ddafydd
twyll ym o serch y ferch fydd
tra gwan im gyrodd anyn
troes ym obaith maith y myn
troes air mal trysor i mi
trafael oedd trwy fawl iddi
tewi ni wnafl am tafawd
tra fwy n gwau terfynau gwawd
ton wenlliw tywyn unllathr
tegwch gwyn ar fryn llynn llathr
teg yw r gran tw Eigr i grudd
trem wych yn troi y muchydd
tegwch i grudd fal rhuddaur
twyn o wallt val tonnau aur
tidau o liw golt ydoedd
topyn dlos tw banadl oedd
teg gan hwyr lliw gloywgwyr glan
tywys iad tew o sidan
tegwch bun ni ad unoed
tebig i wyllt Essyllt oed
llwyr drwy iownder llaw r drindod
lliw ar y nyn lloer ne od
ym onid gwiw gloywliw glan
i charu ddyn wych eirian
gwn ystor o gynghorau
lle caiff hon oll i coffau
na fynned aur funed fain
gwawr nefolys garn filain
drwg fydd ffrom wrth i omedd
gwaetha bai bawai eb wedd
nid gwell rhyhael anfael fydd
yn rhoi i gwbl na rhygybydd
a fo 'n falch oi fewn oi fodd
a fo 'n ffol ef a ffaeliodd

a fo'n goeg heb fynnu gwir
a fo'n wag a fanegir
mab dioedran fydd anwr
meddal gamp nid meddwl gwr
a bryno hen fargen faith
obry'n ol a bryn eilwaith
nid oes dyn nad ystaeniai
a bery fyth heb ryw fai
dyma nghyngor uwch forwyn
yn niwedd rhaid fenaid fwyn
na fynnych radd ai addef
yn wr ond angel o nef

DAFYDD AP EDMŪD

x

KOWYDD MERCH

[CARDIFF MS. 7]

kerais ferch kares sy fav
kariad fwyn kared finav
kyflowndaith kyfliw indeg
kyflvn a deifl koflwen deg
kaf anerch ddyn kyfiownwedd
kanwyll fwyn kawn oi llaw fedd
kaf yn hawdd kyfenwi hon
kariad twbwl kar atebion
kyfyn gorff kyfion i gwedd
kyfenw hon keifn i bonedd
keifn hwynt akkw finav
keifn i hon im kyfion hav
kyroned ferch om kyrenydd
kvtvn yw rrwym koed tew rrydd

keifn ym kyfyn a mi
kyfyn oeddwn keifn iddi
keifn ymyn keifn enw mav
kyfenw myn keifn i minau
kait tav ifaink kyt tyfyn
keifn a bardd kof a wna bvn
kad yno fal kadwynav
kyfion o serch keifn nos iav
kefais vnwaith im kyfoed
kyfliw non kyfyniaw oed
kvr yw trais kariad trassyth
kaid hvn fwyn pe kaid hon fyth
kaid wyneb kafod vnnos
kaid gwyndo lawn kaid gwendlos
knawd mwyn goris knwd manavr
koed yn walld kydwyne avr
kanodd y modd kanaid mwyn
kyn wned eira kyn wanwyn
kynwys oedd kenais iddi
kroyw wedd ton kyrvaidd wyt ti
karodd dros gael kerydd draw
kaiff eiddig koffav iddaw
kaf y ddynd kof yw i ddyg
kar iddi nim kar eiddig
karv gwen yw kvr y gwr
kar i iago ywr krogwr
kassaed wen kas ai dwg
kyfriw esdron kyfrwysdrwg
kaiff ar wawd koffav i ran
kaiff hwn gas kaiff hon gvssan
kaiff vn dig in koffa yn dav
kaffwy fvn ka ffo finav

DAUIDD AP EDMOND AI KANT

KOWYDD A WNAETH EF IR YWEN

[CARDIFF MS. 49]

O gwneythym a gwraic¹ neithwyr
 o chenaïs gerdd och nas gwyr
 ar vrys pann evthym ir fronn
 ar annerch i wyr einion
 ir vn wych yr awn vchod
 ir a gawn o Rew ag od
 gway ni chay amgenach hin
 gwely brwyn gwilio brenin
 ir mwyn gwenn or main gwinion
 oes vnnos wyl i sain sion
 [a]² bronn goed eb yr vn gwyrdd
 ond ywenn mewn gown dwyrdd
 ir ywenn awn inav /r/ nos
 yno vnawr yw nownos
 yr haf mi a wiliaf wenn
 ar gayaf dan fric ywenn
 adail gronn a dalgrynnodd
 vn llaw mab yn well i modd
 twr³ y saint ai torres hi
 torriad ywen tir dewi
 bro⁴ ni chaid heb rann oi chvr
 bro siessi⁵ brwysiaf assvr
 dail ir hardd ar dal y Rhiw
 dail sidan dvlas ydiw
 y svl or grawys olaf
 y ddawn a hi⁶ i ddwyn haf

¹ ir gwraic, C. 5. ² C. 5. ³ towr, C. 5. ⁴ bron, P. 56.
⁵ siessin, P. 56. ⁶ ai hyw, P. 56.

[go]lvd davydd ap gwilym
 [g]wydd i fedd sy gvddfa ym
 siop wibwrn dros yw pybyr
 syth i gwallt yn sevthv gwyr
 syndal yw newis hvndy
 satan teg yw svt yn ty
 dragiwyd i mwng drwy goed man
 dragiav bob mis a drigan
 ysto krys eosdy kred
 ystavell eos dyved
 ywen ni bv yn y byd
 i neb vnpren vn benpryd
 ydrychen y fedwen fav
 wengron oll yn grinellav
 ar ywen lle i mae /r/ ewig
 ar y brynn yn ir i brig
 iawn yddoedd yno i ddevddyn¹
 gosod oed i geisio dyn
 vndydd a naw a devddeg
 yr awn² dan yr ywen deg
 ywen ai dail yno i daw³
 oni ddel onn i ddeiliaw
 ir ywenn doed wen ir dydd
 yno i dof vinav davydd

DAVYDD AP EDMWNT AI KANT

yno dd oedd iawn i ddevddyn, P. 64. ²a rown, P. 56.

³ywen a dail yn y daw, P. 56.

CYWYDD Y DRAENLHWYN

[ADD. MS. 31055]

J selu merch oes le mwyn
 ond or vnlhe mewn draenlhwyn
 duwsul yr ymgadwasom
 dann ei phriw rhag y dyn phrom
 trwsiad merch ai hwtreswr
 troi'n ei gylch or truan gwr
 da vu r lhwyn dyfu ar lhed
 dros devdbyn dyrys dvdhed
 a da vu dhuw nyd wyf dhig
 roi gwydh y rwygo eidhig
 o dhidlawd yspadhadlwyn
 y mae r lhys nyd mawr y lhwyn
 yn gaer dann yr vn goron
 wydr a chalch wrth edrych honn
 y gwydr yw'r dail ar goedydh
 ar blaid galch yw r blodau gwydh
 cas eidhig coesau Jdhew
 castelh o berth dywelh dew
 dann berth o daw neb wrthi
 dos hwnt medh ei dwyais hi
 ydh oedhym y dydh eidhiw
 yno a'n lhys yn vn lhiw
 a dail a blodau yn do
 anodh ein gweled yno
 glasach wyf na'r dail gleision
 gwnnach no haeach yw honn
 yr dheudhyn yr oedh adhas
 enwog lwyn o wynn a glas

awn ai bvn¹ yno bevnydh
glas a gwyn dann glos y gwydh
DAUYDH AP EDMWND

XIII

KOWYDD MERCH

[CARDIFF MS. 7]

ysowaeth nos o ayaf
ym sy hwy na mis o haf
ni ad nos hir na dwyn serch
na byrddydd i neb ordderch
braen yw dail a bron dolydd²
barvgog yw brig y gwydd
o dawn ni i imweled vnwaith
ag vn dyn mi a gawn daith
ef a wnai ayaf vnos
eira folrrain ar foelrros
gwae fi dan y gayaf dv
gem gwyr nad gwiw ym garv
[mi a rrodyais may rrodwyd]³
ar od trwm oer yw tramwy
ag ar rew mawr ag eira mwy
gwen rry ofer ywn rrafael
yn dy gylch ni wn dy gael
a fynyt ti fi enyd
er na bai wr yn y byd

¹ awn ni bun, C. 12. ² a brwyn dolydd, C. 19. ³ B.M. 48.

ni mynyd di vn mwyn doeth
na fyn vn anfwyn anoeth
ag na ad ferch genyd fod
oni neir a wnawn erod
dyn wy pei gwypyd a nai
dy fryd nim difrodai¹
allan fyth y gallwn fod
er dy fwyn ar dew fanod
heb y mwyd fal i bwm i
a hep hwn ai gwiw poeni
di oer vn wy heb dyr nos
di anedd wy er dwynos
ar vn bwys arno i bych
a gai y nol ag a wnelych
anwyl ytt y rrown letty
a chenyd awr ni chawn dy
ni chwynyd ym na chawn dan
na byd well na bod allan
och ir ferch o charai fól
ar y drws a roe drossol
o gas dor a geaisd di
o gariad kais i gori
dyred llei rwy yn daros
drwg ywr [nen i]² drigor nos
oni ddoi di ni ddaw dav
ar y fan i rwy finav
vn heb vn yn i benyd
vnig vn³ yno i gyd

DAUID AP EDMWND AI KANT

¹ diovrodai, B.M. 48.

² P. 76.

³ vn ag vn, B.M. 48.

KOWYDD MOLIANT I WALT MERC

[PENIARTH MS. 112]

A gae r ferç a garaf i
 a gae luyñ y goleuni
 A bric siric fal seren
 awyr a pyst aur oi pen
 Tan draic yn tywynnu drus
 tair tid fal y tur teudus
 Ennyñnu byd vnion² bert
 o nenn gwalk yn un goelkert
 Banhadlen neu fedwen faur
 benfelen bun o faelaur
 Leng euliu lu angylion
 Iawer kaint ir² luric honn
 Pen yu o blu paun un blaid³
 perç hir fal y port euraid
 Hynn o walt a honnai wed
 hual rin haul rianed
 Paub a wyr pe bai euryç
 puy biau r gwalt pybyr gwyç
 y mae a pet am i pen
 yr haf fal y Riufelen
 Bric yd gwedi beri ei gau
 bruyñ biliad⁴ fal bron belau

¹ yn vn, C. 5. ² yw, C. 5. ³ pen vn o blv pavñ yn blaid, C. 49.

⁴ bilion, C. 49.

Tec o duf yu tu eg¹ dyn
 tent haul fal tannau telyn²
 Bennes yn dilyn bob unaur
 banadl walt o ben hyd laur
 Gwdyn gwefr i gyd yn gwau
 golt yd fal gwiall tidiau
 Eginod gwaif y gwenyn
 egin y tes o gnaud dyn
 Koed yu r gwaif un kyds ar gwyd
 koron wiail kuyr newyd
 Saffrum ar lyssau effroes⁴
 sirian yu fal ser y nos
 Da fu r³ himp ar duf yrauc
 deifr walt ir dyfrwalt eurauc⁶
 Leiswy⁷ ai gwlyc lysiau glan
 llinos iad llyn o sidan
 ysgub fanadl mair fadlen
 yu r imp aur i rymmo r pen⁸
 Ac yn ryd o gaun ruydwalt⁹
 yn aur y gyd¹⁰ own or gwaif
 Ai duy gofl ydyu y gyd
 da o aur¹¹ ai dau wryd
 Lywetau tec luyt iad dyn
 lin y mlaen llyn melynyn
 Aur yu r llyn ai roi ar led
 a fu llyn kyn felyned
 Er mlyn bod or maen bedyd
 ol ar ei pen oleu r ffyd

¹ tiwig, B.M. 30.

² tidav val tannav telyn, C. 5.

³ kyhyd, C. 49.

⁴ ar lysie effros, C. 49.

⁵ difyr, C. 49.

⁶ dy walld ir deifr walld evrawg, B.M. 30.

⁷ Lleisw, B.M. 30.

⁸ yn rymmo pen, C. 49.

⁹ rrvddwallt, C. 5.

¹⁰ i gwisc, C. 5.

¹¹ o do aur, C. 49; o dwf avr, B.M. 30.

[ar pryd ymarn y prydydd
ywr avr ar hwnn pan fai n rrydd]¹
ai lewyç noswyl Ieuan
ai fric yn debic i dan
Maner aur ban ymwenynt
ymlaen y gad Gamlan gynt
Kruybr aur ban i kribai
pun maur o ysgub paun mai
Sirian y mysc y manaur
koron o wałt kuyr ne aur
Gwefr o liu ni bu gyfrių luyñ
i guđio dyn dec adwyn
A ro i luyñ reol einioes²
ryų luyñ dan yr haul nid oes

DAVYD AP EDMUNT AI K :

xv

CYWYDD I WRAIG Y CRYDD

[ADD. MS. 14967]

karv ddwy pwy ai kerydd
gem aur groes³ gymar i grydd

¹B. M. 30.

²yr haul wen rheol einioes, B. M. 52.

³kred, B. M. 24.

devliw haul yr ar delydd¹
 dyn graen i gweled dan grydd
 kannwyll merched y gwledydd
 kred a roes honno ir krydd
 kaf esgob nid kob kybydd
 Jor kred yw ysgar ar krydd
 kaiff ysgidie tew newydd
 modd eira kraic er maddav r krydd
 nid medrus anwyd mydrydd
 ysbwr krwyn os bywr krydd
 prid vo diowrydv brydydd²
 a chymryd yni grvd grydd
 gwell di archen ewennydd³
 no chroen ireidlyd a chrydd
 gwedi dwyn serch y gwowdydd
 na chywired gred i grydd
 gweled ym wen kyn trenydd
 gidar crwyn yn gador krydd
 mwyn dan y nef yw kreyydd
 myn y groc oni myn grydd
 trwsiaf gerdd val wtresydd
 tec myn mair yw krair y krydd
 rraid ym wenn liw ysblenydd
 j dwyn o blith krwyn y krydd
 vwch advyd wenn nachydvyydd
 a hen garwden o grydd
 bwyf i barddwas dan laswydd
 brisiwr krwyn byroes ir krydd

DD AP EDMWNT AI KANT

¹ ar y dolydd, Ll. 133.

² diowrud prydydd, B.M. 24.

³ awenydd, P. 240.

CYWYDD MERCH

[ADD. MS. 14997]

may dyn a wisc am deni
 mewn hawl tec a mwyn yw hi
 pais lusiaidd pwy sy lanach
 dan wregis llai no bys bach
 stumaich o grwys¹ damasc
 i roi gwe aur² ar i gwasc
 i chrys hi ai chwrsiav³
 o lawnt⁴ main wylwn nad mav
 gwai vinnav mav gof anwych
 nad wyf siamb: len i wenn wych
 vanwyl myvi a vynnwn⁵
 vy mod yn gossod i gwn
 yr awr dan vric yr orallt
 y bo gwenn yn kribo i gwallt
 myn pedyr digrif oedd edrych
 ar i droi dan gwr y drych
 gellid moli gwallt melyn
 gardd dec goriwch gruddiav dyn
 yn arwydd at arglwyddi
 gellid hed⁶ oi gwallt hi
 ar tal yn kynnal y gwallt
 mewn assur val mayn ysswallt
 ar ael megis hanner w
 ai thrwyn dan y llythyr hwnnw
 ac ir oedd dan gavrav r iad
 olwc las val y gleissiad

¹ ai chrys, C. 5. ² a gwe o aur, C. 5. ³ chyvyrsiav, C. 5.
⁴ o lanwnd. ⁵ myn asphas mi a vynnasswn, C. 5. ⁶ hett, C. 5.

yroedd hawl ar ruddiav hon
 a main kwrel myn karon
 mwnygl hir val mayn klaerwyn
 a chwrys ac aur a chrys gwyn
 may llvn y ddyn may i lliw yn dda
 may r min val myr a manna
 o rrennir rrwnc² gwr honno
 ar verch poed heb ohir vo
 aed i hwn yr yd yw hav
 ai doron² ai bederav
 aed y verch at i fferchen
 ac aed i gwallt gida gwen
 bid iddo fo y byd yw ddwyn
 a bid iddi y bedw addwyn
 ni aned ta gida gwen
 yr geni r dawn ar gynnen³
 nid tlawd vy mvn dylediw
 o chaiff bvn i llvn ai lliw

XVII

KOWYDD A GANAI EF IR WRAIC O
 VON MARGED VERCH RYS

[ADD. MS. 14997]

may merch heb gytkam a mi
 [marthin]⁴ gwna help ym wrthi
 arch roi ym [varged verch Rys]⁴
 am a roen [ym or ynys]⁴
 o chawn i werth [ni chayn wawr]⁴
 er miliwn o avr maelawr

¹rwng, C. 5. ²dorvn, C. 5. ³gaynen, C. 5. ⁴C. 49.

er hyn o ddyn yrrown dda
 a bod ym y byd yma
 i vvn yrrown a fai n rraid
 a chan vvn ni chawn venaid
 ymaddaw ym a wyddiad
 im nychv oll am na chad
 hi a dyn ym hyd y nos
 hin ayaf a hvn eos
 a gorwedd ar ddrain geirwon
 o bob haint yw byw heb hon
 or roed hyn ai rraid henniav¹
 amgen no hyn im gwanhav
 aviachus yw vy iechyd
 [a nofio mor]² wyn vy myd
 [i fvn i kawn]² ofyn ked
 a roe yn hwyr yr vynhayrred
 yr vn ym a ran amwynt
 a all am hyn wellav ymhwynt
 addaw ymyd ba dda imi
 ar addaw heb i roddi
 dav addaw nid ai³ vddvn
 dav nac in gwnevthud yn vn
 nid llai wrth newidio llid
 nac ddwywaith noc addewid
 anoc gwr yw i nekav
 i geissiaw i negessav
 am oed y verch amod vv
 am gae son ymgussanv⁴
 ateb byrr a ateb⁵ hon
 ac a ryd[d] yw gweryddon

¹ heiniav, C. 49. ²C. 49. ³nid a vddvn, C. 49.

⁴am gysanv, C. 49. ⁵ettyb, C. 49.

or dyddiav i roi deuddec
i dorri dav wedir dec
aniben i vn obaith
o gwyl chwech heb gael y chwaith
gwirion a ddylae drugaredd
gwae vvn ai gyrr e y vedd¹
am rroes² lle nim rroe iessv
ymhoen bid am hon i bv
am honno vn ymhoen wyf
heb achos oni bechwyf
am henaid syn ymhoini
am nef oedd pe mynai vi

DD AP EDMOND

XVIII

DAFYDD AP EDMOND YN GOLLWNG
BYTHEIAID AR OL I GARIAD

[ADD. MSS. 14866]

Gwae na chlyw heddyw iddi
gwen o serch a genais i
er pan wyf lown nwyf lanawwr
eithr yw serch ni theriais awr
yn eilio im anwylyd
amliw gerdd a mawl i gyd
nid lles yn ol i moli
oni chlyw hon i chael hi
o cheissiaf mae n achosawl
glod em wen glowed i mawl
i gwr fy nun gowirwawd
ai clud gudd rhag clowed gwawd

¹ gwae /r/ verch ai gyrr e y vedd, C. 49. ² hi am Roes, C. 49.

er mwyn iddo roi meinwar
 mewn cudd a minnau ai car
 dycked hyn a fo dickia
 deuliw nyf i dal a wnaf
 [dwyn klod a dannod i wenn
 daeogwas ddyw wridowgwen]
 deubeth sy ofer debig
 dannod i wen i dyn dig
 ar llall yw dwyn mawl ar lled
 a gloyw wawr heb i glowed
 anhyfedr yw fynhafawd
 oni chlyw yn uchel wawd
 gyrraf wawd o geudawd gen
 fytheiaid o faith awen
 herwydd helwriaeth hirwawd
 hai englyn Jfor wyn² wawd
 hai gowydd fy Jolydd wyd
 hai owdl eos hy ydwyd
 hai organ ar feingan fawl
 hai ar lafar hir loywfawl
 hw³ ar Jdwal a phali
 hud a cherdd hoyw ydych i
 gwiliwch ar gyd ym galyn
 gwilio i ddwyf am gael y ddyw
 gwilia dithau glod eithwen⁴
 gruffydd moel gynydd mawl gwen
 rhua gorn wr rhywiog iach
 rhed glerwr uwch rhyd glorach
 di dwn serch dod un i son
 dyfal yngwern fodafon

¹C. 49.

²i vorwyn, C. 49.

³hai, C. 49.

⁴eithwen. B.M. 55.

a gano gerdd^t gain i gwaith
ymhenrhos im hoyw anrhaith
dal dy gof rhag dy led gas
a dolef uwch traeth dulas
rhed uwch llynn yw herbyn hi
archaddon eiriach weiddi
a gollwng im dyn gallwaith
y ffordd i ddol fotffordd faith
hynod i chyfod ai chan
y hi aeth yn hai weithian
atat i ar y ty tau
atat wyd teithiad tithau
ef a ddelir fodd olwen
ar y gair yr ewig wen
mwyn swydd mae n anos iddi
mawl gwen oedd fy milgwn i
hai gariad siarad a serch
i honno a hai annerch
hylaw heliaf haul haelion
hai hai hai ai hi yw hon

DD AP EDMŪT

XIX

CYWYDD MERCH

[LLANSTEPHAN MS. 118]

Bwriais fry briwais y fronn
bwriad hynaws brud hinon

^tac annog wawd, C. 49.

bwriedais bore ydoedd
 bun ben gall bwy¹ bynag oedd
 bu ruddfan am bereiddfath
 bod bvn yn y byd oi bath
 bu rinwedd beri annerch
 blassys oedd rhwng blys a serch
 barwnes er bwrw anv
 brud gwawr² o liw brodiog lvn
 bortreid y bert riain
 bur iawn vn fodd bwrwen³ fain
 blodeuog oedd blaid ag aur
 brav gwyreiddwallt brig ruddaur
 breiniol ydoedd bronn loywdeg
 byw einioes dyn bennes deg
 bowyd langorff⁴ bodlon gus
 bwrw ymadrodd brav medrus
 braidd ir byd bro ddayar benn
 bwysso manair⁵ bys meinwen
 bwrw dameg ewybr deml
 bonedd essayllt bun ddiseml
 bedw a haul byw ydyw honn⁶
 blin i henwi, blaen hinon
 bwriais gloywnaid braisg lanwych
 brofiad ar ddyn wastad wych
 brav gael nag briw galon wy
 breyddwydiwr ai bardd ydwy
 briwodd yn awr berwedd nos
 banhadlen ar benn hoywdlos
 briw aeth yno⁷ brath onen
 blygiad gwaeth oblegid gwen

¹ bwy'n, B.M. 29. ² bryd glwys, B.M. 52. ³ brwynen,
 B.M. 29. ⁴ bwyd i langorff, B.M., 29. ⁵ manaur, B.M. 29.
⁶ be doe hawl bwy ydiw hon, B.M. 29. ⁷ ynof, B.M. 29.

by anach oer ban na chaid
 benadvres boen diriaid¹
 brav doeda bured ydyw
 beth a wna fi byth yn fyw
 blin erioed blaenor wy
 blino o redeg blaenor ydwy²
 byd vnion yw bod annerch
 byd ta ermoed³ byd diwair merch
 byd pwy a /n/⁴ fyw bod poen faith
 byd diboen bettai obaith
 brawychys oll brochys wy
 bryd clodgorff brud caledglwy⁵
 barieth fyngwaed yn berwi
 blys merch ni by les i mi
 by ddevnydd bai oedd anial
 bechu yn dost bychan o dal
 blin yw ynill blaen einioes
 beri i hoywfun byrhau f oes
 budd gore yw⁶ bedd a gro
 bid i fvn y byd a fynno

DAVYDD AP EDMUND AI KANT

¹band euraid, B.M. 29.

²blin redeg blaenio'r adwy
 bassio fy oed bwy sy twy, B.M. 29.

³byd ta'r modd, B.M. 29. ⁴pwy yn fyw, B.M. 52. ⁵bryd
 clodglaer brad caledglwyf, B.M. 29. ⁶ym, B.M. 29.

KOWYDD A WNAETH DD AP EDMWNT
 I DDYFALV AVAL A ROYSAI MERCH
 IDDO YN ARWYDD

[LLANSTEPHAN MS. 163]

Y fvn decaf o wynedd
 i lliw ai gwallt oll ai gwedd
 ac vfydd yw i govec
 i rannv da ar wen dec
 vanwyl a gayff yn veinioes
 vawl er vn afal a roes
 ni weled yn y gwledydd
 afal well o vil o wydd
 lliw i Rodd oll or Rvddavr
 llvn pel o gwrel ac avr
 llvn gwrđ ir llawn gwrid arab
 llvn penn o berllan y pab
 lliw nevol yw r llwyn avall
 llvn lloer ar llaw yn y llall
 llawen wyf Rwnğ llyn a ial
 lle r wyf am llaw ar aval
 llawn o bryd yw llvn i bronn
 llewych avr lliw i choron
 aroglav i rywiowgwledd
 balsamwn a blas y medd
 velly i kaf or yfallen
 vyr a thvs val gwefvs gwenn
 val i lliw nevol wellav
 vn vawl ydoedd yn vlodav

bwliwns tec oedd yn egin
blwch mwsc yw balch ymysc g win
berw a serch a bair i son
brynn yn avr brenin areon
prenn ai dvc nid prin y da
pwmpvnt a da[1] y pwmpa
seren Rodd dros avr yn Rin
siwgr a brynn seigiav r brenin
o dyhyddaf ir aval
a geiriav tec wi' yw r tal
e wyr y fvn ir a vo
vonheddic vy nyhvddo
ni allaf haelaf iw honn
na choeliwyf lvn i chalon
os aval a roes efa
a gair o dwyll iw gwr da
kroes iesv dec grasvs dal
a dyvodd o had aval
er na allon² aeron yn
aval odde r ail vlwyddyn
ef a bair i vvw bwrir
i ddinkod ef ddwyn koed ir
perllan imp ir lly yn ol
a eginodd oi ganol
dayar ysydd dwr a sal
oll a nef a llvn aval
mynnaf i gadw im einioes
myn yr havl ir mwyn ai Roes

DAVYDD AP EDMWNT

² a geirie teg gwiw, C. II.

⁵ er na all vn, C. II.

KOWYDD IR GWALLD

[CARDIFF MS. 19]

Y forwyn fwyn gwae fron fais
 frig euraid fawr a gerais
 falle i kawn gole ddawn gwlad
 ferch hirwen farw oi chariad
 om gillwng hon im golli
 heb raid gwae i henaid hi
 ar i llaw fain mae /r/ holl fyd
 yma i mi am y mowyd
 fy lladd heb ymladd i bydd
 a ffa raid oedd ladd i ffrydydd
 e fyn hiraeth fy nhori
 am hon ni wyr ymhoen i
 nid yw raid ond ar redeg
 newyd hwyl am fenaid teg
 dann lwyn aur dyn o liw non
 a droer golwg drwy r galon
 gloyw ywr ddyn eglur ddinam
 geneth ai ffleth fal y ffam
 yr hon sydd y nydd a nos
 yn dwyn llwyn yn dan llinos
 lloethau mewn diliau mel
 lloer ai kariau lliw r kwrel
 llen yw ai ffenn¹ hyd i ffer
 lliw angel pan ollynger
 lliw gobled dan foled fan
 llinos ydyw r llwyn sidan

¹ i ffen, P. 195.

llen o des a lleian yw dwyn
 llirig ydyw lliw r gadwyn
 pen bun am poenau beynydd
 pob blewyn yn felyn fydd
 gwe o ruban a gribir
 gwalld pen y fanhadlen hir
 mae n felyn gelyn golwg
 mae n wen y donen ai dwg
 mae avr wisg yma ir esgair
 eirian a lliw mwltan mair
 mae n hawdd gweled mae n heddiw
 melyn yn llyn or vn lliw
 mae snoden i wenn o aur
 am olwynion melynaur
 dwyn i mae gwae fi om gwyn
 dwy loweth am dal ewyn
 wrth wir gynt Arthur a gai
 felin ag aur a falai
 dyn ai ffenn dyna ffynu
 dann bin y felin a fu
 edrychais ni fynais fwyd
 ar garlwm aur a gwrlwyd
 kanfod ym a bair kwynfan
 kwrliad ywch dau lygad lan
 kwrliad ar dal gwasdad gwyn
 kwrliad nis mwynha kerlyn
 hardd ywr to n kiddio lliw r kann
 hyd dwy sowdl het o sidan
 gwe feinllin gofl vnllaes
 gloyw ydyw llin gowldwair laes[†]
 kenir mawl knu o aur melyn
 knwd gwalld yn kiddio knawd gwyn

[†] yn gowlaid laes, Ll. 125.

gwenn am hon gwn ymhenyd
ag ond i ffenn gwenn i gyd

DAVYDD AP EDMWND AI KANT

XXII

LLYMA GOWYDD Y GWALLT MELYN
GAN DAVYDD AP EMWNT

[CARDIFF MS. 46]

Y mae arwydd ym auraw
er duw llvn aurwyd y llaw
nid o gynnal gwialen
o vlaen gwallt rydd velyn gwen
e ddawr verch hardd ddiwair fain
ar iad auraid ir dwyrain
a mwyn yr aur mewn yr iad
au lliw megis y llauad
mae gwalld a gudd daurudd dyn
oes waith aur dros i thoryn
kreffit o aur rydd¹ kreffitwyr haf
au gweawdd val eiry gaeaf
kynr rydd² val karw yw r anreg
kae aurwallt dyn hokrell deg
tref tad tal ny bramadeg³
bvnt o aur llyna ben teg
llavuriawdd y llaw vorwyn
gyvair aur nid gwe o vrwyn

¹ kreffit o aur rhudd, B.M. 32. ² kynr hydd, Ll. 47.

³ gramadeg, Ll. 47.

yn gwysav be dangoswn
bryn aur rydd yw brynar hwn
naw radd wrth i vrynarv
ar iad y verch auraid vu
tir ar tew i oraurad
ar yr ar hwn aur yw r had
hewyd molwyd¹ aur melyn
garddaid o wallt ywch grudd dyn
o tyf yddi tiveddiaeth
gyrs aur val bangaw ar saeth
tyvodd ar yr etivedd
hainar o wallt hen aur wedd
duw a aurawdd y darren
ar vlaen gwallt hir velyn gwen
au llvn val y vaillonon
a rhaffau aur ar ei phen
mae am vainwen ym benyd
mawl ir gwallt mal aur i gyd
mae dros i iad yn gadair
lliw mil o ganwyllav mair
gwae a welas dyn gulael
a baich o aur heb i chael

XXIII

KOWYDD MERCH

[ADD. MS. 14879]

mae vn Iarlles mewn evrllin
difvnrn wallt or dafarn win
dvw ai llvniodd dvl enwog
vrddol Grist ar ddelw r grog

¹malwyd, Ll. 47.

Iessv hael a roes i hon
 o degwch mwy no digon
 mae tassel o wallt melyn
 brig euraid am ganaid gwyn
 avr a gaid yn ddwy gadwyn
 ai roi n faich ar y ddyn fwyn¹
 kaets aravl² fal koed sirian
 kyfliw r melit koff o aur man
 brig gwinwydd yn bark yniâl
 avr goron am dirion dal
 dros i devridd iw chvddiaw
 lloweth yn ddwybleth a ddaw
 avr melyn am ewyn mor
 tresi man tros i mynwor³
 bargod havl gorvwch brig y don⁴
 llvrig evraid lliw r goron
 kanaid i grvdd dan rvdavv
 koler wen kyfliw ar avr
 dyn aravl lliwr havl⁵ yr haf
 ffrwd enwog a ffryd anaf⁶
 to manavr yw tw meinwen
 teg ywr gwallt nid hagar gwenn⁷
 teg yw i ffen ddwywen⁸ ddoeth
 o bai vnawr yn benoeth
 myned i gribo manwallt
 meinir wych a manavr wallt⁹
 ai osod mewn ysnoden
 fal i doeth o foled wen

¹ ai rodhi n vaich yr dhyn vwyn, B.M. 32.

² evraid, P. 103.

³ mynor, P. 103.

⁴ brig tonn, B.M. 240.

⁵ phriw haul,

B.M. 32.

⁶ Anna, B.M. 32.

⁷ nid hagr yw gwenn, B.M. 53.

⁸ ddwynwen, B.M. 53.

⁹ meinir wyl mewn man ir allt,

Li. 122.

dyged y ddyn wridowgwyd
llawen yw gwedd¹ y llwyn gwych
mewn gwisg nefol im golwg
fenaid yw y fvn ai dwg

XXIV

CYWYDD MERCH

[LLANSTEPHAN MS. 122]

Gwae a fai hyn dyn noi dad
gwae fi gvrio gan gariad
y forwyn wych or fron allt
ar llwyth rhvddavr llathreiddwallt
dy garv ferch digyri fv
nid wy wr i difarv
o deliais arnad olwg
nid er da ir ai ond er drwg
glan oedd ywch mewn glyn ne ddav
roi f' iechyd ar feichiav
rhois fy serch ferch ar dy fodd
rhoist serch feinferch ar f' anfodd
llwyr y troes lle i'r wyt traw
ym dy gas am dy geisiaw
myn derfel ped fae felwas²
oth geisiae³ ef a gae gas
[wrth rodio merthyr ydwy
pe bai waeth ym pa beth wy]⁴
twyllaist fi feinwar arael
twyllaist na thwyllaist nith ael

¹llawen ei gwedd, B.M. 32.

²pei byw melwas, C. 7.

³pei ith geisiaw, C. 7.

⁴C. 7.

tybiaist mewn modd fy rhoddi¹
 is draed oll oth ysdryw di
 dvgost fynghof wrth d'ofwy
 nis dwg merch ar² osdeg mwy
 ir holl wlad yn anad neb
 drych wy fvn³ edrych f' wyneb
 llwm yw grvdd y cyhvddwr⁴
 llymhav gan y dagrav dwr
 a fv rhom o far a hawl
 ydwyf wr ydifeiriawl
 ni wnaeth dig vnig anerch
 ai diwgiodd oi fodd ferch
 mae a⁵ lya em loywsyth⁶
 mewn moddion cyfreithion fyth⁷
 os darfod yn gymodi
 eisiav rhwym oll sy rhom i
 gwnawn vnoed gwen iawn ydwyd
 ni ellir vn yn y lle 'r wyd
 rhaid ym gel⁸ am a wnelwy
 bwrw 'r drem ar dy bort ir wy⁹
 iawn ni chaid am ddiroidi
 llei ddwyd fvn pei lladdid fi
 mae brad a siarad a son
 a thrydar gan athrodion
 mae 'n wir weithian am danad
 mai noetha gwir ym nath gad
 os gwad a roi esgyd 'r iaith¹⁰
 gwnewch ym ganv'n iach vnwaith
 hwyr ym dewi gwedi gwad
 ym myw dynion am danad

¹mynaisd bob modd im rroddi, C. 7. ²or, C. 7. ³wen, C. 7.
⁴llwm a ffrvdd yw fyngrvddwr, C. 7. ⁵mi a, C. 7. ⁶loyws-
 sydd, C. 7. ⁷gyfeillion fydd, C. 7. ⁸gael, C. 7. ⁹bwrw
 trem ar dy barti rwy, C. 7. ¹⁰os i gwadv roi esgyd rraith, C. 7.

o gelli oed ddyn gall wych
awn ir man ar i mynych
mynwn fod¹ an cymodai
rhag bwrw byth arna y bai²
DAFYDD AP EDMWND AI CANT

XXV

KOWYDD MERCH

[CARDIFF MS. 7]

doe gwelais ddyn lednais lan
deg o liw dvgwyl ifan ieuan
yn ddyn glaerwen ysblenydd
yn loer deg vn lliw ar dydd
ai min klaerwin chwerthinog
ai grvdd fel rossyn y grog
aml o evrlliw mal iarllles
garllawr tal gorlliw^r tes
ag vwch i devrvdd rvddavr
dwy bleth fel y dabl avr³
o datodir hir yw hwn
yr eiliad } avr a welwn
yr eilfed }
plethiad ar yr iad o rydd
or gwdyn⁴ avr egwydydd
asgell arch angel felyn
avrwy o gwys⁵ ar eiry gwyn
gweled i gwalld fal gold gwiw⁶
gwaiail vnllath ar goff vnlliw

¹man i fod, C. 7. ²ne fwrw byth arna fir bai, C. 7. ³o
aur, B.M. 53. ⁴ar godiad, B.M. 53. ⁵gwyr, B.M. 53.
⁶gwallt golvd gwiw, P. 76.

banhadlen ywch yr wyneb
bron bele lliw sioppe sieb
gwiw arwydd ywch devrydd dyn
gwiall tidav golt ydyn
kopi klyd gwiwbryd gobraff
koed avr rrvdd kyd a rraff
pan nawyr y beirdd penkeirddwiw¹
pwy bier gwallt pybvr gwiw
bid arnaf i yn ddiwg
arddel dyn ir ddol² ai dwg

DAUID AP EDMWND AI KANT

XXVI

KOWYDD IR KVSSAN

[PENIARTH MS. 112]

Keissio vn or kvssanav
keissiwn ddwyn pei kowsswn ddav
Vwch fyngen o chaf fengil
a chwyno fyth na chawn fil
Melys ydoedd y kvssan
os melys y mefys man
Mal gwin a mel yw genav³
nev fwydion kynhwyllion knav
Ossai per o siop aeron
oedd gvssan feingan o Von
Gwin a gaf genn i gwefvs⁴
nid gwaeth no llaeth gwyn a llvs

¹penceirddriw, B.M. 53. ²vrddol, B.M. 53. ³im genau,
B.M. 52; oi genau, C. 64. ⁴gwen oi gwefus, B.M. 52.

Sinamwn rhoes honn i mi
 sinsir oedd sens or eiddi¹
 Saic or gwin ar siwgr gwyn
 hoff yw /r/ gwin a pher gwenyn
 Sipior min yw swper mav
 fal sipio /r/ mel or sioppav *
 Vynghalon² fydd gvssan gwenn
 flodevbryd fal od wybrenn
 Yr hwnn draw ar honn a dric
 fvn hoyw addfwyn fonheddic
 Kefais rhwng dwyfais devfin
 klo kaiad mawl klikied min
 Kanel o Aberkonwy
 kvssan mel pei kowsswn mwy
 Pic /r/ arogl per orains
 pwpvr hirion a grawn grains
 Ac or kyflet³ y gwnaethbwyd
 ennaint triagl iawn i treiglwyd⁴
 Pei kawm y mydlynawn dlws⁵
 pvmp oi min pwmpae minws
 vo gae /r/ vvn hygar fav⁶
 vy nidro i chvssan adrav
 Wttresswn newid trasserch
 yndav ar gvssanav serch
 [Byw /n/ union sy gyson gwys
 Byw /n/ yngham bai anghymwys]⁷
 Kvssanv bvn gvn geinsyth
 a garwn a vynnwn vyth

DAFYDD AP EDMWNT AI KANT

¹sinsir rodd sain sior iddi, C. 64. ²fynghalan, B.M. 52.
³kyflaeth, B.M. 52. ⁴Triagl haint ne enaint wyd, C. 64;
 ennaint triagl iawn treiglwyd, M. 30. ⁵y mel pe cawn ond
 dawn dlws, C. 64. ⁶e gae r fun wen hygar fau, B.M. 52.
⁷C. 64.

CYWYDD Y CUSAN

[ADD. MS. 14967]

mwy vwy serch¹ y mae vy swllt
 mewn kvsan minav kyswllt
 bod i verch yn bowyd vv
 bacs wyneb yw gusanv
 gwen a rroes ginio i rai
 gwen esyllt a gwin ossai
 pardwn vn per dan enav
 pyrwen verch ai pair yn vav
 ytivedd o gytevin²
 ydywr mab ni edyr min
 yvengil a vv yngod
 jr ddav vin arwydd i vod
 maen rrydd os ymvn ai ran
 mewn kysecr mynnv kusan
 y verch yn offrwm a vv
 achos iawnn i chwssannv
 a ddel o iork dan ddail ir
 ac os hin³ a gusenir
 Roe gyvflaith ir hai goflin
 Ro duw mawr yw rad i min
 sewer y serch sowrys oedd
 sawr powdr mewn sirip ydoedd
 supio hun⁴ siop i hwyneb
 swperv sawr⁵ siopavr sieb

¹mwyfwy o son, C. 26.²o gyd devfin.³ag o sin, C. 49.⁴hyn, C. 26.⁵swpper a sawr, C. 49.

ail mant tue ol min tegav
 rwmnai mwyn ar y min mav¹
 sinamwn kusan mamaeth
 sew kaer² ynnol swkwyr a wnaeth
 pwyll a dry pell yw i draidd
 paban min pob vn mwynaidd
 gwise ir en lle im³ gwasc a rydd
 gwn devin⁴ gwen a davydd
 ac o voes i gwevsav⁵
 yn vn dyn [yr] awn yn dav
 kerdd hoff yw kyvwrdd a hi
 kaf etto akwaf veitti⁶
 a vynno honn i vyw yn hir
 ar vn sel ir ynseilir
 gennav per val gwin paris
 garbron ni wyr gwr i bris⁷
 penwar nis rrown ir pvnoedd
 pob iaith a wyr pybeth oedd
 manna a geidw ym einioes
 minavn rrwym mwynnen ai roes

DD AP EDMWND AI KANT

¹elment tyg ol min tegav
 ir ymwan mwy ar min mav, C. 49. o elment dug, B.M. 29.
²gore, C. 49. ³mewn, C. 49. ⁴gwin devfin, C. 49.
⁵gwefyssav, C. 49. ⁶aqua viti, C. 26. ⁷gen emyl dant
 gwyn mal dis, B.M. 29.

KOWYDD KVSSAN

[CARDIFF MS. 49]

myn fenaïd mae yn fwyneb
 ysgol nwyf ag nis gwyl neb
 ysbryd glan amddiddanai¹
 i ddal y myd pann ddel mai
 kvssan gwell nor kae assvr
 ym aroes bvn gymraes bvr
 finvin i bvm ar feinverch
 wtres medd² trwy wefvs merch
 chware da bvm o chair dydd
 a chwrr gwynddaint chwaer gwenddydd
 serchog fvr dddwies iessin
 sinam³ oedd kvssan oi min
 ffyrf i Roes i gyd oesi
 ffrwyn avr dan fy ffroenav i
 ffraeth wyf om nwyf am i nawdd
 ai ffer anadyl im ffrwynawdd
 nid trwch y trowsswch i traidd⁴
 tew aroglav triaglaidd
 sel vyingwen is law vyingwallt
 avr val aroglav /r/ velallt
 mae mewn kof yn llyfr ofydd
 mab maeth goris⁵ vaelgaeth vydd
 siwgwr gwyn a roes gwawr gwynedd
 sy ar y min fal sawr medd
 serchog kenn⁶ swyddog kyn son
 safr gardd o safri gwrddion

¹ am diddanai, B.M. 29. ² yn wtres mel, B.M. 24.
³ sinamwn, B.M. 44. ⁴ nid traidd, B.M. 24. ⁵ goruwch,
 B.M. 24. ⁶ gan, B.M. 29; kan, B.M. 24.

safr hwn sy fwy or hanner
 val pwnn o yfalav per
 mann koeth ar vy min i kaid
 myn sain sior mewn sens evraid
 pert oedd ar vn dewin¹ da
 roi ryved² avr yr afia
 byth ni ddaw tre i³ gobeithiwyf
 anysbryd or byd lle i bwyf⁴
 angel wyf yngolevfin⁵
 arfav merch sy ar fy min⁶
 preint o le per enav tlws
 pand mwyn pennod i minws
 prennol i gadw per annerch
 pantri rrwng seleri serch
 per val y pader myn pedr
 melysach no mel lesedr
 vrddoniant vel avrddonen⁷
 o fwsg avr oedd wefys gwen⁸
 vrddedig arwydd ydoedd
 ethol myr o vethlem oedd
 ni thysdia bregeth awstin
 gelfyddyd y myd oi min
 nyddv o awenyddiaeth
 mwynen ym oi min a wnaeth

DAVYDD AP EDMWNT AI KANT

¹vin dev vin, B.M. 24. ²rived, B.M. 29. ³nawdd
 obeithiwyf, B.M. 29. ⁴ir byd i bwyf, B.M. 24. ⁵yngolevni,
 P. 76. ⁶ar fy min i, P. 76. ⁷o Jorddonen, B.M. 29.
⁸yw mwsc ym o weus Gwen, B.M. 29.

[ADD. MS. 14967]

Gwrid mawr o gariad morwyn
 y sydd nos a dydd im dwyn
 karu gwen vwnnwgl hirwyn
 heb wybod oll i bob dyn
 y mae gwin ym oi genav
 y mae gwen honn im gwanhav
 beron bob awr ai hennwi
 nid oes dyn ai hedwyn hi
 annes vnwaith a henwaf
 amod¹ ac emod a gaf
 ar ddyn dda i llvn ai lliw
 ond odid emod² y diw
 gwenhwyvar veddylgar vwyn
 gwladus ar wevvs ryvwyn
 katrin gwenllian annerch
 kari³ mallt kywira merch
 llevkv lliw briallu bron
 lowri dan wyal irion
 mwyn yw kusan myvanwy
 marvol iawn am wevrwl wy
 mae kred margred imi
 rrvddavr pell ym ai rroddi
 kvrior grudd kywiror gred
 karv kussanv sionned
 gwyllt isel⁴ yw vngolwc
 gorwedd am decvedd am dwe
 gwan wyf i mae gwayw yn vy iad
 mwy ywng hur am yngharad

¹anod, C. 49. ²anod, C. 49; enid, B.M. 52. ³karv, C. 49.
⁴gwyllt iw hol, B.M. 52.

mae saeth ynny mynwes hir
yn oes tanw nis tynnir
seren dan y kyrs evrwallt
selu rwy alswn ir allt
mae meillion gwynion mewn gwydd
mae ym ir vedw mi a morvydd
alis isabel elen
eva nev nest vy nyn wen
y mae hynn gwedi hennwi
ac vn o hynn gwenn yw hi

DD AP EDMWNT AI KANT

xxx

KOWYDD I WRAIG WEDDW AG YW GALARWISC

[ADD. MS. 14997]

Y verch weddw ddivrycheveddf¹
wedir ymladd ar drem leddf
eiriaidd gorff ryddiav gwin
ael gwyrtaidd olwc eirin
vn oyr kyffelib i nad
[i vam dyn wyf am danad]²
kvl ywr ais yn kelv r wen
kvli brenhinoedd kwlen
da im kwsc i daw im kof
dy henw nida o honof
ef a na briw ofn a brad
yscyrtaiw ais o gariad

¹ ddivrychevdeddf, C. 49.

² C. 49.

yddydwy ymryddwydion
ywain vrych ai wayw yn i vron
yn alar am vanwylyd
yn vn gwyn a wnawn i gyd
onit hi a wna oed tydd
anhvnaw ywn nihenydd
ar ol y marw yr wyli
ar ol y vyw yr wylaf i
hwyl drem yn ol hawl a dry
hin ebrill o hyn obry
olwen vodd ped wylwn vaint
elwy vavr o lifeiraint
dyn a wnai wyd wen yn ol
dostyriaw di ystyriol
glew i ddyn a glywai wall¹
glaf na wyr glwyf vn arall
vn dic oyr yn dy garv
a wyr gwyn dyn ar gown dv
i levat haf ail wyt ti
a nos gvdd yn wisce iddi
y nos y ddel yn nes i ddydd²
y gwelom bawb i gilydd
ir na chawn gyfrinach hoyw
eithr ymd[d]al a threm ddvloyw
anodd oedd oni ddoe wc
imi dalv am dy olwc
ac o chawn blygv chwanec
y min taer am enav tec
vn vlas a nefol ossai
oedd wefus merch weddw vis mai
yn vedrus yn voddus veddf
yn adlais vcheneidleddf

¹a glowodd wall, C. 49.

²y nos a ddaw nessa i ddydd, C. 49.

dwyn yddydwy¹ na ddoder
dv nos am dywyn y ser
ont y wyneb yn tywynv
ywr wawr ddydd drwyr awyr ddv
o does genyd wisc gynnar
obaith gwell ir mab ath kar
dwc wyrdd a ffaid a gorddv
dyn dec ni ddyly dwyn dv
da yw dv ond i dywyn
diwair² gwell no dv ywr gwyn
da yw gwyn wedi gannv
diosc oedd wyn³ dy wisc ddv

DD AP EDMWNT

XXXI

I FERCH A BRIODYSEI HEN WR AC
IDDO YNTAU HEFYD

[ADD. MS. 14866]

Rhain gwr hen a garaf
a rhiein gwr honno gaf⁴
mwy pechod bod eb wr
gado honn gidai henwr
gwell iddi ddiweddi dda
un arall o iawn wra⁵
o dduw pam i doeai ddyn⁶
liw hindda dan law henddyn

¹ dwyn yddydwyd, C. 49. ² dioer, C. 49. ³ well, C. 49.
⁴ a ran y gwf hen a gaf, Ll. 6. ⁵ no hen wra, Ll. 6. ⁶ o
ddyw nef pam yddai nyn, B.M. 52.

hun¹ yw medd yr henafiaid
 anoeth yw a hun noi thaid
 hun no Llowarch hen llawir
 a hun no noe hen yn wir
 beth a fydd bid boeth efo
 gwr hen i garu honno
 llwyr i daw llawer er dig²
 blynyddau blin i eiddig
 cynneddf eiddig cawn ddiddos
 roi drain ar adwyau r nos³
 mynnwn a dymunwn mwy
 be bedwen fai bob adwy
 mae ar hwn mawr yw i haint
 anhunedd yn i henaint
 ni chwsg ef ni chais gyfoeth
 ond gwilio r ddyn eglur ddoeth
 nid esgug yn i disgwyl
 na dyddiau gwaith na dydd gwyl
 ni chaf gwn ddwyn i chofion
 ym nid rhydd amnaid ar hon
 nag erbynn⁴ dyn ar lan dwr
 nas gwelo i disgwiliwr
 ni ad traw o anwyd drwg
 i wylan awr oi olwg
 ymhob lle⁵ ar yr heol
 ir a gwr hen ar i hol
 Trystan wyf trosti yn wyllt
 yn ymossod am Essyllt
 march yw hwn a merch yw hi
 am meirchion yw amherchi

¹ hyn, Ll. 6. ² a llawer dig, B.M. 52.

³ cynnydd eiddig cau /n/ ddiddos
 a drain ir adwyau r nos, C. 64.

⁴ erlyn, C. 64. ⁵ y bob lle, Ll. 6.

dringodd frig o genvigen
y goedwig wyrdd i gadw gwen
lluniodd o brenniau llinonn
ysgol hir i ddisgwyl hon
gwiliad o gysgod gwaliau
yr un dyn ir ym yn dau
o dduw nef a oedd iawn ynn
ymwrandu am yr undyn

DAUYDD AP EDMUND

XXXII

[LLANSTEPHAN MS. 6]

bid hyder y byd hydol^{*}
blin y gwrs Rwnge blaen ac ol
gwaer ni ddyw gan na ddywaid
gwen y neb pa gwyn a wnaid
y ddyn wryn oedd ddoe n vanerch
aeth yn vyd waithion y verch
a minay heb law mainwen
ar y ffordd heb air oy ffen
ydo yddwyf mor vyd yddaeth
am y dyn oy mydaniaeth
kollais oy ffen bob kellwair
kanwn gerdd bai kawn vn gair
gwynedd ny ffair ym genay
gany dim os gwen a day
ny vyn y vyn ofyn jaith
nid ery newid araith

^{*} or byd hudol, B.M. 23.

Rin y dysc¹ y Riain dec
 Ryddistaw y Rydd ostec
 kyfarch well nys kyfayrch hi
 kay verch hawdd kyfarch iddi
 nostawch y verch nys dichon
 nostaed ti nys dywaid hon
 par[a]bl oy mwn[w]gl pyrwyn
 pa ryw haint syn peri hyn
 jessy nawdd os anyddion²
 yw lleshay³ y ally son
 ac ostic ay gostegodd
 avyn byn ofyn y bodd
 y mayn nyn a mi n vnjaith
 ac ny chwyf y genay chwaith
 o dydiw yn dywedoc
 is y chwardd eoes a choc
 gwae ni vod y gwyn a vy
 gwen inion heb yngany⁴
 [avr davod i redivel⁵
 a thal hwn i ithel hael]⁶
 o dyffry aed y offrwm
 yr hwn ay try or haint trwm
 llyn y geney yn llan gynin
 llysai mair vydd lles yw min⁷
 llyn y vair⁸ y llaian vwyn
 llyferydd y llaw forwyn
 gwared a gaffo gwirion
 gwilio saint y gwelais hon
 y verch nyd atebai vi
 a ddywaid yn hy ddewi

¹ rran i dysc, B.M. 23; rran a dysd, C. 7. ² os enevddon,
 B.M. 23; oes yn a ddon, C. 7. ³ ai lles-a, B.M. 23. ⁴ ein-
 ion heb gynanv, B.M. 23. ⁵ radifael, C. 7. ⁶ C. 5.
⁷ llysie mair yw llais i min, B.M. 23. ⁸ llvnnia vair, B.M. 23.

aed y vyniw bid vwynach
ac yno non ai gwnai n jach
dyro grist er dyw ar groc
dy vydes yn dafodioc
symyd verch¹ os myd a vydd
yn ddivyd wen y dd[afydd]

DD AP EDMUND AI KANT

XXXIII

[PENIARTH MS. 312]

A mi yn glaf y min gwlad
ag yn gorwed gann gariad
Dibec herwyd cyduybod
yn edryc claf a dryc clod
Paham y cefais amwynt
paub ym y gofyn pa buynt
Saet serc y swaet y syd
sisli im poeni beunydd
Medai erail muð a roed
magyl glefyd enfyd oed
Delai a delai o dyn
i wendid gwel oed un dyn
Ni fynun liu nef waneg
weled ond un luydwen deg
A pann doet a poeni yd wyd
im hedryc im yhudryd
Gofyn om dyn ym y del
iessin yn digon issel

¹ a symyd vair, B.M. 23.

O poened dy gorff uniaun
para gluy ai perigl iaun
Ai crug blaen brug Berwyn
ai cryd yu nage caru dyn
Y hi yn tyngu fy nianc
mair or dref a minne ar dranc
Minnav meun gloes angau serc
medylfaur am eidilferc
hitau a pob blodeun
yn ceissiau dyhudau dyn
Ago ym yn y duyiait
bob roð eityr unroð fanrait
Cynnig bonhedig oed honn
ym win a geirie munion
Cynnygiais iu pryð iessin
ganu cerð am gynnig gwin
fedryc yn fynyc feinwen
troi launt ymhaunt am fy men
A troi oessoed ai traserc
o feiru i vyu y mae /r/ ferc
y fo aet goginiaeth gwiu gain
elwar im geilū dyn aelfain
ylusen fy niloessi
Lassar i feinwar wyf fi

DAVYD AP EDMUNT A : C :

CYWYDD LLOSGYRNOC

[PENIARTH MS. 77]

y mae goroff em a garaf
 o gof aelaw ag a volaf
 o choeliaf gael i chalon
 am na welais i mynn Elien
 o Lann vrfwl i lynn Aerfen
 wawr mor wenn or morynion
 j lywio r¹ nos o liwiav r ner
 yn oleuach yn o lawer
 ai phryd gwnder ffrwd gwenndon
 vnlliw wennfyn a llicinvaich
 allor brenni a llv r brynaich
 yw i devfraich ai dwyfron
 vn ni chwypir yn i champav
 em y ddwywlad ai meddyliav
 ai geiriav sy gywirion
 am na roddes mewn arweddiad
 onid i mi anwydav mad
 i vn eirchiad anerchion
 y mae anerch yn fy monwes
 yn was amod oni² somes
 a roddes dan arwyddion
 o lilyn avr crefft lan a wnaid
 o vodrwy vain a vedr venaid
 o gae euraid i goron
 iownach heddyw yw no³[i]³ chvddio
 wych⁴ i chenedl vwch vwch yno

¹loywi r, B.M. 23.²onim, C. 63.³P. 240.⁴ywch, B.M. 23.

[ar i golwc ar ai gwelo]¹
alw honno eiliw hinon
y mae arni onis mvrniwch
amlwg olwg mal y gwelwch
o degwch mwy no digon
y mae arnaf reydr mornaint²
om llif olwg mall ofeiliaint
yn vchaf haint na chaf honn

DD AP EDMWND

XXXV

DD AP EDMWND AM Y GADAIR A
GRUFF AP NIKOLAS AI RHOES IDDO

[CARDIFF MS. 13]

my fi a baraf im gwen araf
gen a garaf gain o gerydd
am lfvassv fy niflav
am lliassv om lliosydd

XXXVI

KOWYDD MERCH

[JESUS COLLEGE MS. 16 = CXXXVIII]

Gwae yr vn a giriav i wyneb
gwae 'r vn oll a garai neb
gwae gvlwas ag a goeliodd
geirie gwiw fvn gorwag fodd

¹ C. 63. ² reieidr mornaint, P. 240.

cerais vn nid cwrs anair
 cerais ferch cares i fair
 cawn trwy ofid can trafael
 carv fo wnai y crvf yn wael
 hvdodd fi a'i gair hoywdeg
 herwydd i thwf hardd a theg
 nim gwerthav meddav em nar¹
 er dyn da ar don dayar
 nis gadav² im oes gwedi
 fyth i air dyn f athrod i
 f³ais³ rhoddais ar drais dro
 ar ol hyn ar law honno
 odid lle i dweinid annerch
 ir elo mwy ar law merch
 ar hon llawer ai henwant
 dvl y sydd i dwyllo sant
 er i mwyn o rym annerch
 agos i mi gashau merch
 adeiliais ar bryd wiwlan
 adail gwael ar rowndwal gwan
 eddyf drygaredd heddiw
 nid yr vn dydd⁴ dreynydd iw
 na bo a garo i groen⁵
 na dim hwy enaid ym=hoen
 na hwy mewn rhest na llestair
 nag i safo gwenno yn i gair
 dysgais am ran ymanerch
 devall im oes dwyllav merch
 ni bydd da synwyr ni bv
 naws ber iawn nes i brynnv
 ni bydd da awydd devall⁶
 cymro, nes collo was call

¹gwerthai meddai em war, C. 12. ²gadai, C. 12. ³fy
 oes, C. 12. ⁴vnddyn, C. 12. ⁵goroen, C. 12. ⁶deall, C. 12.

na cheisied merch drwy serch draw
o hynn allan fy nhwyllaw
myddyliais modd o alar
meddwl i bwm ddial bar
os digio heb ostegv
a gwyro dvl¹ a gair dv
o ddig wrth ferch anherwoedd²
ni ddaw serch anweddvs oedd
dav well oedd mawr dwyll morwyn³
disgwyl oll oed is gil y llwyn
noded a doyded lle daw
ar dydd a deved iddaw
gwnaed iawn gwen gnowdwen ganwyll
ag yno i tal am gan twyll
gyrrodd fi mewn garw fodd maith
o gwna dal tros ofal trwch
acw rhwydd i cair heddwch
os eddyf y nos heddiw
onis tal anonest iw
nis gwnawn fyth ddydd a gwen fwyn⁴
glyfaredd a gloyw forwyn

DAFYDD AP EDMWNT A'I CANT

XXXVII

COWYDD GWRAIG GWR PRIOD

[MOSTYN MS. 144]

fy swydd ys mwy na blwyddyn
gweddio duw gweddwi dyn

¹ dig, C. 12. ² anherchoedd, C. 12. ³ devali mae ar
dwyll morwyn, C. 12. ⁴ ni nawn i fyth vn wen fwyn, C. 12.

annoetha dim a wneythum
anhwyfed ar ferched fum
ag iach rhydd rhyfedd pa gwyn
am fy jechyd mae f achwyn
minau rynnu bum enyd
y mol clawdd am welu clyd
gwilio cyfair i gwely
gwae fi weled torri /r/ ty
oeri y bum ar y barth
er cynn cof ar ci n cyfarth
dyrcha fy n rhaed ar derchwyn
dy nawdd nid ydoedd hawdd hyn
y naill droed ym a oedai
ar llall mwy no dall nid ai
a vynni di gwedi gwaith
venaid ym vyned ymaith
na fynd üd medrüd em wyl
medrüd a fynüd f annwyl
ni wnn gwr yn un gerynt
eithr y gwr a oedd grythor gynt
cân grwth wr keulwth caled
na chân grwth mwy ni chawn gred
o mynny roi gwely ir gwann
i dywyllwg näd allan
mis aeth yn helaeth o haf
moes noswaith or mis nesaf
dy fodd a gawn dawn dilyth
ni chawn fod dy berchen fyth
chwi a mi ni chamevawn
a mi a chwi ymiach hawn
ni wnaem enllib aniben
ni wnai /r/ byd nynt ar benn

DAVYDD AP EDMUND AI KANT

[CARDIFF MS. II]

Meddiant o ffrydant yw ffriodi r vun
 avr venaid or gelli¹
 ymeddiant y mae iddi
 amen aro² duw imi

j mi o bleg angav blin³
 ymay kvr val ymahag hen⁴
 ym hoen od wyf am henw don
 ym henyd oedd am hoen dyn⁵
 em orav vawl im avr⁶ fvn
 ymae kerdd a mi ai kan

kanwn kof evrwn kyfeiriawl a bvn
 bevnvdd gerdd yw chan mawl
 kanaf enw kynfinawl⁷
 kyn vy mwyd kanaf i mawl

j mawl awnaf amyl jawn yw
 im vn dyn o min⁸ y daw
 y mae j chylod em wych liw
 o myn i dwyn ymae yn⁹ dew

tewfawl oed dwyfawl ytifedd yw gwen
 ag ynail¹⁰ glod wynedd
 teg¹¹ wisc avr tegav oscedd
 twf eigyr waith tew fagwyr wedd¹²

¹a f'enaid ar golli, G.B.C. ²a ro, G.B.C. ³o blyg
 amav blin, C. 7. ⁴fal y mak hen, C. 7; mag hen, G.B.C.
⁵ymhenyd oer ym hoen dyn, C. 7. ⁶i maer fvn, C. 7. ⁷kyn-
 efnawl, C. 7. ⁸om min, C. 7. ⁹y mae'n, G.B.C. ¹⁰i
 gynal, C. 7. ¹¹dwg, C. 7. ¹²tew fagwyr wawd twf eigr
 wedd, C. 7.

gwedd ewyn yw gwyddwn wyth¹
gywydd i vun gwiw wedd vaeth²
gwir ydiw mawl gariad maith
gwen heilddyn wyd gain hael ddoeth³

doethiaith gair gyrddiaith gwr gordderch ni fyn
y vun vwyn ymanerch⁴
dygwr wyf deg orrevferch
dav gvr osyr⁵ deigyr o serech

o serch yrhof os eirch Raid
och vnwaith lle r achwynwyd⁶
och eilwaith wawr vchelwaed
och wyr na ddaw gwen vwch oed⁷

koedwig kvn wybrwig⁸ kain wybren kvddiant
kv oednant kayadnen
kelli irlas bob kollen
kyll kaiad gwyll yw koed gwen

gwen a wyr gwybod gwawn nevria⁹ gobant
gelli avr nefawl¹⁰ gallai¹¹ rroi nwyfiant
gair iddi prifiwyd gwir oedd y profiant¹²
gwiw dyry geired¹³ ged avr ag ariant
gwin deg¹⁴ ddadkanv gan dant golevber
gwas wyf a maelier¹⁵ gwiw saif imoliant

¹ fyth, C. 7. ² gywedd faeth, 7.

³ gan hylwydd } ddwyn gwen haeldoeth C. 7.
 haelion }

⁴ ei hanerch, G.B.C.
chwynwyd, G.B.C.

⁵ dan gur y saer, G.B.C.
⁷ i'w choed, G.B.C.

⁶ fun o
⁸ wybrig, C. 7.

⁹ gain eiry, G.B.C.
C. 7; goll, G.B.C.

¹⁰ gallu o'r nefoedd, G.B.C.

¹¹ gelli,

G.B.C.

¹² Glauar hardd cneth glir ei hurdduniant,

¹³ giried, C. 7.

¹⁴ Gwn dew, C. 7.

¹⁵ maeler,

G.B.C.

*Gan¹ fod tevlwyr gwyn vyd di liwiant
gwynedd yw moli gwen iddi moliant²
geiriav hon³ penyd gwawr hoyw an³ poenant
gleifiav⁴ o draserch glew ofedrusiant⁵
gwyniav kas dyddiav kystvddiant kalon
gweision gwewyr eigion am gorvgant

gwae vi⁶ am degav gwiw fv am dygiant⁷
gan gario llafur gwn gyr a llifiant
gwawr Rowiog ydyw gorav ygadant
ganaid o gymrv gwinev deg amyra⁸
gwawdwaith eigyr afiaeth o groiwwant gweiais⁹
gwiw iddi Rwymais gowyddav Ramant

gwn awnai venaid gain enav fwyniant
gweddio r Jesu gwiw dduw orevsant
gar bron y delwaw gwawr breiniau dylowant¹⁰
gwyddai dduw deilwng gweddi ddi doliant
gwiw rras agafas gwarrant oi gweddi
gan dduw oll iddi gynydd allwyddiant

*Nid yw y llinellau yn yr un drefn yn G.B.C., a cheir yno
un penill yn ychwaneg.

Gwawdwyr i geinwen, gwawd wir a ganant
Gair oedd o degwch gwir iddi dygant
Gwn fod teuluwyr gwynfyd di liwiant
Gwynedd i'w moli gwn iddi maelant
Goreu i minau gwir o mynant—gwnaf
Ganu i'r decaf, gwena' o'r deucant

Geiriau mwy penyd gwawr hoyw a'm poenant
Gwael wyf o draserch, gul ofid rusiant
Gwyradd hoff ewig gywir ddiffuant
Gafod wiw felus gweuaf dy foliant
Gwinau cas dyddiau cystuddiant—calon
Gwysion gwewyr eigion a'm gorugant.—G. B.C.

¹ Gwn, G.B.C. ² Gwn iddi maelant, G.B.C. ³ mwy . . .
a'm, G.B.C. ⁴ gwael wyf, G.B.C. ⁵ gul ofid rusiant, G.B.C.
⁶ fydd, G.B.C. ⁷ gwiw fodd a'm dygant, G.B.C. ⁸ amrant,
G.B.C. ⁹ gweuais, G.B.C. ¹⁰ dylant, G.B.C.

Gwisco awyddiad gwaisc o ^{weuaddiant}
^{weiaddiant} }
 gwisc avr affiniav² gwasgai ar ffyniant
 goriwch iad hoiw gain gwir iechyd dygiant³
 gar llaw y wen gern gorlliw ywyn gant
 gwyn dal eigr wamal⁴ grymiant gwawr ddawnus⁵
 Gweddys gwyn grasvs a genav grisiant

Gorav i minav gwir yw o mynant
 ganv ir deka gwen yw or devkant⁶
 gwir vrddai hoiwddawn gwawr avr ddihvddiant⁷
 gwir jawn⁸ ymaelawr gwerin ai moliant⁹
 gwaeddaf na allaf ynellant gan Raith¹⁰
 gelv r vn¹¹ fvddiaith gael arni feddiant

DD AP EDMWNT AI KANT

XXXIX

[STOWE MS. 959]

Darvyr byd y gid ū¹² gog aed ymaith
 doed yma gyffylog
 mayn¹³ grin oll mynn y grog
 daid irwydd o dwyd wryog

¹gwaisg yw aweddant, C. 7. ²a finav, C. 7. ³dygant,
 G. B. C. ⁴owmal, C. 7. ⁵liwus, G. B. C. ⁶Ceir y llinell-
 au a ganlyn yn G. B. C. yn lle y ddwy gyntaf yma :

Gyda gwiw fonedd ganedig fwyniant
 Gwledydd mel gynydd ei mawl a ganant.

⁶gwena' o'r deucant, G. B. C. ⁷o ddyhuddiant, G. B. C.
⁸ewyn, C. 7. ⁹molant, G. B. C. ¹⁰gan' rhaith, G. B. C.
¹¹gelv rrin, C. 7. ¹²Saif ū yn yr ysgriflyfr hwn am *i*, *a*, ac *y* ;
 ar gog, Ll. 47. ¹³y mae n, Ll. 47.

os gwryog wyd verch nyd yssgaraf [byth]¹
 ag ny wnn beth y ddwedaf
 os oer gwisco kryd o ia
 day oyrach yw ym dywra
 dywra wenverch² mordirion ywr drem
 ssy drwm³ ym kalonn
 digiais o vynn⁴ dyostegyonn⁵
 gann vriw may⁶ gwayw ny vronn
 vym ronn ssy dann⁷ ymdanad vanwyl
 y rrwyf inay nymddiddad⁸
 mawr⁹ yw galar dygaryad
 mwy ym no dwyn mam nay dad
 airiad¹⁰ mal am dad o dwy yn gorwedd
 o garyad gwenonwy
 bo gwr y neb y garwy
 mor brydd dragwydd ag wy
 o dwyn dwyn mawrglwyf a gloes ym kalon
 nym koylar neb ay roes
 [m]ynaf anerch mynn vainoes
 [rh]yw verch ssyn¹¹ byrhay voes
 ny chai oes yma megis ssimon
 yn iach yt vainverch nychaid vanvon¹²
 gway vi om geni may gwnyon garyad
 a gwayw othroddyad gaeth erwyddon¹³
 wylo nar llygaid pryd nathwelonn¹⁴
 ony dywr giay yn dra gwiwonn
 wylovus ū dynt val avon heb drei¹⁵
 ar alaeth nid llai er ū wylonn

¹ esgora byth, Ll. 47. ² vy mun, Ll. 47. ³ a sy drwm,
 Ll. 47. ⁴ ovyn, Ll. 47. ⁵ dostegion, Ll. 134. ⁶ gan vraw
 vaeth, Ll. 47. ⁷ mae vy mronn yn donn, Ll. 47. ⁸ nym
 ddivad, Ll. 47. ⁹ oer, Ll. 47. ¹⁰ giriad, Ll. 134. ¹¹ rhyw
 vun a syn, Ll. 47. ¹² wennferch wychaf or dynion, Ll. 47.
¹³ oth orweddiad gaeth arwyddion, Ll. 47. ¹⁴ yn holl aigion,
 Ll. 47. ¹⁵ drai, Ll. 47.

yrwvi¹ n gorwedd ar vain gairwonn
 yn wr aviach iawn er ychwynwnn²
 may klevyd ym bryd³ ym bron am hassay
 am briodassay bywyd wyssonn⁴
 [mae n agos ym gael bedd mewn aigion
 maen vawr a dirfawr o dawr owron
 mae lle ddwy n tramwy trymion echnaidav
 a chan dy aisau ochain dwysion]⁵
 [n]⁶ y aned vn verch vwy ūddi anerchonn
 na dyn ddiwairiach dan wydd irionn
 dianerch ū dwyf medd dynyon vying wlad
 [ar iad]⁶ ssy ogaryad ynyscryonn
 [di ryvedd yw bod val dwr avon
 oera ir wyla er a welon
 heddiw mae dy ffrw ym dwyfronn i troes
 nyd hir ym einoes ond tra mainon
 vaeth yn brudd y grudd hyd y gwraiddion
 vaeth yn oer y lloer ar holl aeron
 vaeth i bawr o vawr ddiverion val glaw
 drwy i golwg i daw dwr or galon]⁶
 [dy w]⁶ en y gerir medd dewinionn
 ynid⁷ wchaf or dynonn
 dywyneb nyd traid ynnon⁸ nas gweler
 y gyryo⁹ llawer hyd gaerlleonn
 o dwyf wr achyl¹⁰ pann ydrychon
 yn gorwedd ym gwely am gryddynyn gylyon¹¹
 ochoylais yr vyn¹² achalon vwynaidd
 a gwevys beraidd gway vaissay byrryonn

¹ ir wyf yn, Ll. 47. ² yn wr a chas iawn or achosion,
 Ll. 47. ³ om bryd, Ll. 47. ⁴ ym briwie dwysion, Ll. 47.
⁵ Ll. 47. ⁶ Ll. 47. ⁷ o cheryd ennyd wych or dyn-
 ion, Ll. 47. ⁸ nyd rhaid un o von, Ll. 47. ⁹ a guria, Ll.
 47. ¹⁰ achul, Ll. 134. ¹¹ am gruddie yn gulion, Ll. 47.
¹² i vun, Ll. 47.

o by¹ deg yrddail y bedw gwrrdonn
vo ddarvyr² yrddail hyd vor iwerddonn
kaf ayaf yn haf bai rrann³ y aros
ar mai n ddynos yr mwyn ddynonn⁴
may ias yia glas yn ū galonn⁵
arna ssy galed er nas gwelonn
may kystydd ym grydd ag arwyddon hiraeth
gwaeth no myrolaeth⁶ mawr ovalonn
govalon ssym bron am bryd ddiwairverch
vo ddarvy vym ywyd
gorwedd ū wnaſ ym gweryd
hyd dydd u varn ytti hawdd vyd

DAVYDD AP EDMWND AY KANT

¹ bu, Ll. 47. ² vo dderyw, Ll. 47. ³ bai kov, Ll. 47 ;
kovion oi aros, Ll. 134. ⁴ yn ddu nos mwyn i ddynion, Ll. 47.
⁵ a gloeson, Ll. 47. ⁶ marfolaeſ, Ll. 47.

MARWNADAU

XL

OWDWL FARNAD MERCH A WNAED I
FERCH RYS WYN O FON AC A ELWIR
GORCHEST Y BEIRDD AM MAI DYMA
R GYNТА A WNAED AR Y MESUR
HWNW ERIOED

[PENIARTH MS. 155]

Aeth hiraeth rhwng bronn a thoryn²
iw char¹ aed alar iw dylyn
J dy dduw aed wedd ewyn
o dy dduw nid ai y ddyn

Dyn o adail dawn ydoedd
dylediw a di wladaidd
di degwch doe oi digwydd
doe digwyl odidowgwaedd

Gweddi² a wnn i oi newydd
gann glwyf gwywo ddwyf gwae ddavydd
gennyf i dav gwyn a vydd
galw bvn ac wylo bevnydd

Bevnydd ydwyf³ heb enid
Bevnes i fflaid a boened
Bonedd holl gymrv bevnod
Bevnoeth a roes im benyd

¹i char, Ll. 122. ²Gweiddi, B.M. 29. ³y ddwyf, C. 65.

Penyd vydd ennyd¹ vy ddwyn
pann ydoedd / priod oedd pryd addwyn
parai viragl per vorwyn
parai /r/ korff syn peri /r/ kwyn

kwyn ofyn i kawn nifer
kain wiw vvn val kwyn ifor
kwyn ofer² kynaiafwr
kynefin kwynaw afar

Gavar ac alar j gyd a gowssant
gwae anant bvdiant byd
gwae vinnav o gof ennyd
gvddio a ffridd gwedd a ffryd

tra vv bryd troe vab arael
teyrnes gwerth³ tyrnas goel
trwy rodd dduw troer iddi wyl
trwy nerth Sain y katrin ail

tervyn yr englynion yrhain
a elwir yn ostec ac llyma yn
kanlyn yr owdl ar vessvr
gorchest y beirdd

ail vn wyl wedd
yw bvn iw bedd⁴
j lvn y wledd
olewn laeth
wyr bor ywr bvdd
jr gro roi grvdd
ar kor ai kvdd
ywr kvr kaeth

¹fodd ennyd, C. 65 ²kwynofain, C. 65 ³gwyrth,
C. 65, ⁴i bu n y bedd, B.M. 29.

ymhall am bonn
 ywr dall ar donn
 a ffall j ffonn¹
 a ffwl ffaeth
 vn wyf jawn yw
 oi Rhwyf ai Rhyw
 o glwyf a glyw
 glaif galaeth
 ar awr² o gwyn
 or llawr ir llwyn
 am wawr ai mwyn
 ym ywr maeth
 Ar fryd oer friw
 yw Rhyd or Rriw
 a ffryd j ffrw
 yw ffrwd ffraeth
 Jach rrai j chwrych
 a nai o nych
 ym drai im drych
 om drem draeth
 oi dwyn i dyd
 em vwyn ym vyd³
 o gwyn a gwyd
 vgain gwaeth
 j Rhwydd air hir
 yw chwydd och wir
 yw sswydd ai sir
 y sydd ssaeth
 jawn yw oi nod
 jn byw yn bod
 o ryw yr od
 ar yr aeth

¹ o ffallai ffon, Ll. 122.
 fwyn yn fud, B.M. 29.

² ag awr, B.M. 29.

³ wen

wyr llyw ir llef
wyth ryw i thref
vn yw o nef
 jawn a wnaeth
j glai a glyn
yr rhai or hyn¹
y ddai y ddyn
 j dduw ddaeth

DD AP JEMONT AI KANT

XLI

CYWYDD MARWNAD DAFYDD AP
IEUAN O LWYDIARTH YM MON

[LLANSTEPHAN MS. 123]

Doe y ddoedd nid cennad o ddyn
duw ddaffudd yn dy ddyfyn
or hvndy lle bv /r/ hendad
i dy duw lle /r/ oedd dy dad
i ddwyn rhent i dduw yn rhodd
o bur enaid a brynnodd
dyledwr i fab duw loywdal
diwedd terfyn ywr dydd tal
ai rent yw /r/ enaid tav
ai ringill² yw /r/ angav
da teilwng gwedi talv
dy ddyled i dduw ai lv
doe brussiast ti o bresen
i gyscv yn brydd mewn gwisc bren

¹ i rai o rynn, B.M. 29. ² ringyll ef, C. 64.

bellach rraid i ddyn bwyllaw
 bvost drud drwy Bowys draw
 gwynedd och gwan a dduchon
 gweiddi am wr gweddw Mon¹
 eithr y mab ni thorir mwy
 ar Lwydiarth yr hil adwy
 nid oedd o blant moliant mel
 neb pyw Jfan ap Howel
 oni ti yn cynne tan
 a thithe a aeth weithian
 ar vnwaith ir ai annedd
 arian a bwyd ir vn bedd
 dwyn i thai duw a wnaeth hyn
 dy wraig hael o Dwrcelyn
 penna yn niwedd poyni
 poen athug pan aeth a hi²
 och wr gan i ddwyn na chad
 angav hwyr i yngharad
 ne dithe yn byw fy llyw llym
 ymraych elor merch wilim
 y dydd ir aethoch i dai
 y brodyr pawb a redai
 i roedd feirch irwydd o fon
 ich dwyn rhwng wyth och dynion
 a llv gwyn a llwys anian³
 a llawer torsc a lliw /r/ tan⁴
 a fforth rhudd a ffarth rhuddaur
 a fferi y Mon offrwm avr
 achwyn Mon a chan menych
 a chri cler a churo clych
 a chwedi ych dwyn och dav dv
 wyrion gwawl ir vn gwelw

¹ ym Mon, C. 47.

² poen a chvr pan ai a chwi, C. 47.

³ llewyg anian, C. 47.

⁴ a llawer corph a lliw'r can, C. 47.

a rhoi llen ar holl wynedd
 a chwyr a bwrdd a chay /r/ bedd
 llyna gor llawn o gariad
 Llanvaes deg llawn fy o stad
 gwenith ffein i gwnaeth i ffarth
 gwan a thylawd i gwnaeth Lwydiarth
 gafel ryfedd i gofyn
 gormodd yw i rhodd er hyn
 adfeiliaid i dyfelir
 adyvail teg yw dal tir¹
 a cholled yw myned Mon
 yn wag o bobul enwogion
 Jessv a wvr ych eissiaf
 wedi 'ch dwyn or bvd ych dav
 i lynnio ywch lywenydd
 a rhoi oes hir ir rhai sydd
 onich cawn yn ywch Conwy
 yn fyw ymon o nef mwy
 fy nawn oedd fy nwyn i win
 ymyw Gwilim ag Elin

DAFYDD AP EDMUND AI CANT

XLII

LLYMA FARNAD SION EOS

[CARDIFF MS. 7]

Drwg i neb a drigo yn ol
 kosd am vn kas damvniol²

¹ adail teg yn dal y tir, C. 47.
iol, P. 121.

² dav am vn kas damwein-

y drwg lleia or drygwaith
 yn orav oll yn y riaith
 o wyr ban na bai orav
 o lled[d]id vn na lladd dav
 dwyn vn gylwnaed anaeth
 dial vn dav elyniaeth
 oedd oer lladd y ddevwr lan
 heb acho[s] ond vn bychan
 [er briwor gwr heb air gwad¹
 oy varw nv by vwryad]²
 y roe³ ydiffig ar rai
 am adladd mewn siawns medlai
 ymrysson am yroessav
 Ring⁴ a ddoeth Rwnge yddav
 o ddyno lladd y naill wr
 ai ddial lladd y ddevwr
 y korff dros y korff os kaid
 yr iawn oedd well i renaid
 oedd wedi addweidion⁵
 i bwys o avr er byw sion
 sorrais wrth gyfraith sarrvg
 swydd y wayn eos a ddivg
 y swydd pam na rovt tan sel
 ith eos gyfraith howel
 ar hwn wedi kael o rrain
 ffrwythlownder kyfraith lvdain
 [aeth y gerdd ai thai gwrddion
 ai dann sied⁶ wedi dwyn sion
 a llef o nef yn i ol
 ai ddisgybl yn ddi ysgol
 llyna ddysc ir llan ydd aeth
 lle ni chair lliniwch hiraeth]⁷

¹o bai r gwad, P. 121. ²B.M. 48. ³yr oedd, P. 121. ⁴rhyw
 ing, B.M. 31; rhyw angae, P. 97; yngw, P. 121. ⁵da oedd
 ddodi addweidion, C. 19. ⁶ai da yn sied, B.M. 31. ⁷P. 121.

ni mynen am i einioes
 noithi krair¹ na thori kroes
 y gwr oedd dad y gerdd dant
 yn noesswr nis barnasant
 devddeg yn vn o doeddyn
 duw deg ar fowyd y dyn
 wedi sion ni does synwyr
 da i gerdd² na dyn ai gwyr
 torres braich twr eos a brig
 torred messvr troed mussig
 torred ysgol tir desgant³
 torred tysg fal torri tant
 oes mwy Rwngevas a mon
 or dysg abyrlir disgyblion
 Reinalld nis gwyr i hwnan
 Ran gwr er hyny a gan
 fo aeth dy gymar yn fvd
 yn dirtvr delyn dortvd⁴
 ti y sy yn tewi a son
 telyn avr y tylynorion
 bv yn dwyn dan bob ewin dant
 byssedd llef gwr nev bassant
 myfyrdawd Rwnge bawd a bys
 mien a threbyl mwyn no⁵ theirbys
 oes dyn wedir eos deg
 yn gysdal a gan gosdeg
 na ffrofiad nev ganiad gwr
 na chwlm ger bron vchelwr
 pwy rowran mewn pvrriaeth
 pa na bai a wnai yn waeth⁶

¹ wneythyr crair, C. 19. ² yn y gerdd, P. 121. ³ ty r
 desgant, P. 121; tra i dysgant, C. 20. ⁴ deirtvd, C. 12.
⁵ mwy no, C. 12. ⁶ pam na bai a wnai a wnaeth, B.M. 31.

o gatgas¹ ni wn gytgerdd
 eissie gwawd² eos y gerdd
 ni does nag angel na dyn
 nad wyl pen gano delyn
 och heno Rag i chanv
 wedir farn ar awdyr fv
 i barn ymhorth ne ni bydd
 wyr y wayn ar ywenydd
 [a farno ef a fernir
 or byd hwn ir bywyd hir
 ar vn drygaredd a ro
 a rydd dduw farnwr iddo]³
 os iewn farn a fv arno
 y rvn farn arvn a fo
 y fo a gaiff i fowyd
 nid⁴ oi barn newidio byd
 oes y nyn⁵ y sy yn nos
 oes yn nuw i Sion eos

DAUIDD AP EDMOND AI CANT

[CARDIFF MS. 19]

Sion Eos yn vnos ywnaeth ai ganiad
 i ganyn ddwyn hiraeth
 ag yn ol i farfolaeth
 i gany i dduw gwyn i ddaeth

¹ag atgas, C. 19. ²gwaith, C. 19. ³P. 121. ⁴ond,
 P. 121. ⁵einioes ynn, B.M. 48.

KOWYDD MARWNAD I DDAFYDD AP
ITHEL VYCHAN

[PENIARTH MS. 75]

Y mae kof a mi ai kwyn
 i degeingl ni bydd digwyn
 llai fy mydd¹ os llofo mae
 llan Eurgain val llyn argae
 dylaw drosti a welir
 devle i doeth diliw i dir
 aflawen² ef a lifodd
 i nine fyd yn vn fodd
 am ddafydd llowydd y llau
 ap Ithel gwae bawb weithian
 keidwad oedd irad i ddwyn
 kymrv oedd kymro addwyn
 Addaf iroedd iddo frig
 a dafydd yn bendefig
 a chwe imppin ni chwymppir
 or vn tad i ranv tir
 o thorred anraith dderwen
 oi chyff y raeth yn chwe ffren
 Ithel yn³ vchel i ni
 yw yr hynaf or rheini
 oed tyddiwr ar fyd heddwch
 ag yn y drin i gwnai drwch
 dwyn tiroedd nid antvria
 dewr a doeth⁴ ai dir nid a
 lles y gwan lliaws y gwyr
 llyna Rwyse llais noi Ryskyr

¹ myd, B.M. 52.² aflawen, P. 72.³ vn, P. 80.⁴ na doeth, B.M. 52.⁵ nid llai, P. 100.

Gruffudd arno a greffais
 gwr y sydd heb garv sais
 gwr a ludd bob gwir i lawr
 a gwr ffyrf i gorff hirfawr
 bval mawr bvalie im oes
 botfari bid difyrroes
 kydfryd i kaid ai frodyr
 kynvrig wedd¹ kvn ar y gwyr
 kadw bwlch ar bob kad i bydd
 kadw mon fal koed mynydd²
 denw³ beirdd ai dwyn yw barth
 dvl Edwin i dai llwidiarth
 hel lowlaw hael oi olyd
 howel vn ddrych heilin ddrvd
 nawdd fair ar i nevadd fo
 da i kynail y deg⁴ honno
 y fo draw a fv drwodd
 ac o ffraink pawb a gairf rodd
 henwi yr wyf hwn ar hael
 henw sion ni henwais anhael
 meinwr o goed y mynvdd
 maner avr mw nai arydd
 difai iawn i daw oi fant
 disyml air dai semlant⁵
 kelfydd or dedwydd dadwys
 karw oi dad kowir a dwys
 Jevan gwr iav nog yr vn
 afv⁶ hynaf o honvn
 archangel ar gwallt melyn
 ynghroniad⁷ avr ynghroen dyn
 karai fardd kowir i ferch
 karai gerdd kar a gordderch

¹ oedd, P. 80. ² koed y mynydd, P. 100. ³ denw, P. 72.

⁴ yn dec, P. 72. ⁵ da ei semlant, B.M. 52. ⁶ a fo, B.M. 52.

⁷ ynghroniad, P. 72.

wttres gwin ni ad tros gof
avr drisswllt a roe drossof
y fo vwch pvm kwch o fel
ywr chweched or iach vchel
ar atkan¹ lle mae /r/ vtkyrn
a roed ir chwech aradr chwyrn
Rwyfwyr kad rhyfawr i kwys
rhychorion rhyw² a chaerwys
bval a llid beli a llew
bondid Eden owain³ bendew
dawn a gan am dynv gwedd
dal⁴ danvn dwywlad wynedd
chwelly dewr a chall i don
chwe ffost Tegeingl ai chyffion
chwe maib ar feirch i ymwan
chwemil i gyrch⁵ amyl a gan
chwech vn rif⁶ ni chech⁷ nor hain
chwe broder ywch obrydain
chwech a roed vwch vwch or vn
chwech y sydd chwech oes vddvn

DAVYDD AP EDMWNT

¹ atkor, P. 100.

² rof, P. 72.

³ ednywain, P. 72.

⁴ del, P. 80.

⁵ a gyrch, P. 100.

⁶ o rif, P. 100.

⁷ chaech, P. 100.

CYWYDDAU AC AWDLAU
MOLIANT

XLIV

KOWYDD MOLIANT TOMAS HEN
SALBRI

[HAVOD MS. 3]

di alaeth fv dalaith fon
da seigiodd¹ dywysogion²
y mab a las³ yn aber
a fv /n/ glaf rhac ofn y gler
dafydd newidiwr devfyd
digio /r/ beirdd ai duc or byd
a llywelyn yn⁴ lliwlwyd
am roi⁵ i gler ymro glwyd
da fv gael pendefic ynn
dŵll hael wedi ll[ywelyn]
tomas hen to⁶ mis ionawr
tywysawc fyth tai saig fawr
lle mae gida llv⁷ ai medd
llyweni a holl wynedd
tomas sy /n/ i myntvmio
tomas vab tomas yw fo
syr tomas ir tai amen⁸
salbri lle bv harri hen

¹ da i seigiawdd, B.M. 29; da seigiav, P. 100.
ogion, P. 72. ² ai blas, P. 100. ³ wr, P. 72. ⁴ dwys-
B.M. 29. ⁵ ty, B.M. 38. ⁶ gydar llew, P. 72. ⁷ a 'mroe,
wnias onnen, P. 100. ⁸ syr tomas

aerwy ser o ros evraid
 i hwnn or dytwn i daid
 a llvoedd¹ swydd gaer lleon
 in kvn o dv sieinkyn don
 keidw rvwl ar a ddyko drais
 kyrtiwr val sieinkyn kwrtais²
 keidwad rhos yn kadw trysor
 kaerav r mars rhac herwyr mor
 sirif a lefys yrv
 sir y fflint val sarff i lv
 ai wraic o hil avrogiion
 yn verch i siambren o fon
 a harri val i hevir
 i vrawd e yn fawr i dir
 a ffwc yn ben aeth y ffydd
 ar eglwysav avr glosydd
 a sion wrth i ddewis arch
 a Robart yn wr hybarch
 a fflaid o veilchiaid a fydd
 vcho wyr yw [chwiorydd]
 hy yw kenedl huw konwy
 hy n y mars yw hwnn a mwy
 a seithgant yw blas wythgaer
 a basia /n/ ol mab sion aer
 sias devlv pirs ysdalais
 seithgant a degkant yw dai
 pa rvw dent mewn parod awr
 pilsdwn viliwn o vaelawr
 ai vra[w]d o bengwern vrodir
 a ddygai swrn o ddec sir
 mae dwv gida i vam ai tad⁴
 mae /n/ devlv mwy no dwywlad

¹llevad, B.M. 29. ²arthwr kwrtais. ³ysta iawnlwyth
 birs stanlai, P. 100. ⁴dad, C. 20.

galwn ddec o lin y ddav
gwawl a rhun galwer henwaw¹
elsabeth ail siob weithion
er dyblv hil yw /r/ dabl honn
adar mair o dir morien
adam sil o domas hen
hwnn a wnaeth a hinon wedd
hav llin ar hyd holl wynedd
g[w]inllan pob llan yw i llv
gwinwydd oll gwynedd allv
o wyr a brodyr a braint
a chworydd a cheraint
ym hob plwy i mae i plaid
yn dderi o annedd evraid
iechyd a bowyd lle bon
a chael hil vchel haelion
iach a fydd vchaf vddvn
a byw fo /r/ iach heb farw vn

DD AP EDMWNT

XLV

KYWYDD MOLIANT KYNFRIG AC
ELIN O LWYDIARTH

[PENIARTH MS. 64]

heddyw lle kawn wahoddion
hawdd vyd am gwahoddai von
y ddevddyn y dydd eddiw
a roddai lynn or ddav liw

¹galwer hynn gwelir henwau, P. 100.

unrryw ssaint yn rroi y ssydd
yn ddi boen yn dda beunydd
dwy gerdd yn gwiliad a gad
dau ddigwyl val dydd egwad
gwyliau kyn[vrig] ac elin
gwyl a gwaith i gael i gwin
uchelddydd hil ddavydd ynn
uchel wyl merch lywelynn
kar a ssaif kares hevyd
kellin ac edwin i gyd
y hi o vlaen hwva lin
ai chydwedd o ach edwin
o chair dwyn achae r dynion
uchaf ynt achae o von
teyrn ach val tair yn vn
teyrnes rrad duw arnun
maent hwy yn rroddi mewn tal
mwy no gwent mewn ugein tal
llynn mor a roddai r llanw mau
llanw pawb yw llyn oi pibau
ssyr gei a roes aur a gwin
ssant hael gyda ssaint elin
i gael ewch yw golochwyd
a roe bab o avr a bwyd
yn y traul mae enaid rrydd
a gais bwyd vegys bedydd
da n rrwydd i bob dyn y rron
duw a rydd da i rwyddion
rraid oedd yn rroi da uddun
rrann wyth val y rroen i un
mae r glod am roi goledoedd
mae yn yr un mann yr oedd
da i veirdd y deau vu
dai llwydiarth yw dilladu

y tai mae eto ai medd
ar gynau i wyr gwynedd
a duw a mair i dai mon
a ro dawn ar i dynion
am roi da nid mwy r dial
o roddi doir ir ddau dal
garmon un gair am yn iaith
gair elin ai gwr eilwaith
kymro n rroi kymar yn rraid
kadw wyneb kaed i enaid
gwawr ddydd yw gair y ddeuddyn
gorau dau hyd y gwyr dyn
i roi n y byd er na bai
ond dau vudd yntwy vyddai
dau a gair yn oedioc yn
da yw r kael i dwr kelyn
gwr gyda gwraic a edir
govyn hynn a gaf yn hir
byd weddi yw bod uddun
bedair oes heb ado r un

DAVYDD AP EDMWNT

XLVI

CERDD FOLIANT I RYS WYN AP
LLYWELYN AP TUDUR O YNYS FON
AR FESUR OWDYL GOWYDD

[ADD. MS. 14866]

Llawenaf lle o wynedd
yw llys medd a llyssiau mon

lle mae Rhys ar llym wayw rhudd¹
 yn llywydd ynwayw² lleon
 acfab llywelyn erfai
 a roddai wisgoedd ruddion
 i feirdd hwn a fwriodd hur
 wyr Dudur euraid wiwdon
 yr hwn a welir yr hawg³
 ior dledawg ar dylodion
 a phawd aur a phedeiran
 i daw gwan oi dai gwinnion
 yn wir lle byddir bob awr
 yn euraw r telynnorion
 ag yn prynu canu call
 croyw iaith arall crythorion
 un a dal y nadolig
 obr diddig i brydyddion
 ag a bryn ddeg o bai raid
 llongaid val i gollyngon
 o win rasbi ne r ysbaen
 yw roi mlaen aur melynion
 enwoglyw nid aneglur
 amwisg dur ymysg dewrion
 a ffynnu rhwyl a phen rhaith
 euraid iaith ar y doethion
 ofn a roes ai faner aur
 ar galonau 'r gelynyon
 yn ffrainc nid anhoff i ras
 Cai urddas ag ywerddon
 oes a wyr⁴ medd barnwyr byd
 ond mebyd anwyd meibion
 wrth Rys ai hoywlys hylwydd
 eryr rhwydd i roi rhoddion

¹ ar llu mawr rrydd, B.M. 23.
³ yr hwnn a wella y rhawc, B.M. 29.

² ion wayw, Ll. 118.
⁴ oes o wyr, B.M. 23.

hviodd feirdd ai hoyw ariant
a ganant¹ a rhai gweinion
herber gwin hir i bo r gwr
byw flwr heb ofalon

DAFYDD AP EDMŪT

XLVII

CYWYDD I RYS WYN AP LLYWELYN
AP TUDUR O FON RHAG PRIODI
SAESNES

[LLANSTEPHAN MS. 122]

Mawr ywch aig o marchogir²
mor tawch ni chair mwy or tir
swydd arvthr sydd yw oror
svgno main i svgnaw³ mor
arno mae or enw mawr
arwain y gwrthfain gwerthfawr
i bob mor dan oror nen
ffyrf wiwfor or ffyrfafen
tebig loegr gerig oerion
i for tawch ydoedd fryd hon⁴
yn ceisiaw twyllaw on tir
maen gwrthiav mon ai gorthir
o roi isod mae n resyn
alais⁵ wyr sais i Rys wyn
er maint ei braint yn ei bro
ai chyfoeth ni chay efo

¹ ac anant, B.M. 23.

² vwch aig y marchogir, P. 77.

³ sugnav, P. 77.

⁴ oedd vwiad hon, P. 77.

⁵ Alis, P. 77.

ni roir mab vn awr or mis
 llywelyn yn llaw Alis
 wyr Dudur ag avr didwn¹
 i wyr Hors pwy a roe hwn
 om bodd ni bydd mab iddi
 a Rhys ni ffriodir hi
 o ffaelias mae 'n bruddaf² braw
 ar luddias wyr wil iddaw
 i mae im rhi yn briod
 hen wraig a ludd hon yw r glod
 mae rhwym nev ddevrwym ddyrys
 galed rhwng y glod a Rhys
 ar glod ni ad briodi
 ag wyr Hors ddim oi gwr hi
 gwell i Rys gall orevsawr
 garv clod nag wyr y clawr
 gwraig oedd nid gorwag iddaw
 gydfod a chlod vwch ei law
 devddyn a wnaeth dyweddi
 dwyn hwn yn vn don a hi
 Ifan hirwan oedd herod
 Gutto 'r Glyn nid gwatwar glod
 dav eraill ar llail yw 'r lles
 oi pur wawd ai priodes
 Ifan Mon inion enav
 a Chynfrig vrddedig ddav
 bwriad³ teilwng bryd haelion
 bryd serch yw 'r briodas hon
 ef a roes Ifor isod
 i Rys ag iw lys y glod
 ar ynys i wyr enwawg
 vchod ai rhoes yw chadw rhawg

¹air didwn, P. 77.
³bwriwyd, C. 12.

²o phallaf maw bruddaf, P. 77.

galwaf yn berchen gwiwlys
galwed ei wraig yn glod Rys
a chynal ywch a henwed
y wraig hon a wyr roi ced
gorav gwraig evrawg wregys
ei gwr o gred yw gwraig Rys
gorav gwr gair a gerir
ei wraig yw Rys or gwyr hir
dav gv addas da i gweddau
i gyd a gras dw a gan
wrth garv wythryw gwirod
vn a ro gwledd a wna 'r glod
a rhoi gwledd o rhaglyddi
a wna Rys vn air a hi¹
cnwog wyrth a wna gwrthod
wyr ne nerth i Ronwen nod
athrod Rys wythryw a drig²
ar Saesnes o ryw seisnig
ag ar glod nid athrodir
y gwr hwn biav 'r gair hir

DAFYDD AP EDMWNT AI CANT

XLVIII

AWDL I RYS WYN AP LLYWELYN AP
TUDUR O FON

[PENIARTH MS. 100]

O arfon i fon ai fys naf evrglod
nev farglwydd ai dengys

¹vn glod a rhi, P. 77. ²athrod i Rys wyrth a drig, C. 12.

ar fy hwyl erfai hoywlys
arfod draig yr af at Rys

Rhys orav mab rhyswr mon
rvll waewlorf rhyw llywelyn
rwydd dwdvr wyr dafydd ion
rwydd ddafydd hil rodd fvdd hyn

O hynaif taerlaif torlan tyhyrnedd*
gwiw gladdfedd gogleddfan
wyr yw Rhys vthvr orav rhan
ithel fav vchel fychan

Llin ithel yw lllownwaith lvdd
llyw ar fon llawer a fedd
llownsir graff llin syr grvffydd
ledw anant llwyd o wynedd

O wynedd rhyfedd nis rhifwn i blaid
wyr gwiwdaid ior gwaewdwn
y rhyw ner ar rann evrwn
or hyn hardd yr henyw hwn

Llawen yw hwn llain a hyrdd
llid enw ffwg llydan i fförd
llvn gafael lleon gyfwrdd
llanwai gad llawn yw i gerdd
llin dafydd o hoywydd heirdd
llwyd o fon dilladaí fardd

hardd fardd wyf fowlardd afaclion | i Rys
hy wiwlys hoyw eilon
hwyl rolant heliwr alon
hyder ym yw hoyw darw mon

*teyrnedd, G.B.C.

Tarw mon yw twr ymwan aer
tew r hylwyd fal to rewloer
tyrn i ddysg tehyrnaidd air
teg ywr iaith nid hagr a wyr

ef a wyr synwyr o soniaf fowrglod
ion hynod iawn henwaf
yw dai Rys ai wawd yr af
ener hyder¹ yno i rhedaf

Rhedaf rhad breisgaf lle rhed brwysgion
rhandai rhoid osai ir rhevdusion
reol rys deol rhyw westeion
reidwest rha¹ llvest radav lleon
ryddglos rad agos

rhidigon	} ryddlys
redigion	

rys ryw fann ysbys Rvfain osbion

Rywliwr reg noddwr hv gynyddion
rvwliad ryw hoewlad y rhai haelion
rifdarf ron rwygarf ri anrhegion
ranngig rydd ewig roi addawon
rannwr ri heliwr roe hwylion rhywliad
rad roed ynyliad rydain eilon

Rhagor rwyf gwiwbor ryfig abon
rwydder rwydd ener hoyw i ddynion
ranfrawd rva gwiwffawd or hen gyffion
rinchwedl ryw kenedl rywiog kanon
ragorfab rwydddab reidd don rwydd danad
reiddgad ryw raddiad roe avr Rvddion

Reiddlaith rasgl vnaiath rwysg gelynyon
rif rann aneirif ronwen wyrion

¹ener hydr, Ll. 133 ; Y Ner hydr, G.B.C.

roddiav roes eisiau rai o saeson
rediad rvdd drochiad rai oedd drychion
rwyddwr raid oeswr rawd weision reidiol
reol rif ddeol rhwyf a ddawon

Rwygwr rwydd hriwr reiddiav hirion
rwygiad rann loewgad rwn olygon
rygwbl rwysg groewddwbl rysgyr eiddion
rhagor rys faer ddar roes i feirddion
reged roe drwydded rad roddion ranodd
rodd rhy wir ddeiliodd ryw vrddolion

Ryswr ryw filwr llei ryfelon
rydaer rawd rwy gaer ri a dragon
rolant Rys warant rai sy wirion
risglddwr rwysg awdwr roes i gedion
rvthr dwysg a reiddrwysg rvddion ryguriad
rad ryddwys gvrad raidd ysgyrion

Rodd rym in evrodd ranav mowrion
rwyf rag kyr ddirwyf ri kerddorion
raid rent y gweinied rhvn tai gwnion
rwydd rvgl ir hylwydd raglaw /r/ haelion
Rydderch rin mowrserch rwym evrson roddlys
rys ri gorevlys rwygwr alon

Rad rhoed ddvw ynad rhawd ddewinion
rodfoes rodd teiroes yr hydd tirion
rwyddnaf ran archaf ri anherchion
ry hael rwyf adael roi i fvdion
ran restr rwymynestr rym mon Rywiowg nod
rvgl glod rys gorfod ros ag arfon

DAFYDD AP EDMUND AI KANT

AWDL FOLIANT I RYS O FON

[G.B.C. t. 102; ADD. MS. 14997]

[Clawr Gwynedd glas Gledd glos glan glwys wewyr
 Glod Eryr gloyw ei Darian
 Gwrdd yw Rhys, garw ddur Hosan
 Gwres mynych les Mon achlan

Achlan wr uchel iawn yw
 I Rys y glod Eurwisg Lew
 Loyw fryd ail Ifor ydyw
 Aur Sal im a roes o'i Law

Llaw wir Ion heudir yw 'n hydab osgordd
 Ymhob ffordd botffordd Bab
 O'i rwydd-don a roe rydd-dab
 I'w roi yn fudd er yn fab

Eurfab i Ior erfai bwyth
 Aer Lywelyn Aur lewlaith
 Wyr Dudur yw'n mur a'n maeth
 Etifedd gynt Dafydd goeth

Coeth drafn cai unllafn leinllyw¹ Mon Ynys
 Mae'n anaml ei gyfryw
 Cawn groywrodd Cun goreuryw
 Cydwedd Iaith ail cadw ddoeth yw

¹ ceinlliw, G. B. C. (argraffiad Cynddelw)

Doethach i'w y daethum
Doethryw Ynad yw na dim
Da agwrdd Rudd, dihagr ddrem
Dysg a roes dewis gwr ym

Och ym ! enw hoywlym Ion haelach na Nudd
Ni nawddwyd Cerdd wiriach
Yn ei Deml onid amlach
I Fyd nerth o'i fod yn iach

Iach iawn Dduw o chawn ddewis
Fyddwn i fuddwin Eos
O rhoe Grist y rhawg i Rys
Oesoedd Adda sy weddus
A'i gynnal ynn o gain les
Ior Mon aerddor mewn urddas

Urddas Beli wrddais bolion
O Urddolion awr ddialedd
A'r draws heli aer drosolion
A thraws holion aeth Rhys hywledd
Iawn ei huriaw }
Wrth ddoluriaw } Alon diredd
A'i lan duriaw }
Wedi curiaw }
A doluriaw } o'i wir ddewredd
Aerau dduriaw }

Ior molianus Aur melynion
Aer ddifynion Urddai fonedd
A llwyddianus y lladd ddynion
O'n gelynion yn gelanedd

Efe biau }
 Ymysg Rhiau } o gur dyhedd
 Y gair diau }
 O bydd Criau }
 A'm weliau } ar ei duedd
 Irwedd² iau }

Wr gloyw risgyn er glew rwysgaw
 Iownwaed lwysgaw Unawdl osgedd
 Ail yn disgyn Alon dwysgaw
 Wrth aer frwysgaw Arthur freisgedd
 Ion heb gelu }
 Iawn fattelu } Ieithwyr Salwedd
 A thaer Selu }
 Eirf fy ngwely }
 Arf annelu } o'i orfoledd
 I Ryfelu }

Aelaw ddygyrch a ladd Eigiau
 Ar ryw greigiau Aer garw agwedd
 Ar faes hygyrch oeraf Seigiau
 yw gan ddreigiau ei gynddrygedd
 Alon hudaw }
 I'w dyludaw } dua gydwedd
 A'i dig udaw }
 A symmudaw }
 Ar fau gludaw } a gorfodedd
 Y gwyr fudaw }

Ing yw'r Llywydd Yngorllewin
 I lu rhewin wiliwr hoywedd
 A'i dragywydd wayw Draig ewin
 Oll mae'n ddewin Ellmyn ddiwedd

²irwaed, G.B.C. (argraffiad Cynddelw)

Eirf a leisiai }
 A gogleisiai } wrth ddigasedd]¹
 Eirth a geisiai }
 y marveisiai }
 o manteisiai } eryr trowsedd
 ar aer treisiai }

ail y rriver i lv rryved²
 alvn³ dyved eilon dovedd
 ai ward niver wyr ednyved
 yw llys yved y llysievvedd
 evrwawd levais }
 o gorsevais } yw gwrw rryvedd
 a gartrevais }
 yn lle sevais }
 iawn addevais } enwoc kyvedd
 yno kefais }

oi waisc gweryl ni wysgarwn⁴
 jddo parwn addaw pyredd
 yw dec eryl wawd a garwn
 owchlid varwn achlod vovredd
 ymddiriedwn }
 yw vawl kredwn } i daw adwedd
 a dywedwn }
 o chaledwn }
 wawd a ledwn } yw anrrydedd
 awn a rredwn }

ac o ffwyswn i gyffesv
 aur ormesv ar wawr maswedd⁵

¹ Argreffir y rhan hon o'r awdl o "Orchestion Beirdd Cymru" (1773) gan nas gwelais mewn llawysgrif. ² i lwy'r hyfed, G.B.C.
³ alon, G.B.C. ⁴ o'i wisg weryl ni ysgarwn, G.B.C. ⁵ Eryr maswedd, G.B.C.

enw a ddwyswn a nawdd jesv
 yw ras lesv ar rys lwyswedd
 a nawdd gleiniav }
 yr holl seiniav } ervai rinwedd
 ar i vreiniav }
 ai aer lleiniav }
 alon heiniav¹ } ivor gwynedd
 ai vargeiniav }

DD AP EDMWNT AI KANT

L

COWYDD I SION AP RHISIART ABAD
 GLYN EGWYSTL

[ADD. MS. 14967]

pa dir a elwir o ial
 pant y groes pentai grisial
 tynno glas tew yno glych
 tir a maenor ty /r/ mynnych
 gain gler i gannv glorria
 kyn y dydd kanvav da
 parradwys bobl yn prydu
 pybyr don pawb ar i du
 yno nid oes yniawn dad
 eisslav neb i John abad
 etivedd kymyrredd kai
 i Risiart i rroi ossai
 wyr ir iach orav yr el
 jenn goch enwawc vchel
 ai rraid ir hai ai hedwyn
 arrwain hwy i ryw no hyn

¹ a'i lan heiniau, G.B.C.

jr byd swllt ywr abad John
 aur wellwell o rywallon
 j adda mi a wyddiwnn
 arrwain rryw yr yner hwn
 ni chaid byw ni chaywyd bedd
 ni chaf vn uwch i vonedd
 j rryw val bric yr ywen
 a dail yw ydiw i len
 mawr yw gras mab marria
 mynv rhoi dysc mewn rai da
 a mawl i dduw mal y ddaeth
 a roe John ar rwassanaeth
 ai len val i gwnnai lonnio
 j vair vab oi vara vo
 efferren o len i lu
 a leissiant i alw Jessu
 j eglwys ef a glyw saint
 yn gyvan iawn o gwvaint
 y deilad o dai alaw¹
 weithian a wnaeth wyth ne naw
 j sion yr hoes jessu yn rad
 yma dal am adeilad
 ffyniant a meddiant a maeth
 a ffryd ag y ffeiriadaeth
 a charriad i wlad lydan
 ai mawl ai chlod amyl ychlan
 a llvn wrth ddyall wyneb
 a llen yniaith well no neb
 yr vn duw a wnaeth randir
 a wna i john cini[o]es hir
 ai vyd ai vowyd a vo
 ai ddawn val yr eiddvnno

DD AP EDMWNT AI KANT

¹ ailaw, B.M. 52.

COWYDD I SYR HOWELL AP DAI

[ADD. MS. 12230]

A dry byd ar wybodaeth
 oi droi 'n well aed rai yn waeth
 Ein tylwyth ar blant Ális
 a gawn yn uwch ai gwna 'n is
 A sant a ir farsiant faith
 o'n ynys i'w rhoi'n vnwaith
 Vn or saint yn aros hynn
 a roe olew ar elyn
 Hwn yw syr hynaws arab
 Howel dai ap jthel bab
 O Cynwrig blethedir blant
 a Bleddyn y bu lwyddiant
 Rhoi da ar lin Rhodri luniaidd
 rhoi ar dwf lwyth Rhirid flaidd
 Ni ad ir llawr yn dair llin
 nannau waed nyniaw Edwin
 Vrddas gwed ar ddysgedig
 i gyd a roid ag a drig
 Gwedi dysg o waed y daw
 ac o radd y gair iddaw
 A lladin gwyr eilliedig
 a rydd fraint lle yr oedd ei frig
 Yn nhegaingl dwyn hwiogen
 o radd pab a vrdda penn
 Or tir ni welais wr teg
 er moed well ei ramadeg

Ysgolhaig or ysgol hon
vchaf oll oi chyfeillion
Oes foliant i Sefliwn
oni thyf fal y gnaeth hwn
Jad a ffen wedi ffynnu
er yn fab arnaw a fu
Cynheiliad fal can hylwydd
cadwayw Sais yn cadw ei swydd
Person Chwitfordd rhag gorddwy
pa wr a fynn power fwy
Y gwr llen a gar llinon
ac a red a gwewyr onn
A phawb pan retter a ffynn
oni ddelyn i ddulyn
dunod lle y torrid oñwydd
doewan ffed yn dwyn ei ffydd
Estyned yn ffons deiniol
a siobo cyff Lles ap Coel
J ddewi gynt ydd ai gob
o dir wysg wedi 'r esgob
Ar un swydd i arwain sel
Assa ai rhydd i Sr Howel
J roi fal y gwr a aeth
ai law 'n llan elwy 'n lluniaeth
Vrddonen ar ddeaniaid
yn y cor yno i caid
Ai bân iawn y bo yn ior
yn esgob vwch Gwaenysgor
Gan nad oes a genau da
gwr nes j goron Assa
y gwr iawn a goronir
a fo tad i fywyd hir

DD AP EDMWND AI CANT

KERDD ORCHESTOL I SYR HOWEL AP
DAI O DEGAINGL AR FESUR KOWYDD
DEUAIR FYRRION YW CHANU WYNEB
YN GWRTHWYNEB

[CARDIFF MS. 65]

j santesau	oes un tasel
a wna teiau	onid Howel
yw faenkaerau ¹	o fain kwrel
j bawb kopiau	o bob kapel
vn a llengau	ynnull angel
o nef enwau	yn i fannel ²
a rudd sensau	urddas honsel
yw luseniau	oel a sinel ³
er y gobrau	a ro gabriel
am roi rhannau	ymro rhuniel
aed oi byrsau	oi dai barsel
i roi beichiau	aur eb ochel
ar dafarnau	ir da fernel
ar i bresau	aur a brasel
aeth i ddoniau	wyth o ddaniel ⁴
ar arferau	yr ai r forel
yr esgobau	o rwysg abel
j roi r barnau	ar wyr burnel
jr eglwysau	i roi gloywsel
ag oi reinsiau	o gwyr insel
ag ininau	ugain anel
o gann resau	a gwin roesel ⁵
jn kiniewau	angkwyn awel

¹ o vewn kayrrav, C. 5. ² vanwel, P. 77. ³ yw lv sym-
iav oel a sinel, B.M. 23. ⁴ o waith ddaniel, P. 77.
⁵ rasel, P. 77.

adar sawsau
yw garesau
oi win bottiau
oi neuaddau
oi geginau
i lliniaethau
ai lletteuau
ag yw rhifau
a rhoe gynnuau²
ag oi torfau
i dref yntau
i gael arfau
i llysiuau
ir i freichiau
ai dyddynau
or rhyw fesau⁵
ef ai yn eisiau⁶
o swllt iachau
esyllt ochau⁷
ossau⁹ rhywiau
o sew rhiau
i roi gemau
jesu orau
a chler fwydau
yn i oedau
i adel oes yw dilysu
i adel¹¹ ais y del jesu
att howel i lytyu
oni ddel o wynn i ddu¹²

wedi r sisel
ai gwyr wasel
i wan bittel
win i wyddel
a gae ganel
yw llwyn ithel¹
yw llu tawel
a gwyr rhyfel
ar hoyw ganel
a gad terfel³
ai drwy fantel
a gwyl irfel
yn llys howel⁴
a roe frochwel
i dai ddaniel
i rhoe fwysel
i fan isel
oswallt uchel
a swllt achel⁸
oes¹⁰ a rhiwel
yw syrr howel
aur ag amel
asa uriel
uwchlaw r fedel
yn i adel

DD AP EDMWND AI KANT

¹ llin ithel, C. 5. ² gwinav, C. 5. ³ i gattervel, C. 5.
⁴ oll a siwel, B.M. 23. ⁵ yr hoew fessav, P. 77. ⁶ a vai yn
cissiv, C. 5. ⁷ dochav, B.M. 23. ⁸ osswallt a chel, B.M.
23. ⁹ o sai, B.M. 23. ¹⁰ aes, B.M. 23; ais, P. 77.
¹¹ adail, C. 5. ¹² yn wynn o ddu, P. 77.

LIII

MOLIANT I RUFFUDD AP NICOLAS

[PENIARTH MS. 206]

enwog Rvffvdd a wnai graffv
 ap nikolas heb yn kelv
 ail i farnais a wyr farnv
 ar y genedl a wyr ganv
 arglwydd gwawd hylwydd tevlv
 dinyfwr ywr browdwr ar brydv

DAFYDD AP EDMWND

LIV

CYWYDD MOLIANT WILIAM FYCHAN

[MOSTYN MS. 148]

ifor y glod¹ fu wr glan
 ail ym fych Wiliam fychan
 llys selen² a llys Wilym
 lle r af o gael³ llawer ym
 ssyr⁴ ruffudd mynn sain raffel
 euro ddwyd bawb arr a ddel
 orwyr hael o ryw yr hen
 wilym arall ail morien⁵

¹i glod, J.C. 15. ²lliw selen, J.C. 15. ³i gael, J.C. 15.
⁴wyr, J.C. 15. ⁵murien, J.C. 15.

ayr¹ dudur wrda ydwyd
 orr un iach o ronwy wyd
 i adrodd dy ddau edryd
 ir un gwr y ron² i gyd
 bonedd agai bunoedd³ ged
 byd yn eurfab Ednyfed
 oes⁴ y tri oes⁴ etto rai
 oes⁴ dy iownlwyth ysdanlai
 ucha brig acho a braint
 o dai gaer yw dy geraint
 gwyr longcastr hyd gaer lingcol
 gwerin deg a gair yn dol
 a dau fars dy di a fedd
 ae danad a dwy wynedd
 ynn arfau r gaer ynn arfon
 yr wyd fal cwnstabl o ron
 y dref a fun darofynn⁵
 yr aeth i gwaed wrth i gwynn
 ni chaer un ynni⁶ chaer well
 na chystal ynn i chastell
 aer⁷ y twr irwyd eryr
 a chadw o welch yw dy wyr
 o fruttus ni bu frytwnn
 ond ti ynn y meddiant hwn
 arr wynedd pann fv rannau
 y rhannwyd tir ir henw tau
 ni ellir bod llwyn allann
 na bod tref na bo i ti rann
 aeth y tad nith ddatodir
 aethost oll ath ddewis dir
 ai ar glod argoel ydiw
 o da r haul dros goed a rhiw

¹ wyr, J.C. 15. ² ir an, J.C. 15. ³ beunydd, J.C. 15.
⁴ os, J.C. 15. ⁵ dy rofyn, J.C. 15. ⁶ yn i, J.C. 15. ⁷ ar,
 J.C. 15.

ar y dwr fal i rai donn¹
 yra denw ar y dynionn
 dewis ar lu dos² i lann
 dy henw nid a i hunann
 ithel³ er maint ath ddylyn
 ith ysdad ni thowys dyn
 ynghadair y dringhedydd
 yrwyti yn yr oed tydd
 o flaen sir fal un serenn
 o faich byd afae uwch benn
 llawer ol⁴ ynn lle r elych
 llawer gwr mewn llurig wych
 llowiwr gwyr llawir gwrol
 llawer dyn ynn llu ar dol
 ynnagos ytt ynneg sir
 ag ymhell ith gymhwyllir
 ti yw maer lletyau medd
 ti yw llonaid holl wynedd
 ti yw i ffrenn tew ai ffrwyth
 ti a elwir penn tylwyth
 ti a rann yn llann⁵ a llys
 ti yw enaid twy ynys
 ti a rydd ar tai a roes
 ti a ery gael teiroides

DD AP EDMWNT

¹ fal i rai i don, J.C. 15.
J.C. 15.

⁴ oll, J.C. 15.

² does, J.C. 15.

⁵ mewn llan, J.C. 15.

³ ith ol,

LV

[MOSTYN MS. 146]

ich llys iach llawn
wiw rys i rawn
a gwys a gawn / agos ged
ath vudd wyth vael
o gudd yw gael
aur rrudd wr hael / rrwydd y rred

DAUID AP EDMUND

LVI

I VARGED FERCH RYS AP KYNRIG AP
ROBERT

[MOSTYN MS. 131]

Ti a gai od ai i von
basteiod o bys duon
a thv o bridd a tho brwyn
a thanllwyth o eithinllwyn

110

CYWYDDAU GOFYN

LVII

CYWYDD I OFYN MANTELL I DRY- HAEARN AP IEUAN AP MEURIG

[PENIARTH MS. 83]

Teyrn ymysk trin a mael
tyrhayarnn gwell no r tri hael
ap jevann nyd gwan y gis¹
ap meyrig hed ym harris
kaidwad y tair gwlad wyti
Ros a gwent ay rwysc genti
a thonnen vawrwen o veych²
a ffenfro ymddiffynfaych³
tir brychan deyan ar dol
tyrhayarn ar tair heol
trachwyrnn wrth gedyrn yth gaid
tirion wr toryn ayraid
wyr irid vlaidd eryrawl⁴
ny by yn vyw neb vn vawl
gwr o waed hygar y wenn
gwyelch gwynedd gwelwch gynenn
y mav son ym hywys ennyd
am dy vantell o bell byd
a roddest ym o ryddair
dydd daed am dy dydded ayr

¹y geis, C. 27. ²aythnen farwen o faych, C. 27. ³ym-
ddiffynfa r ych, C. 27. ⁴ore 'r hawl, C. 27.

gwe lawn o ros glan yrai
 am airiol goff or mwrrei
 gore klog llyoyssawg lles
 gwe o ddilif gwddeles
 mantell hardd y maint av lled
 mak ymwrch pen makwy merched
 kyddygl ynghylch kywddwr
 kaer o wlan kwrel y wr
 llenn rydd ym llanwai o wres
 llwyn gwinwydd pob llenn gynnes¹
 pilin rag drygin y drig
 perked ddayled wddelig
 llydan ach lan lled na ch[1]og
 llanerch o wair maillionog
 llwythwyd tryfaylwyd trwy vor
 llenn veryr ay lliw yn var vor
 perth arw vawr porthor wy vi
 perth dew oedd porth dyw iddi
 ked ydoedd yn kael kadach
 kedenn rydd am kaidw yn wr iach
 keveis megis gwr kyfonn
 hyn vrytys hysbys yn hon
 y gwr ar groen ewig wenn
 y gysgoedd nys dyg asgenn
 kysgy dan any donyog nawdd²
 y maharen am hayrawdd
 am y baïs y ymbwyssynt
 y by ryfel heb gel gynt
 hen vrytwr hyn ver ytoedd
 gronwy ddy gwr o wynedd oedd
 hyn y gwr anhynog iawn
 a gaf inav gof iniawn

¹ pob lle n gynnes, C. 27. ² dan gay doniog nawdd, C. 27.

a dissgwyl vanwyl py fodd
yr tir draw yddar tarw drwodd
os oy vodd de[w]is vyddin
os ar ffo draw sarff y drin
o daw ailwaith nyd wylais
o chrydd¹ swydd ny chwardd sais

DAFYDD AP EDMWNT

LVIII

CYWYDD I OFYN CWN I ROBERT AP
DAFYDD AP ROBERT O NANHEUDWY

[ADD. MS. 14967]

arwydd son² a rroddais i
ar lwynnoc er ylenni
a chas vyth achos i vod
yn angav im kwningod
annog kwn a wna kynydd
ar ol hwnn val arail hydd³
dragwn kynllyvangwn llys
draic y tir drwy goed dyrys
a ffann von clynion lid
yn amla yni ymlid
y rhed y carl ar hyd kwys
jr ffevav i or ffowys
ac vn nis kyvarth vnawr
o gain i mewn o gwn mawr
a chenym i a chwn man
oi dyllav y daw allan

¹ chyradd, C. 27. ² sor, P. 137. ³ mal ar ol hydd, P. 137.

eissie mawr nad oes i mi
 wedd organ o ddayargi
 j viniaw kadnaw koednant
 or ffav blu ir ffo ai blant
 y kynydd pler amkanwn
 y kann hael¹ y kenav hwn
 anvon mawl na ovyn mwy
 a wnawn hyd y nanhevdwy
 j ddewrgar am ddayargi
 ac yr kerdd vo gair y ki
 Robert fy naf vab davydd
 Rob[er]t wyr Rob[er]t ai rydd
 Gwalchmai am ossai a medd
 Gwalch gwyn o hil gweilch gwynedd
 llowrodd beirdd y kellweirwn
 llawer kamp yn llurig hwn
 ym orvol² am a orvv
 ymwan a llain ymin llv
 arwain bwa da i daith
 ac ynull ffichd aur ganwaith³
 gidar volld gydawr a vydd
 gwr a saeth gorav seithydd
 pavn gwynedd gyvannedd ged
 pavn trevor pantri yved
 penn bonedd hyd ddiwedd ach
 penn heliwr pa vn haelach
 ywr pennaeth aur opiniwn
 ar pennaf a gaf oi gwn
 alanas pob ryw lwynawg
 miniwr a ffwniwr ffav
 min dyrys mewn dayarav

¹ or kan hael, P. 137.
P. 137.

² arfoll, P. 137.

³ ar ganwaith,

yn minio lle bo y bydd
j lwynog aflewenydd
edrychyn or ymdrechu
ar gael plwk or gwely plu
doed Rob[er]t gwferd y gad
j gyd hel i goed dwywlad
ai gi da ym ac o daw
o gwning vo gaiff giniaw

DD AP EDMWNT AI KANT

LIX

KYWYDD I CHWE MAB DAFYDD AB
ITHEL FYCHAN I ERCHI CHWECH
YCHEN

[PENIARTH MS. 84]

Aer evtyn a roer yta¹
i wyr y tir or yd ta
nid mwy kyrwynaid y mon
nor hobaid /n/ rhywabon
ysta vn pen gostav wr²
oedd yr yd i ddiridwr
dygan ai meirch devgain mail
dav kanwr yd ai kynail
i fwyd i hwsmon a fydd
i ddav yd ai ddiodydd
ai rhyfedd kymyredd kvr
i mi lefain am lafyr

¹a wyr ytta, P. 100. ²pan gostiai wr, P. 100.

ai gwiw heb aradr ag og
 im ytir raw a mattog
 i dir gwydd nid ar gweddav
 vchod ni wn ych na dav
 fynghwyn fv angen enyd
 fy ieirll gwnewch /n/ fwy o yd
 gruffyth sion ken[vrig] ddigardd
 jenn jthell howell hardd
 bendith dd vab jthael
 fychan chwech foch /n/ i chael
 y chwechant or iach vchel
 o chewch radd vwch vwch i rel
 fy chwechar kaf ych ychen
 frodvr mawr faradr a men
 vn or rhain gan yr hynaf
 ithel y rych oth law r af
 gennyd o gwnai fargeniaw
 gruffyth ych goroff a ddaw
 kennyd mal r ymkanaf¹
 kynvrig ych kymar a gaf
 heddiw mal ith gyhddwyd
 howell am ych hael ym wyd
 sonia heb dy lyshenwi
 sion am ych moes hwn i mi
 o dawr mil i dir maelawr
 ifan am ych kai enw mawr
 o don heb ado vn ych
 mae i bawb air am bob ych
 chwith erchi chwethvwarchawr
 chwelle² mae vwch allv mawr
 /n/ yngwlad a wnan glydair
 o goed a gwydd ag yd a gwair

¹ fab yr amcanaf, P. 100.

² chwe llew, P. 100.

a men yr ychen mannog
a chan llwyth ni chawn i llog
o rhowch fal gwyrdd² a rhvdd
ym ychen o liwr mvchvdd
eirch ych bob vn or chwechar
erchwch kewch a rhowch ich kar
a fynnoch i ban foch hen
a roir vwch am /r/ ychen²

DD AP EDMWNT AI KANT

CYWYDDAU DUWIOL

LX

CYWYDD I FAIR

[LLANSTEPHAN MS. 47]

Mair em ddiwair mam dduw ion
mawr enw wyd ir morynion
yth ovyn i dauth avi
yn gennad duw tad i ti
Eva an dyg i ovyn
avi o honod ti an tynn
di ryvedd wedyr avi
duw vab duw yw dy vab di
e vo oen a vy ennyd
wynn yth bais a wnaeth y byd
duw nef a vegaist yn wr
dri ag vn yw droganwr
y gwr a wnaeth o gariad
bryny dyn ar brenn i dad

²gwynn, B.M. 152. ²er yr ychen, Ll. 133.

olew vy Rag¹ i elyn
 oen y tad i enaid dyn
 mi a wylais am weled
 weliaŷ krist olew kred
 ar gwr dall ar gwaew ir dv²
 ai benn dan asen iesv
 or³ drain kyn oered⁴ ar ja
 i koroned kar anna
 ar groes dros bvmoes i bv
 mor rasol a marw iesv
 ag yn ol i varwolaeth
 ir nef vry yn vyw⁵ ir aeth
 Roi gwiliad Rag y gelyn
 ai allv dduw⁶ yn llaw ddyn⁶
 y gwr a phvmp gair o ffydd
 win a dwfr a wna Dovydd
 brainiol i gwnaeth y brenin
 beri gorff mewn bara a gwin
 wyr anna yna⁷ rennir
 angelvs dei n eglwys dir⁸
 yr oen a ddaw i Ranv
 adda ai lwyth yn ddav lv
 llv duw a gaiff lle duwiawl
 a llv o ddv a n llaw ddiawl
 mair oetydd y mvr wyd ti⁹
 mor a thir ai merthyri
 arweddaist wr i oddef
 yn dy gnawd an dyg i nef
 llyna dda llvnia ynn ddydd
 llyna i bvmp llawenydd

¹ ag olew rrac, Ll. 167. ² a roe /r/ gwayw dv, P. 100. ³ ar,
 B.M. 52. ⁴ arwed, P. 100. ⁵ fy nuw, P. 100. ⁶ duw . . .
 dyn, P. 100. ⁷ ynn a rennir, P. 100. ⁸ yn eglwys duw
 gwiwlwys dir, P. 100. ⁹ ir meirw wytti, P. 100.

nyd awn bvn nad ynn boeni
yn tre tad ond trwyod ti
ty di ywr aleluia
trigaredd a diwedd da

DAVYDD AP EDMWNT AI KANT

LXI

COWYDD I DDUW

[ADD. MS. 14879]

o gyfarch yn y gafell
i dduw a mair oedd ym¹ well
ymofalwn am foli
i wneuthvr arch vn a thri
y gwr mwiaf a garwn
a'n gwnaeth a helaeth yw hwnn
ar i lvn ai ddymvniad
ai ddelw o rym dduwiol rad²
oedd yn ddim o [d]daioni³
ond a wnaeth vn duw i ni
addolwn i dduwoliaeth
duw or nef daear a naeth
ac y sydd ddefnydd ddyfniad⁴
ynthynt oll a wnaeth ein tad
ar mab a roes ir meibion
y dwfr ir ai waed oi fronn
in prynnv jon pvr einioes⁵
i rhoed krist ar hoiwdeg kroes

¹ oedd ddim, C. 7. ² ai ddelw rym dduw loyw rad, C. 7.

³ oes ddim einim ddaioni, B.M. 39. ⁴ dofydd dyfiad, B.M. 43.

⁵ i bryny yny bvr einioes, C. 7.

meddylw'n am i ddolvr
 a maint dros i geraint o gvr
 a choron ddrain grevlon gred
 spinvs¹ jessu a boened
 hevddv ni wnaethoedd hoiwdduw
 hoeliaw traed a dwylaw duw
 a rhoi brath llifed gwedy
 dann i fron'n in dwyn ni fry²
 ystyriwn air i hw'n rhom
 wirion farw jor nef erom
 dwy noswaith da iawn jessu
 yn i fedd er yn mwyn fv
 ar y trydydd gwyndydd gwiw³
 i kyfodes kof ydiw
 j ddwyn adda ddawn oddef⁴
 o vffern oer i ffair nef
 ac i eiste 'n wr⁵ gwastad
 ar ddeav dv wirdduw dad
 a choron nef addef fydd
 am i benn y mae bevnydd
 ar ysbryd diwyd awen
 glan oll yw golevni llen
 i fyd i gwnaeth ddyfodiad
 y svl gwynn ar hynn mewn rhad⁶
 ar haf oedd ffrwythlawn⁷ hoywfawr
 ar koedydd ar meysydd mawr
 a phob peth ddifeth ofyn
 ar ssydd dda a roes i ddy
 am hynn i galla fymhoeni⁸
 i wnevthvr arch vn a thri

¹ysbeinys, C. 7. ²a dwyn ei fri, B.M. 43. ³ar trydydd
 gwanhwyndydd gwiw, B.M. 39. ⁴i ddwyn pobl addwyn
 oddef, B.M. 43. ⁵jor, B.M. 51. ⁶yn Roi yn yn Rad, C. 7.
⁷ar hafaidd ffrwythe, C. 7. ⁸gallaf ymhoeni, B.M. 51.

dann nef ni wyr dyn hefyd
 devall gwaith duw oll i gyd
 mawr gwyn¹ fal i mac /r/ gannwyll
 i mae duw heb ddim o dwyll
 fflam a chwyr a phabwyren
 ac vn oll yw /r/ gannwyll wenn
 ac felly mae gwiw bwyllwr
 tri ac vn gore vn gwr
 duw tad duw fab pvrad praff
 duw ysbryd glan dewisbraff
 vn duw tri pherson diwyd
 ydiw /r/ gwr awdvr i gyd
 duw jon a wnaeth dann i nawdd
 duw ar brenn an dir brynnawdd
 duw a roddes drwy weddi
 duw a wnaeth bob da i ni
 duw yw /r/ keidwad ior kadarn
 duw /n/ fyrr a[r] bob dyn a farn
 duw a roes einioes annedd
 duw a wnel ein dwyn iw wledd

LXII

LLYMA GYWYDD PEDAIR MERCHED Y
 TAD, PUMP LLAWENYDD MAIR, A
 PHUMP PRYDER MAIR, A SAITH
 GORVCHAVIAETH MAIR²

[ADD MS. 14967]

doeth yw mab ysbryd a thad
 duw a chreodr ywr dechrevad

¹gwn, B.M. 39; gwn, C. 7. ²C. 26.

dwfr tir tec ac a vegyn¹
 adda ai hil bioedd hyn
 am awnnaeth² ni mynyn³ wedd
 Ef a⁴ ochel bren y vvchedd
 y brodied⁵ o baradwys
 yma ir byd mawr i bwys
 j varrw ac i lavriaw⁶
 yd y glyn drwy od a glaw
 am na chaid vn mynych dal
 yn nef am yr un aval
 y saint ni thawai a son
 gabriel am lwyth glyn ebron
 ymarn duw oi mvrn yw dwyn
 am eiriav pedair morwyn
 arraith vn oedd wrth dduw ner
 ai kof⁷ vn dydd kyviownder
 geiriav r ail oedd garvr iawn
 gwirionedd gowir vniawn
 trvgaredd ywr drydedd drin
 traws i gair tros i gwerin
 a hedd oedd bedwarded[d] bvn
 a heddwch yw hi vddvn
 a hyn a roed o hen raith
 ar i mab o rym obaith
 a ddoeth o vewn knawd yw ddwyn
 o ryw mair⁸ orav morwyn
 da doeth o vynnwes duw dad
 da i vyd vvr dyvodiad
 j ddwyn kroes dwyloes dylyn⁹
 o bren duw i brynv dyn

¹ ac egin, Ll. 6. ² am na wnaeth, B.M. 29. ³ mynai,
 Ll. 6. ⁴ Efa, B.M. 29. ⁵ y by rodiad, H. 5; in bwriwyd,
 B.M. 29. ⁶ lafuriaw, B.M. 29. ⁷ kof yw, Ll. 6. ⁸ y vry
 mair, Ll. 6. ⁹ ddyloes ddilyn, B.M. 29.

j varw i vyw oi oroen
 j dynnv byd o dan boen
 ac i roi dysc a gair da
 yw vam pann oedd vyw yma
 pvm llywenydd dedwydd dal
 a gavas a ffvm goval
 vn vv gael o nef geli
 y son ai beichioges hi
 ar ail nwyf or lan ovec¹
 oedd eni duw i ddyn dec
 da oedd yw vam² trydydd vv
 duw sul gyvodi jessu
 pedwerydd oi ddydd oddef³
 pann aeth i mab pyw i nef
 ar pymed vvr mynediad
 am i dwyn lle mae i dad
 pryder mair prydir yw modd
 pryd arall i pryderodd
 vn braw aeth yni bron
 o rysymol air simon
 a ffan golles yr jessu
 alaeth yw vam eilwaith vv
 duw a welai mewn dolor
 drwy i chwsc weldyna dri chur
 pedwar galar am geli
 pann vv ar groes poenvawr gri
 pymed oedd weled i ddwyn
 mor varw ar vraich mair vorwy[n]
 weithian o lan lywenydd
 jddi saith gan dduw y sydd
 vn yw kael gradd ai haddef
 yn vwch noc engylion nef

¹ ar ail oedd ar lan oddec, Ll. 6. ² y fair, Ll. 6. ³ addef,
 Ll. 6.

ail vn¹ bod i golevni
yn nef val yr haul ini
trydydd bod pob llywydd lles
vry yni henwin vrenhines
pedwerydd i rydd roddi²
duw hael sydd vnvryd a hi
pymed hyn a geisied hon
duw ai gosyd³ yw gweision
chweched yw i byw ai bod
drwy vnder gar llawr drindod
seithved pvred y pery
j nwyf a roed i nef vry⁴
archwn i vam grist erchi
er hyn oll⁵ ar hoi i ni⁶
gael llewych golav llawen
gwledd i mab arglwydd amen

DD AP EDMWNT AI KANT

LXIII

ENGLYNION Y MISOEDD

[ADD. MS. 12230]

IONAWR

Calan mis jonawr ystwyll celi hael
hwyl jlar a Mawri
swlpws lan Sabestiani
dydd Sawl a diwedd yw Si

¹ yw, Ll. 6. ² pedwerydd rydd yw roddi, Ll. 6. ³ gesyd,
Ll. 6. ⁴ yn un fraint yn y nef fry, B.M. 29. ⁵ y rhain oll,
B.M. 29. ⁶ y Ran o nef ai Roi i ni, C. 7.

CHWEFROR

ffred Mair yw¹ dystair gwyl fedasti hael
 hyd at wyl falenti
 a patrwm² hen yw petri
 Mathe Wyn ai enw Mathi

MAWRTH

David Non peition hyd perpetui Saint
 Saint Grigor sudd gwedi
 Patrig hael peter celi
 a Mair hyd ff mawrhad hi³

EBRILL

Ebrill Rys Ambros gwyl Barnabi sant
 hyd sanctws Tibwrti
 a gwyl Alffegiws A: G:⁴
 ar llew yno 'n gorllenwi

MAI

ffylip croes jessu ny ffaeli yn wir
 anciri ferthyri
 Vnwalch dunstan oi enwi
 ac Vrban deg ar ben d:

MEHEFIN

Mehefin dilin heb ddioli Barnabi
 Antwn sant fiti
 sant marcel yw n angel ni
 jhon yw n patron sain petri

GORFFENHAF

tymor gorffenhaf Sain Thomas⁵ di nawdd
 bonheddi in croesi

¹vyw, P. 99. ²patron, P. 99. ³a Mair hyd i mawr-
 had hi, P. 99. ⁴Gj, P. 99. ⁵thomi, P. 99.

Cynllo war Margret Mari
ac jaco benaic a B

AWST

[Pedr gevyn oswald pa wedi
Alch Arov ond Mari
yn ei hol y mae Bartholomi
.]r

MEDI

Silin Sant Owrbert² ladi Mair
forwyn croes Celi
Mwythe pawb Mathe pi
a swm³ moliant sain Mili

HYDREF

Gwn na ffeidiwn ffidi a denis
downws Edward regi
gad Lug ni ddug ddiogi
gwedi 'r wyl hon Simon Si

TACHWEDD

Saint eneidiae llu santi Marthi
owdyl hyd Mundi
a ay ren owdl Clementi
a Chatrin oi heurllin hi

RHAGFYR

yn ol Andras Nili Mair wenlan⁴
morwynlys ei henwi
dydd vrddas Tomas yw T
a duw ag John yd at G

DAVYDD AP EDMWND AI CANT

¹P. 99. ²Cutbert, P. 99. ³swb, P. 99. ⁴wenlon, P. 99.

ENGLYNION

LXIV

[PENIARTH MS. 206]

Gr. ap Nicolas pann oedd yn vrowdwr ar yr
arian dlyssav a barodd ir prydyddion vined pawb or
neilldv a chanv englyn ac na chane neb ar destyn i
gilydd. D ap Iemwnt a enwodd bob peth a ellid
kanv arno val na allai neb arall ganv i ddim heb
ganv ar i destyn ef

dwr tan awyr ser terra a main
a wnaeth mab maria
angylion nef plant efa
gwyllt gwar gwellt gwydd nos dydd da

.

wrth orfod kydfod kadw moes ag
arfer / gwyr ifaink newyddfoes
darfwr hen wyr ar henfoes
gorfod oi darfod nid oes

[PENIARTH MS, 239]

Englynion a wnaethpwyd yn halaeth dinefwr o
flaen Gruffydd ap Nicholas yr hwn oedd yn rhoi
barn am y gadair arian

Pysgodwr² wy mewn pais gwta | rudd
ar oddeg² pwll gwepa
pysgodwr swydd i wr³ sydd dda
pyscottwr wy yn pyscotta⁴

Melin a glin⁵ ag aelwyd a phont
a ffentan a chronglwyd
mvrddyn a chroes a morddwyd
a gweddi lawn a gwydd lwyd

Pais las gown glas rhag gloesion mynych
a menig pur leision
cappan godre llydan llon
glas ag ysane gleision

Pan ddel terfysk ymysk myrdd⁶
a son am y ganon⁷ o gerdd
dyn llwyd gadach bach yw r bardd
nid mwy na dwrn kogwrn kerdd

² pyscottwr, M. 131. ³ ar odde, Ll. 49. ³ swyddwr, Ll. 49.

⁴ pysgodwr wyf ar ddwr mewn pais gwta
rudd ar odde llynn mana
pysgodwr ar ddwr oedd dda
pysgotta di pysgotta, M. 131.

⁵ ag elin, P. 239. ⁶ beirdd, P. 206. ⁷ a ganon, P. 72.

kam ir Gutto roi cadair ir gwr
am ganv ton devair
a chweddi rhoddi r gadair
dwyn dwy bynt ne dair

LLOWDDEN AI CANT

ATEB

devair am gadair ag vn om genav
a genais i ddvwlvn
ag or ddevair gwrdd oeddyn
taer wyt ni wyddyt ti r vn

DD AP EDMOND AI CANT

[LLANSTEPHAN MS. 49]

jm profi rwyfi¹ fal prif afon bur
ymysg aberoedd meinion
pren wyfi pur yn ei fon
a gwellt ydych ag alltydion

[PENIARTH MS. 94]

Cynghanedd eb synwyr oedh eu testyn medhir

Gwr grym grair groewgrym groer greurgryw
gwrdd groes groes gwas gwisgroes goesgryw
gwr gwyr gwaer grer gler gloewgryw
gwarth gwyrth gwrth gwarth gigarth² gyw

D AP EDMUND

LXVI

YNGLYN GARHIR

[PENIARTH MS. 94]

dowch wynedh yr wledh ar lam³
conwy pam y canan⁴ bawb yngham

¹prifio rwy fi, P. 239.
119. ³ar lann, P. 122.

²gwerth, B.M. 32; gigeith, Ll.

⁴canwn, P. 122.

yn y myw ny wyl y mam
vyngwar heb gadair arian : dydh dawch dam

LXVII

[ADD. MS. 31055]

croger annoger yn vwch no lhadron
lheidryn lhodr a phenguwch
mileinvab leidr melenvuwch
modrwy r Flint¹ am odre r phluwch

DAUYDH AP EDMWND YR LHEIDR
A DHYGASAI N LLEDRAD EI VUWCH

LXVIII

PENNILL GORCHESTOL

[ADD. MS. 31055]

ar dy wdhf yr â deudheg
or gwyr yn siars ar gorn sieg
Siarls Hwll Gei Wat Siors Wil Gwyn
Sim Siac Siamys Hic Sianyn

D AP EDM

[ADD. MS. 31055]

A chael i mi echel menn
o Salbri ynys hwylbren
echel menn a chael i mi
ynys hwylbren o salbri

D AP EDMWND YN GOFYN MENN
IR THOS SALBRI HEN

¹ flint, P. 99.

[ADD. MS. 31055]

dol fodffordh dhwysvordh dhewisvwyn
 sy las o lysie ac irvrwyn
 ystodhveirch onest adhwyn
 o lasdir dol Elestr dwyn

D AP EDMWNT

.

[ADD. MS. 31055]

Cerddais¹ tra vynnais trwy vannau y byd
 pand² hyfryd vryd vrodiau
 tuth³ gadarn teg yw r varn vau
 tew gongl avr tegaingl orav

DAUID AP EDMWND

.

[PENIARTH MS. 56]

hir hir i trigaist hwy yw dwyawr o nos
 itharos no theirawr
 pe trigassyt wiwfud wawr
 . . . ddim kowsyt hawddamawr

.

[PENIARTH MS. 77]

Jolyn pwyr Jolyn pa ryw aelod sych
 yn ol syched medddod
 yn veddw vyth iawn vydd i vod
 Jolyn ddav alwyn ddiod

DD AP EDMWND I JOLYN VEDDW

¹ Rhodiais, M. 131. ² draw, M. 131. ³ rod, M. 131.

Garwlin gur drablin gwrdrwbl
(gwyr gibws) grogenbwl wennfflamgwbl
garw aig drebleth gorwagdrwbl
garw gur angerdd gerwingwbl

DD AP EDMWND IR CIBWS

Synwyr sarph sy'n orav som
synwyr merch svnair ai mam
synwyr mab sy'n orav mwm
synwyr duw sy'n orav dim.

[LLANSTEPHAN MS. 119]

annerch hael feinael¹ gwyr fyniw² gannwaith
gwyl dalaith gold eiliw
gwylldol aur gwallt da i liw
gown sidan gownsi³ ydiw

LXX

I ITHEL AP DD O GAERVALLWCH YN
LLAN EURGAIN AM DYNGV ANUDON.
BAW A DHYWEDAI AR BOB GAIR

[PENIARTH MS. 74]

Ithel val gefel a gair y dyngv
hyd angau vwchben crair
ag nyd oes egni dwysair
Ithel waeth ei lwf ai air

¹ gaer veinir, P. 94. ² viniw, P. 94. ³ gwensi, P. 94.

Ai aradr breugadr¹ ai bar ogau llymion²
yn llamv dros gwysau³
ar llaw gam ag ar llwf gau⁴
y tyrh vin y tervynau

Baw 'n vyw baw 'n varw baw yn overedh
val baw / yth welan yn gorwedh
baw ymhob man oth annedh
baw wedy 'r elych yr bedh
IOLO GOCH medh ereill D AP EDMUND

.

LXXI

CENVIGEN

[CARDIFF MS. 7]

Cenvigen cneuen mewn cnawd caeth roliad⁵
cythreulic yw pechawd
cynvigen cwyn o vagiawd
Cain vrwnt a wnaeth cam ai vrawd

.

LXXII

[PENIARTH MS. 313]

Gorau guyr Rissiart i gurau / koed yn us
a Gyladus i gludau
y hi yn lenyi ai lau
yntau Rissiart yn tressiau

DAFYD AP EDMUNT
i wr ai wraig y oeddent yn
torri coed oe yddaw ef

¹ bregadr, P. 99. ² llym, P. 99. ³ wedir llaw ar greiriav,
P. 99. ⁴ ar llw gwyr ac ar llaw gau, P. 99. ⁵ rywliad, Ll. 119.

LXXIII

[LLANSTEPHAN MS. 165]

A glymo cydio mewn cadach / bun fain
ben i fys yn holliach
Foi dettyd hefyd hyfach
beunydd oi newydd yn iach
.

LXXIV

KADWYNVYRR

[PENIARTH MS. 96]

gwenfyn gwynfav gainfyn¹ gynfvl
gariad gwervyl² gyriad gorav
gwirfydd gyrfav gorfydd gwyrfvl
gorwag evrvl³ gwiw ragorav

DD AP EDMONT

LXXV

KYHYDETH NAW BAN

[PENIARTH MS. 126]

wrthut criadr byd bid vngobaith
wrthyff¹ bydd drearoc hywar hywath

¹ gwynvawr geinvwyn, H. 24. ² gweryl, H. 24. ³eryl, H. 24.

athargau eyud gway nid gayll yn gobaith
wrth ddynion gwynion ni by gweniaith
wrth hyn dduw vry vrenyn pob jaith
dan y neff kainllef kynllith

DD AP EDMWNT

LXXVI

[MOSTYN MS. 131]

Pam y bras gwydd las ar lynn
heb vittel // heb vwytta un gronyn
mae yr wydd er ysblwyddyn
heb ddafn gwaed heb ddifyn gwynn
.

Hanner pais hynn a wyr pawb
am ysgwydd Eigion eskawb
Hynn a wyr pawb hanner pais
am gorff honn i gorffennais
.

Edrychais hyllais hull overwyr saith
syth rygynbren im amner
hoiw vydd gwin gloyw gler
chwerw boen dielw pan deler

[CARDIFF MS. 12]

Y praff gryf ddafydd or pif¹ weith grefft
 ai tanodd / at hyny kowreingrefft²
 a mab lameth helethgrefft
 ai gwnaeth gynta groiwdda grefft

DAFYDD AP EDMWNT

[HAVOD MS. 26]

dy ddrain vab i nain dy wynion
 vachau dy danau dod Einion
 dos ir traeth y mab maeth mon
 dyred a physcod irion

yr vn gwr i labwst o von
 ni wyddyd pwy i dad nai vam
 ac a vagai merch gwraig weddw
 ac ar yntau n byscodwr

Ny oganaf Syr Dauydd
 wan o Von am win neu vedd
 cwrw na bir im car ny bydd
 er haner wy rhown i rodd

Dywedyt mae r vn gwr

¹ prif, M. 129.² ai thynnu yn gyfiowngreft, M. 129.

ATODIAD

I

MARWNAD D AP EDMWND

[ADD. MS. 14967]

llaw dduw a vvn lladd awen
lladd ennaid holi ddwned hen
saer nid oes eissiavr vn dyn
ar goed owdl or¹ gwawd odyn
[may r gwr mewn mur a gweryd
a wnai r gerdd yn aur i gyd]²
vn niskan yn is konnwy
wedi mynd mab edmwnd mwy
bwrrw browdwr y gerdd wriaeth
beth awyr neb eithr a wnaeth
bwrrw davydd gelvydd dan gor
bwrrw ddoe nvnmeistr³ bardd nanmor
bwrrw devlwyn y brawd olaf
blodav kerdd pa wlad y kaf
tair awen oedd ir trywyr⁴
a vai les i vil o wyr
gweddw vvr alld a gwydd y vron
gwarche⁵ vstvs gorchestion
gwael vv wydd y gelvyddyd
gwedir gerdd gadair i gyd
kri aml yn kor⁶ yma
kwynno dwyn y kanv da
kell dadl pant kolled ydoedd⁷
kyvryw ddyn kyvarwydd oedd

¹ a, P. 82. ² B.M. 24. ³ n vn modd, P. 82. ⁴ trowyr, C. 7.
⁵ gwarchae, B.M. 24. ⁶ yn y kor, C. 7. ⁷ kell dadyl kolled
ydoedd, C. 7.

kannv oedd well kyn i ddwyn
 klymv gwawd kwlm y gadwyn
 kannv vyth i kawn y vo
 ac iawn oedd ganv iddo
 gwae vi vnic vawenydd
 o arros awr ar y sydd
 vewythr o waed vathro oedd
 vynwes gwawd vynysc ydoedd
 masw ym oi eissiaf yma
 methur dysc am athro da
 mi a gollais am¹ gellwair
 a thrachgefn ddieithrwhcgair
 davydd a wnair gerdd davawd
 dyrnod gwn drwy enaid gwawd
 duw² diben dewin dabeth³
 dra vv nid ai air i veth
 doe bwrriodd haint y bardd hen
 dwyn⁴ deav dyrnod awen
 dy vrawd tad i vrvd⁵ ydoedd
 jaith gymraec ath gymar oedd
 dy ddwned⁶ oedd oi enav
 ac y roedd vric⁷ y gerdd vraw
 praffav⁸ dadl proffwyd ydoedd
 penn llad ar bob pennill oedd
 pedoe orchest nev gwestiwn⁹
 pe doe hawl pwy wedi hwn¹⁰
 pennod mevyrdod am varn
 pe mric owdwl pwy mor gadarn
 pan nanai neb hyn anaeth
 pwyn kav vrddas penn keirdiaeth

¹ ym, C. 7. ² dwyn, P. 82; duw 'n, B.M. 24. ³ yn dewin-
 ieth, P. 82. ⁴ dwyn, P. 82. ⁵ frvt, P. 82. ⁶ i ddwned,
 P. 82. ⁷ a gyredd fric, H. 3. ⁸ praffa, P. 82. ⁹ pwy yn
 gystal pen i gwestiwn, B.M. 24. ¹⁰ plei roir wedir piler
 hwnn, P. 82,

adda vras oedd ef ar wawd
 a na godi yn vn geudawd¹
 ni bu vyw neb vwy i awen
 onto² vardd glyn teivi wen
 mab gwilym heb gywely
 heb iddo vrawd ni bydd vry
 yni vedd ywen³ a vv
 awen tavawd yn tyvv
 davydd ar gywydd vvr gwaith
 ac addel a gwydd⁴ eilwaith
 dyn a dyf dan i davawd
 egin gwydd o eigion gwawd
 jmpio ysbyrs⁵ kwmpas y bedd
 ar ganghenavr gynghanedd
 y roedd lwyn irddail ynys
 awen ai gwrraidd yny grys
 kyd a goedd y koed gynt
 o benn adda ban oeddynt
 athrawaidd oedd⁶ vthr⁷ iddvll
 athrownddysc a throi henddvll
 vo ddarfvr kannv kenym
 vo aeth y brud vyth heb rrym
 neb⁸ nichan i⁹ boeni chwaith
 er i vwrw¹⁰ ar overrwaith
 gweddwr gerdd ar gwydd ar goc
 gwedi¹¹ owdur godidoc
 gwnai vydr am gae ne vdrwy
 ac ni wyl merch ai gwnel mwy
 an voned i nef annerch
 o gwaodd¹² mair gywydd merch

¹ a wna godi in geudawd, P. 82. ² ond ta, P. 82 ; on ti, C. 7.
³ awen, C. 7. ⁴ ar gywydd, C. 7. ⁵ spyrs, C. 7. ⁶ athro
 oedd, P. 82. ⁷ eithyr, C. 7. ⁸ mab, P. 82. ⁹ oi, C. 7.
¹⁰ farw, P. 82. ¹¹ gwedir, C. 7. ¹² gwaawdd, B.M. 23 ;
 gwaedd P. 82.

gwneled vair i gwenwlad vydd
roi parradwys i'r brydydd¹
TUTTUR ALED AI KANT

II

CYWYDD MARWNAD DAFYDD AP
EDMWND

[ADD. MS. 14967]

y bardd gwell nor beirdd i gyd
a veddair holl gelyyddyd
davydd awenydd divas
hwn oedd vrawd hen adda vras
yr oedd i bennkerdd yr iaith
Edmwnt hil waed mewn talaith
yr oedd aur gadair iddaw
a chlod heb neb vwch i law
gwrraidd vv gyrodd ai vin
ynghur veirdd ynghaer vyrddin
mydr a roes medrai rvn²
athrwyddo n ddiethr vddun
dvc vraint ar awen dec vrav
dyblu owdl val dwbledav
dangos val edav vngor
oedd o vawl rrwng y ddav vor
y kan oi vin kyn i vedd
gwiw vur edav gyvrodedd
nid eiliodd onid iolo
yr ail val yr eiliai vo

¹ prydydd, C. 7.

² nys medrair vn, B.M. 32.

klander melyster mawl oedd
 a chrowder¹ kyvochr ydoedd
 owdl oi waith adail yw ym²
 a dal eiliad owdl wilym
 gwr oedd a wnnai gerdd yn iawn
 gem synnwyr gymwys vniawn
 gwannach wyf gan na chyvyd
 gwedyr bardd ag owdyr byd
 aeth kwyn am benn rraith kannv
 ac ail am vab gwilym vv
 Bid gwaeth gwybodav a gair
 Beirdd gwedy bardd y gadair
 ymddivad wyf am ddavydd
 eglwys siat yni gloi sydd
 kerdd iawn ir kor ddoe a aeth³
 kae ar dderwen⁴ kerdd wrriaeth
 kodded gwyr ievaingk hyddysc
 kolled oedd ddwyn kell i dysc
 gwr a wyddiad or gwrreyddyn
 burro i gerdd⁵ val barra gwyn
 egwyddor i vaelor vv
 aur a gwenith ar gannv
 gweddw byd am gerdd gwydd a bvn
 gwin oedd a ganai vddvn
 bwrrwyd⁶ addwyn brydyddiaeth
 brevddwyd oer i bridd o daeth⁷
 trist wyf treio oes davydd
 tros hwnn na chaid teiroes hydd
 trvgaredd y winwledd wenn⁸
 ty duw a gaiff tad awen

GUTTYN OWAIN AI KANT

¹ chrowder, B.M. 32. ² a dalai ym, B.M. 32. ³ Cerdh
 rwyn yr cor ddoe yr aeth, B.M. 32. ⁴ dheurudh, B.M. 32.
⁵ buro gwawd, B.M. 32. ⁶ bwriwyd, B.M. 32. ⁷ y daeth,
 B.M. 32. ⁸ yn y wledh wen, B.M. 32.

KOWYDD BARWNAD AM DD AP
EDMWND

[CARDIFF MS. 65]

Dayar su¹ gau dros y gerdd
 doe dycwyd odidowcerdd
 dafydd aeth hyd fedd weithian
 diwedd bryd cof dydd brawd [kan]²
 vn a gwawd yn i gadaw
 od y man³ trwm edmwnd traw
 y gerdd oedd val gardd jddo
 ag adwy fawr gwedi fo
 kowydd mal ef nis kanwn⁴
 kae pleth oedd fal⁵ kwplwl i hwn
 gwniodd ganeuon awen
 gwan a rhydd y gwnai wyr hen
 y dyll oi gerdd duall gwych
 jw diwedddgrefft ar dowddgrych
 caid owdl o fric gwawdodyn
 caid yn frau cadwynfur ynn
 kadwyn avr bric gwawd a wnai
 kyfowchrym j cyfochrai
 kollwyd annedd cell downed⁶
 kolli gradd nis cae holl gred
 dwyn asgwrn deau n ysgol
 daliwyd ni yn dlawd n i ol
 dug awen braff digon brav
 didlawd oedd i goed odlau
 achwyn y beirdd och na bu
 o fewn tabl faint a wybu

¹ sy, P. 80. ² P. 80. ³ o dy maen, P. 80. ⁴ kaewnn, P. 80.
⁵ bob, P. 80. ⁶ dwned, P. 80.

a rhol ddysg ar rhuwl a ddug
 a thrwyddi waith rhi addyg¹
 y dyll rhu hen o dwyll rhai
 y newyddach² i naddai
 nithio cerdd on iaith i cad
 ni rann wythodl³ ruw nithiad
 ni wys can yn is conwy
 ni chwardd merch gyda cherdd mwy
 naddodd mor awenyddol
 ni wyppai neb buw /n/ i ol
 nef jr awen ai n freuach
 nog awen bair gwion bach
 gwae ni wyl bai gan niwl byd
 gloyw fu jddo r gelfyddyd
 gwae a eiste n i gwestiwnn
 gwedi rhoi r gadair i hwnn
 kaen att i fur knott oi fin
 kae ar fowrddysg kaer ferddin
 trychant yn tario i ochel
 trwy bawb i dug ynte r bel
 tir tegaingl trwy waed dugiaid
 tair kerdd yn y tir i kaid
 dau aeth i nef doethion ynn
 duw a wilio r gerdd delyn
 e fu farw ai i fyfyrion
 ag yn fuw iach i gan fo
 prydyddion sythion y sydd
 [pawb dofach]⁴ pe bai buws dafydd
 wedi darfod i derfyn
 j waith a sai wyth oes ynn
 penn owdur yn penn ydoedd
 poettri n iach⁶ yn patrwn oedd

LEWYS MON

¹ hiraddvc, P. 80. ² yn newyddach, P. 80. ³ wythoes, P. 80.

⁴ P. 80. ⁵ pe by[w], P. 80. ⁶ jaith, P. 80.

DUCHAN I DDAFYDD AP EDMWNT

[ADD. MS. 14967]

Y mae llwdyn yma llednoeth
 a gny pawb ar genav poeth
 a dawkant yn knoi deikin
 val blaidd nev anivail blin
 llwdwn yw heb ddillad newydd
 llwdwn y vost¹ yn lle dyn vydd
 hawdd i gi ni haeddai ged
 rrwygo i groen rag i grined
 hely deio heliad ewig
 y maer kwn ac nid mwyr kig²
 helyr dai maer helwyr da
 hely vakwn howel vika³
 ymlidwyn kanwyn⁴ y kyrn
 jwrch divwyn ni chyrch devyrn
 gollyngais a seithais⁵ i
 ddoe i ddakyn ddevddeki
 a saith gywydd y saethwyd
 ac yna llas y gown llwyd
 ai gwell yn sew gallwn son
 er i ladd or helyddion
 er i gig ni roer gegin
 ac er i groen garai grin
 nid karw yw onid kywr iar
 nid kariwrch onid korian
 yr hai ai gyrai ar gil
 a wnai vostvardd yn wystvil⁶

¹ llydan i fost, B.M. 33. ² nid mawr ei cig, Ll. 124. ³ baccwn
 howel bika, Ll. 124. ⁴ ymlidiwn canwn, Ll. 124. ⁵ saethais,
 Ll. 124. ⁶ fustfil, Ll. 124.

yn aill¹ yw ef a wna llam
 ai dyfrgi ai dai vergam
 ai kath ai ysgyfarnoc kul
 ai ffwlbert a gaiff helbul
 llwynog powys vadog vydd
 llai noc ab llyna gybydd
 aeth i ddinbech i lechu
 jr ffav vawr gwr ar ffo vv
 y ddwy vaelor wadd velen
 ai gyr ir koed or graic hen
 gwyr ial heliwch yn grevlawn
 gwyr dyffryn klwyd gwnewch rwyd rawn
 edeirnon gwlad iarnadd²
 penllyn a llyyn ai lladd
 och wynedd nedwch³ yna
 yntav ir deav nid a
 trwy ddyvi nad traw dd[avydd]
 trwy hafren llowdden ai lludd
 howel ir duw heliwr dwys
 ap owain nad i bowys
 Gruff[udd] vab d[avydd] dobyn
 vychan dec kneifwch vn dyn
 syr Rys a gavas yr ol
 ywn kynydd yny kanol
 gutto hair llwynoc attad
 gwna wledd i holl gwn y wlad
 govid ydiwr ymgyvarth
 y grawys kvl ai gryd karth
 nid ambwyllir⁴ dim bellach
 ond hely byth yn hwdla⁵ bach
 jr dwfr y gyrir dafydd
 antvr i hwn vn tir rydd⁶

¹ y naill, Ll. 124. ² o di arnadd, Ll. 124. ³ na 'dewch yna,
 Ll. 124. ⁴ ymbwyllir, Ll. 124. ⁵ wtia, Ll. 124. ⁶ rhydd, Ll. 124.

dyfriar ydiw dwfr a rodiai
dyfredd vo diwedd y dai

GUTTOR GLYN AI KANT

v

DYCHAN I DDAFYDD AP EDMWND

[ADD. MS. 31055]

sywidw asaf¹ ydwyd
was y dryw ai sawdiwr wyd
os gwir dy vod yn was gwych
ith henbais lwyd wrth ddinbych
torraist cetwit duw wirion
y cerrig a phig dy ffonn
bwriaist i wyr brenn ystwnd²
bwmil davydd ap jemwnd
ar dy lifrai cair dav cant
or llv brith gwaer lle brathant
a dewrach yw dy werin
vwch gwynt nog adar llwch gwin
y mae arwydd mwyeri
a phais donn am na phois di
ol saethae ergydiae r gad
a thyllav sy ith ddillad
llawer twll gymwll gemaer
trwy r gwn wrth anturio r gaer
llawer darn ith teg harnais
a llawer clod yn lle r clais
band adwaen dy benwn di
be gwydde a bair gweiddi

¹ iso, P. 240.

² ystwnt.

ath darian wer wrth deiraer
ath acdwn o grwyn cwn caer
ath vrestblad groen dafad wen
ath helm ydyw 'r crwth halen
ni byddy avr gleddyd glod
wrth wyr lloegr arth ir llygod
ag nid gwaeth genyd a gwell
a chwrr cist na chaer castell
os y gwrw gwydd esgair gam
y mwnki heb ddim amcan
na chais vn mwy no chyw sied
dy vwnwgl gan dy veined
ni chenwydd sevthydd sy hwnt
dy omach deio jemwnt
merddin oedd yn dewiniaw
maer wadd wyd or mor a ddaw
llawer ath eilw 'n dyllvan
ac yn y brvt dwg enw bran
asen wyd iso i ni
enwiredd ennain oeri
llwynog meddair holl ynys
nev granc drwci wn ai grys
geiriav a wnaeth hengvrys
gwersavr ab i gorr syr rys
darogan oedd drwg yw nain
y dawair ab or dwyrain
i oresgyn yr ysgall
a gyrrv r llv ar y llall
vn or saith yw or oes hen
oi rwysg oll i vwrw sgallen
Alexander gwncwerwr
oedd leiaf a gredaf gwr
Arthur a duw oi nerthv
oedd lai ag a laddai lv

ar ddav gwnkwerwr ryw ddydd
a than draed tithav n drydydd
dewis wlad jeuan dywaid^r
draw i gwncweriaw coriaid
o mynni yma einioes
ymwan granc a mynn y groes

GUTTOR GLYNN

^rdy daid, P. 240.

ORGRAFF YR YSGRIFLYFRAU.

COPIWYD y cywyddau sydd yn y llyfr hwn o nifer fawr o ysgriflyfrau, a ysgrifennwyd gan mwyaf rhwng 1550 a 1650. Cedwir, mewn amryw, brif nodweddion orgraff y canol oesoedd, megis defnyddio *v* am *f* ac *u*, *r* am *rh*, &c.; mewn eraill sydd yn llawysgrif John Jones o'r Gelli Lyfdy, a Syr Thomas Williams o Drefriw, ceir ffurfiau anghyffredin am *ll*, *dd*, *ch*, &c. Gan yr ymddengys llawer llinell yn y gyfrol hon yn lled ddiethr i rai sydd yn anghyfarwydd â hen ysgriflyfrau, tybiais mai buddiol fyddai dosbarthu prif nodweddion yr orgraff.

1. Defnyddir *h* yn fynych lle y ceir *c* yn yr orgraff bresennol. dyn wyf yn *kerdded* y nos, i.

<i>ff</i>	lle ceir	<i>ff</i> a <i>ph</i> :	ai <i>ffer</i> anadyl im <i>ffr</i> wynawdd, xxviii.
<i>i</i>	,,	<i>i</i> :	ir=er. <i>irim</i> wyn riw swyn ysydd, ii.
<i>j</i>	,,	<i>i</i> :	y mayn nyn ami n vn <i>jaith</i> , xxxii.
<i>n</i>	,,	<i>yn</i> :	nor hobaid <i>n</i> rhywabon, lix.
<i>r</i>	,,	<i>yr</i> :	a roir vwch am <i>r</i> ychen, lix.
<i>r, rr</i>	,,	<i>r</i> ac <i>rh</i> :	iownach <i>rac</i> kas ne enwir, iv. gwen <i>rry</i> ofer ywn <i>rr</i> afael, xiii. arwydd sor a <i>rr</i> oddais i, lviii.
<i>R</i>	,,	<i>rh</i> :	am gae <i>R</i> aid ym garv honn, vii.
<i>v</i>	,,	<i>f</i> ac <i>u</i> :	<i>vorav</i> a hwyr <i>vav</i> r yw hon, iv.
<i>y</i>	,,	<i>i</i> :	gwen <i>y</i> neb pa gwyn a wnaid, xxxii.
<i>y</i>	,,	<i>u</i> :	gany dim os gwen a <i>day</i> , xxxii. ar main <i>ddynos</i> , xxxix.

Nid yw y llythyren 'y' i'w chynanu bob amser :

Y mae *j* chylod em wych liw, xxxviii.

Yn B.M. 48, saif *ü* am *y*, *a* ac *i* : *ü* dynt=ydynt ; *ü*ddi=iddi ;
ü wnaf=a wnaf.

Yn ysgriflyfrau John Jones o'r Gelli Lyfdy (gwel. Rhif xiv, xxxiii.)

ceir *c*, *d*, *l*, *þ*, *r*, *t*, *u* am *ch*, *dd*, *ll*, *ph*, *rh*, *th*, ac *w*.

Ysgrifenasai'r Dr. Gruffudd Roberts *d*, *l*, *u* am *dd*, *ll*, *w*, o'i flaen.

lh, a dh ddefnyddir gan Syr Thomas Williams o Drefriw am *ll*, ac *dd*, yn ol dull Dr. Sion Dafydd Rhys. (Gwel. Rhif xii.)

2. Pan fyddo cydsain feddal yn nechreu gair yn dilyn yr un gydsain, seinir hwy fel cydsain galed. Gan mai yn ol y glust yr ysgrifennid, arferid caledu'r ail gydsain 'heb *parhau* i hap ar hil.'

viii. am 'heb barhau i hapar hil.' Mae *ô ô (=p)* yn rhan gyntaf y llinell yn cyfateb i *p* yn yr ail ran.

- 'ni ad *draw* o anwyd *drwg*,' xxxi. (draw)
- 'kariad *zwbwl* kar at**te**bion,' x. (dwbwl)
- 'ni aned *za*,' xvi. (da); 'neb *pyw*,' xli. (neb byw)
- 'torred *tysg*,' xlii. (dysg).

Weithiau ysgrifennid un gydsain galed yn lle dwy feddal :

- 'on*t* y wyneb yn tywynv' xxx. (ond dy wyneb);

ac weithiau ddwy gydsain galed : 'dy *dec korff*,' i. (dy deg gorff.)
Yr un modd, pan ddilynr cydsain feddal gan *h* neu *r/h*, seinir hi fel cydsain galed, a'r gydsain galed ddefnyddir yn aml :

- 'i levat *haf* ail wyt ti,' xxx. (i leuad haf)
- 'onit hi a wna oed *tydd*,' xxx. (onid hi . . . oed dydd)
- 'nyd *traid*,' xxxix. (nid rhaid).

3. Torra'r ben ysgrifennwyr air yn ddau yn aml : 'vym *hen*,' i. (fy mhen); 'y *ddawn*,' xi. (ydd awn); 'o *dawn*,' xiii. (od awn); 'y *dywr*,' xxvii. (ydyw'r); 'ka *flo*,' iv. (caffo); 'os *hin*,' xxvii. (o sin); 'mwy *ywng hur*,' xxix. (mwy yw'nghur); 'ony *dywr*,' xxxix. (onid yw'r); 'vym *ronn*,' xxxix. (fy mron); 'i *rawn*,' lv. (yr awn); 'byr *ryonn*,' xxxix. (byrion); 'vym *ywyd*,' xxxix. (fy mywyd); 'o *dwyn dwyn*,' xxxix. (od wy'n dwyn); 'vyn *raed*,' iv. (fy nhraed): 'poen a *thug*,' xli. (poen a'th ddug).

4. Ceir ansicrwydd parthed sillebu gair yn dilyn *ym* : 'yn *hy ddewi*,' xxxii. (yn nhy ddewi); 'y *mon*,' lix. (ym mon); 'ym *hywys*,' lvii. (ym mhywys); 'y *min*,' xxxiii. (ym min).

5. Unir geiriau diacen fel 'fy,' 'dy,' a'r enw sy'n dilyn : 'fyngwediav,' v.; 'ymryddwydion,' xxx. ('y mreuddwydion). Ysgrifennir y rhageaw personol yn un â'r ferf : 'baraf,' ii. (baraf i); a chysylltir y fannod â'r enw neu'r ferf a ddilyna.

6. Saif hirnod uwchben llythyren am *n* : Edmüt, xviii. (Edmunt); oñwydd, li. (onnwydd]. Pan dynnir llinell o dan llythyren neu air, bwriad yr ysgrifennydd yw dileu y llythyren neu'r gair hwnnw, *swkw*r, xxvii. (swkwr); *deigr*, *serech*, xxxviii. (deigr, serch); *ifan*, xxv.

7. Defnyddir talfyriadau weithiau am enwau personau, megis *dd* am Datydd, lix.; *jenn* am jeuan, lix.; *ken* am Kynvrig, lix.; Jhon ysgrifennir yn lxiii. yn lle Sion, a John yn l.:

- 'jr byd swllt ywr abad John.'

8. Gadewir allan y llythren *w* weithiau mewn ffurfiau o'r ferf 'gwnaf': 'oni neir' am 'oni wneir,' xiii.; 'a naeth' am 'a wnaeth,' xlii. Ysgrifennid *w* yn fynych yn lle *wy* yn y sill olaf ond un yn y geiriau canlynol, fel y seinir hwy heddyw ar lafar: 'gwnion' (gwynion), xxviii.; 'gwander' (gwynder), xxxiv.; 'gwddales,' lvii.; 'gwrddion,' xxviii.; 'gwrddon,' xxxix.

9. Gwall yr ysgrifennydd oedd ysgrifennu 'deni' (xvi.) am 'dani'; 'gwn devin' (xxvii.) am 'gwin devin'; 'gwevsav' (xxvii.) am 'gwevvsav'; 'ddivrycheveddf' (xxx.) am 'ddivrychevddeddf'; 'eoes' (xxxii.) am 'eos'; 'brug' (xxxiii.) am 'barrug.'

NODIADAU.

IV.

Argraffwyd y cywydd hwn yng Ngweithiau Dafydd ap Gwilym gan Owain Myfyr (1789), ond amlwg yw mai Dafydd ab Edmwnd a'i cant, gan fod ganddo dri chywydd arall i Gari Mwyn (iii., v., vi.) M. 212 yw'r unig ysgriflyfr a welais yn ei briodoli i Ddafydd ap Gwilym.

VII.

Priodolir y cywydd hwn i Wen Hwlyn i Ieuan Deulwyn yn Ll. 35 a 133, ac argraffwyd ef yng nghyfrol iii.-iv. o'r gyfres hon. Ond Dafydd ab Edmwnd a'i cant yn ol Ll. 163, C. 5 a 49, M. 146, a B.M. 23. Cyfansoddwyd Rhif viii. hefyd i'r un ferch, a rhoddir hwnnw yn ddeithriad i Ddafydd ab Edmwnd yn yr ysgriflyfrau. Cesglir oddiwrth y cywydd hwnnw mai ym mhlwyf Hanmer y trigai Gwen Hwlyn, a chan mai brodor o'r ardal honno oedd Ab Edmwnd hefyd, efe yn ol pob tebig yw'r awdur.

XIII.

Awdur: Dafydd ab Edmwnd yn ol P. 76, Ll. 133, C. 7 a 19. Bedo Brwynllys yn ol B.M. 48.

XV.

Awdur: Dafydd ab Edmwnd: P. 240, Ll. 133 a 138, B.M. 23. Dafydd ap Gwilym: B.M. 24 a 53, H. 26 ('eraill a ddywed mai Rhes ap Howell dd. Llwyd').

XVI.

Awdur: Dafydd ab Edmwnd, C. 5. Llowdden, B.M. 24, P. 55. Ieuan Dyfi neu Dafydd ap Gwilym, Ll. 133.

XIX.

Awdur: Dafydd ab Edmwnd, Ll. 118, B.M. 52, J. C. 17. Dafydd ab Edmwnd neu Sion ap Howel, P. 112; B.M. 29. Sion ap Howel, P. 76.

XXIII.

Awdur : Dafydd ab Edmwnd, P. 103 a 240, Ll. 122 a 133, Cwrtmawr, 27. Dafydd ap Gwilym, B.M. 53 a 38.

XXIV.

Awdur : Dafydd ab Edmwnd, Ll. 122, P. 312. Howel ap Dafydd Llwyd, P. 76, C. 7.

XXV.

Tystia'r ysgriflyfrau hynaf, sef P. 76 (1550), a C. 7 (1564),² mai Dafydd ab Edmwnd yw awdur y cywydd hwn, ond dywed P. 124 (1713), a B.M. 53 (1748), mai Dafydd ap Gwilym a'i cant.

XXVIII.

Awdur : Dafydd ab Edmwnd, P. 76, C. 26 a 49, Cwrtmawr, 23, B.M. 29. Dafydd Nanmor, M. 160, P. 195, Ll. 133, B.M. 51. Maredudd ap Rhys, B.M. 24.

XXXVI.

Awdur : Dafydd ab Edmwnd, J.C. 16. Sion Tudur, C. 12.

XXXIX.

Awdur : Dafydd ab Edmwnd, Ll. 135; B.M. 48. Bedo Brwynllys, Ll. 47 a 134.

XL.

Dywedir mewn dau ysgrifyfr (B.M. 29 a M. 146), mai marwnad i ferch Rhys Wyn o Fon yw'r awdl hon, ond nid oes dim yn yr awdl ei hun yn cadarnhau hynny. Am ach Rhys Wyn, gweler y nodiadau ar Rif xli.

XLI.

Ceir ach Dafydd ab Ieuan ap Howel yn Lewis Dwnn, *Heraldic Visitations*, ii. 142 : 'Dafydd ab Ieuan ap Howel ap Cynwrig ab Iorwerth vychan ab Iorwerth ap Goronwy ap Tegrin ap Cynedda Wledig.' Angharad ferch Gwilym ap

² Gwel. Dr. Gwenogvryn Evans, 'Reports on MSS. in the Welsh Language.'

Gruffudd o'r Penrhyn¹ oedd ei wraig, a bu iddynt fab o'r enw Gwilym, a briododd Elin ferch Llywelyn ap Hwlkyn ap Howel ab Iorwerth Ddu.² I Elin ferch Llywelyn yr ysgrifennodd Lewis Glyn Cothi gywydd i olyn huling gwely.³

Lladdwyd Dafydd ab Ieuan ap Howel yn ystod teyrnasiad Harri VI. mewn ymladdfa a elwir 'Y Ffrae Ddu yn y Bewmares.'⁴ Yr oedd y Cymry'n awyddus i fwynhau yr un breintiau â'r Saeson a drigent yn y bwrdeisdrefi, ac nid oedd neb a wrthwynebai llyn yn fwy na'r dinasyddion Seisnig eu hunain. Byddai'r ddwy blaidd yn ymladd yn aml, a dyma oedd achos yr ymladdfa gymerodd i'r rhwng milwyr castell Beaumaris a phobl y wlad oddiamgylch a arweinid gan Ddafydd ab Ieuan.⁵

ll. 20. Llwydiarth : cartref Dafydd ab Ieuan yng nghantref Twrcelyn, yn y parth gogleddol o Sir Fon.

ll. 32, 34. Angharad, verch wilim ; sef gwraig Dafydd ab Ieuan.

ll. 36, 50. tai y brodyr Llanvaes : Priordy a adeiladwyd gan y tywysog Llywelyn ab Iorwerth ym mhilwyf Llanfaes, yn Sir Fon. Cysegrwyd ef at wasanaeth mynachod o urdd Sant Ffransis. Yma y claddwyd D. ab Ieuan.

ll. 66. Gwiliam : cyfeiriad at fab Dafydd ab Ieuan a'i wraig, Elin.

XLII.

Sion Eos : telynor a grogwyd yn y Waun am ladd gwr, oherwydd yn ol P. 112, t. 204, 'i fod yn ffrynd i gwnstabl kroesoswallt yr hwnn a grogasse dinker o was i gwnstabl y Waun.' Dadleua Dafydd ab Edmwnd yn y cywydd hwn nad teg oedd dienyddio Sion Eos am ladd gwr heb fwriad mewn ffrwgwd. Maentunia'r bardd mai yn ol cyfraith Hywel Dda ac nid yn ol cyfraith Lloegr y dylid ei farnu. Ni chrogid gŵr am ladd arall yn ol hen gyfraith Cymru, ond telid galanas neu iawn i berthynasau agosaf y gŵr lofruddiwyd gan y gŵr achosodd ei farwolaeth a'i berthynasau. Awgrymir yn y cywydd fod digon o addewidion i dalu 'ei bwys o aur er byw Sion.'

ll. 26. Howel : sef Howel Dda ap Cadell ap Rhodri Mawr, deddfwr hynotaf Cymru.

ll. 47. Euas : cwmwd yng Ngwent.

ll. 49. Reinalld : telynor medrus o Ddolgellau, a chydymaith i Sion Eos.⁶

¹ Dwnn, ii. 154. ² Dwnn, ii. 198. ³ Gweithiau Lewis Glyn Cothi, Dosbarth vii., Rhif 2, t. 437. ⁴ Llwyd, 'Beaumaris Bay,' p. 19. ⁵ E. A. Lewis, 'The Mediaeval Boroughs of Snowdonia, p. 264.' ⁶ Lloyd, 'History of Powys Fadog,' vi. 404.

XLIII.

Y rhan gyntaf o'r cywydd hwn yn unig sydd yn farwnad i Ddafydd ab Ithel Fychan : moliant i'w chwe mab yw y gweddill. Gwelir ach Dafydd ab Ithel Fychan o Laneurgain yn Dwnn ii. 325 : 'Dafydd ab Ithel Fychan Esquier ap Kynfrig ap Rotpert ap Ierwerth ap Ryrd ap Madog ap Ednowain Bendew.' Priododd Angharad ferch ac aeres Kynfrig Vychan ap Kynfrig ap Madog ap Ierwerth o Wepra, a chafodd chwech o feibion (a enwir yn y cywydd) a thair merch, Catrin (gwraig Rhys ap Kynfrig ap Robert; gweler y Nodiadau ar Rif lxvi.), Mallt a Sioned (gwraig Llywelyn Fychan, taid Gruffudd ab Ieuan y bardd o'r Llannerch).²

ll. 36. Mon : am gysylltiad Cynfrig â Mon, gweler y Nodiadau ar Rif xlv.

ll. 36. Coed y Mynydd : Llys ym Motfari. Yma y trigai Ednowain Bendew, pennaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd yn yr unfed ganrif ar ddeg.

ll. 72. Tegeingl : cantref yn Sir Fflint.

XLIV.

Cywydd moliant Tomas Hen Salbri yw hwn yn ol y rhan fwyaf o'r llawysgrifau, ond moliant i'w feibion a'i ferched yw mewn gwirionedd, canys ni wneir ond prin grybwyll Tomas Hen. Ni chyfansoddwyd ef ychwaith cyn 1497, y flwyddyn yr urddwyd Tomas Salbri mab Tomas Hen yn farchog, gan fod y bardd yn ei gyfarch fel 'Syr Tomas,' ac yr oedd Tomas Hen yn ei fedd er 1490.

ll. 3-6. y mab . . . dafydd : Dywed ysgrifennydd B.M. 29 (David Jones, person Llanfair Dyffryn Clwyd, 1587), mai cyfeiriad at Dafydd ap Llywelyn ap Iorwerth, tywysog Gwynedd, a fu farw yn ei lys yn Aber, yn Arllechwedd, yn 1246, sydd yma. Priododd Saesnes, a bwriodd ei frawd hynaf Gruffudd i garchar, a dygodd amryw etifeddiaethau oddiar eu gwir berchenogion. Ymostyngodd i frenin Lloegr hefyd, a cholodd ran helaeth o'i deyrnas. Os mai am y Dafydd hwn y sonnir yma, yna cyfeiriad at Lywelyn ein Llyw Olaf, a ddilynodd Dafydd fel Tywysog Gwynedd, sydd yn ll. 7.

ll. 11. Tomas hen : aelod o deulu urddasol y Salbriaidd a drigai yn Lleweni, hen balas yn Nyffryn Clwyd, oddentu milltir a hanner i'r gogledd-ddwyrain o Ddinbych. Dywed Lloyd (*History of Powys Fadog*, iv. 330) iddo gwympto ym mwydd

¹ P. 127, t. 126 ; Dwnn, ii. 325.

² Harleian MS. 1977, p. 42.

Barnet, 1471, ond camgymeriad dybryd yw hyn. Yn 1490 y bu farw, fel y tystia Gutun Owen yn ei farwnad iddo (B.M. 23, t. 80):

'mil pedwar cant ail antwn
oedd oed duw pan gladdwyd hwn
ar ail rhif ar ol y rhain
ydoedd ddeg a dau ddengain.'

Rhoddir ei ach yn Dwnn ii. 115, ac yn *History of Powys Fadog*, iv. 330: 'Thomas Salbri Hen ap Harri Salisbury ap Rowling Salisbury ap William Salisbury a Harri Salisbury ap John Salisbury ap Thomas Salisbury . . . ap Adam Salzburgh,' a ddaeth i Loegr gyda Gwilym y Goresgynydd. Gwraig Tomas Hen oedd Elisabeth ferch Sienkyn Don o Utkinton, Sir Gaer, a enwir yn ll. 22.

ll. 15, 16. tomas vab tomas: Syr Thomas Salisbury, mab Tomas Hen, a wnaethpwyd yn farchog ar yr 22ain o Fehefin, 1497, gan Harri vii., am ei ddewrder yn ymladd ar ochr y Brenin ym mwydr Blackheath.¹ Efe oedd cwnstabl castell Dinbych yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Risiart iii.,² ac yr oedd yn Siryf Fflint rhwng 1495 a 1506.³ Jane, ferch Wiliam Fychan, Siambren Gwynedd oedd ei wraig (gweler ll. 29, 30 a'r Nodiadau ar Rif liv.). Bu farw 1505[-06].⁴

ll. 18. harri hen: taid Syr Thomas Salisbury, a briododd Annes, ferch Arthur Kwrtais enwir yn ll. 24, yn ol P. 72, t. 223; merch ac aeres Syr John Curteis, mab Syr Arthur Curteis yn ol Burke, *Dictionary of the Peerage*, 867.

ll. 31. harri—Salisbury o Lanrhaeadr, mab Tomas Hen, a briododd Margaret, ferch Gruffudd ap Rhys o Gloddaeth, a gweddw Hywel ap Ieuan Vychan o Fostyn.

ll. 33. ffwc: Ffowk Salisbury ap Thomas Hen, Deon Llan-elwy. Bu nai iddo, o'r un enw, mab Syr Thomas Salisbury, yn Ddeon Llanelwy hefyd rhwng 1511 a 1543. Cyfeirir at y ddau mewn cywydd o waith Gruffudd ab Ieuan i Ffowk Salisbury ap Syr Thomas. (Gweler *Gweithiau Gruffudd ab Ieuan*, The Bangor Welsh MSS. Society, v. t. 12).

'Deon Ffwg adain y ffydd
Dysg Rufain dewis grefydd
Da ith roed fal dewythr aeth
Doe i ynnill deoniaeth.'

ll. 35, 36. Sion, Robert: meibion Tomas Salbri Hen: Sion o Fachymbyd, Sir Ddinbych, a Robert o'r Plas Isa, yn Llanrwst. Yr oedd Robert yn daid i William Salesbury, cyfieithydd y Testament Newydd i Gymraeg.

¹Burke, 'Dictionary of the Peerage,' 867. ²Harleian MS. 433, p. 45 (Edward Owen, Catalogue of Welsh MSS. in British Museum). ³Taylor, 'Historic Notices of Flint.' ⁴Williams, 'Records of Denbigh,' 183.

ll. 39. Enwir yn y llinellau sy'n canlyn wyr merched Tomas Hen. Huw Konwy o Fryneuryn, ap Robin ap Gruffudd Goch, Argiwydd Rhos (Dwnn ii. 103) gŵr Elisabeth.

ll. 42. Mab Sion aer: priododd Sioned Sion aer Konwy ifank o Fodrhyddan yn Sir Fflint, fab John aer Konwy fab Jenkyn Konwy (Dwnn ii. 296).

ll. 43. Pirs ysdalai: ap Syr William Stanley, priod Constats. Efe oedd cwnstabl castell Harlech yn 1485, a Siryf Meirionydd rhwng 1485 a 1509.¹

ll. 46. pilsdwn: John Puleston o Hafodywern, gŵr Jane.

ll. 47. ei vrawd o Bengwern: sef Richard ap Howel ap Ieuan Vychan o Fostyn a Phengwern, gŵr Catrin.

XLV.

Cywydd o foliant i haelioni Cynfrig ap Dafydd ab Ithel Vychan a'i wraig Elin o Lwydiarth ym Mon yw hwn. Mab oedd Cynfrig i Ddafydd ab Ithel Fychan o Degeingl ap Cynfrig ap Robert ab Iorwerth ab Ednowain Bendew. Canodd Dafydd ab Edmwnd farwnad i Ddafydd ab Ithel Fychan, a moliant i'w feibion (gweler Rhif xliii. a lix.), ac enwir Cynfrig yn y ddau gywydd. Gwelir oddiwrth yr ach mai o Ednowain Bendew yr hanoedd Cynfrig o du ei dad, ond cyfeirir ato yn ll. 16 fel un o ddisgynyddion Edwin:

'y hi o vlaen hwa lin,
a'i chydwedd o ach edwin.'

Ceir fod Cynfrig yn disgyn o Edwin trwy ei fam, Angharad, ferch Cynfrig o Wepra, a Gwladys ferch Ithel ap Cynfrig o Fynachlog Rhedyn, Llaneanrain ab Bleddyn ab Edwin ap Goronwy, pennaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd (*Powys Fadog*, iii. 101.) Elin: merch 'Llywelyn ap Hwlcyn, o Brysaddfed ym Mon, ap Hywel ab Iorwerth Ddu ab Iorwerth ap Gruffudd Fychan . . . ab Hwa ab Cynddelw' (Dwnn ii. 199). Canodd Lewis Glyn Cothi gywydd i ofyn huling gwely ganddi, a gwelir oddiwrth y cywydd fod Cynfrig yn byw yn Lwydiarth yr adeg honno. Cynfrig oedd ei thrydydd gwr.² John ap Madog Puleston oedd ei gwr cyntaf, a Gwilym ap Dafydd, o Lwydiarth, ab Ieuan ap Howel oedd yr ail. Yr oedd Elin yn chwaer i Huw Lewys, a foliennir yng nghywyddau Ieuan Deulwyn a Lewis Glyn Cothi.³

ll. 25. ssyr gei: I Syr Guy o Warwick, mae'n debig, y cyffelybir Cynfrig. Yr oedd beirdd y bymthegfed ganrif yn gyfarwydd iawn yn y chwedlau am dano.

¹ Breese, 'Calendars of Gwynedd,' t. 69.

² Gweithiau Lewis Glyn

Cothi, t. 437.

³ Ifor Williams

'Gweithiau Ieuan Deulwyn,' Rhif xxxii;

'Gweithiau L.G.C.,' t. 444.

XLVI.

Cyfansoddwyd y gerdd-foliant hon ynghyda Rhif xlvii., xlviii., a xlix., i Rys Wyn ap Llywelyn ap Tudur o Fon. Ychydig a wyddys am dano. Canmola'r bardd ef am ei haelioni i brydyddion a thelynorion a gyfeirient tua'i lys at ddyddiau gwyl; ac y mae'r awdlau a ganodd Ab Edmwnd iddo yn sicrhau na chyflawnodd odid i filwr y fath orchestion ar faes y gwaed ag a gyflawnodd ef:

'ofn a roes a'i faner aur
ar galonau'r gelynyon.'

Ceir ei ach ymysg achau Twrcelyn yn P. 134, t. 221: 'Rrys Wyn ap llywelyn ap Tudur ap Dafydd ap Tudur ap Einion ap kynvrig vychan ap kynvrig ap jerwerth ap gwgan ap jdneth ap Edryd ap marchudd.' Gwelir ei linach yn Dwnn ii. 103 hefyd, ond nid yw'n cyfateb yn hollol i'r uchod: [Rhys Wyn ap] 'Llywelyn ap Tudur ab Dafydd ab Einion vychan ab Einion Ddu ab Cynvrig ab Ierwerth ab Gwgan ab Idnerth ab Edryd ab marchudd.'

XLVII.

ll. 14, 18. Alis: gelwid Rowena, merch Hengist yn 'Alis Rhonwen,' a'r Saeson yn 'blant Alis' (gwel. Rhif li. ll. 3).

ll. 20. wyr Hors: y Saesnes, un o ddisgynyddion Horsa.

ll. 64. Rhonwen: yr enw Cymraeg am Rowena, yn arwyddo Saesnes. 'Rhonwen wyrion' y gelwir y Saeson yn Rhif xlviii. ll. 58.

XLVIII.

ll. 6, 7, 8. Llywelyn, Tudur, Dafydd: tad, taid, a hen daid Rhys Wyn (gweler nodiadau ar Rif xlvii.)

ll. 12. Ithel Fychan: un o gyndadau Rhys Wyn o du ei fam, mae'n debig.

ll. 15. Syr Gruffudd Llwyd: o Wynedd ap Rhys ap Gruffudd ab Ednyfed Fychan. Mam Rhys Wyn oedd Gwenllian ferch Rhys ap Gruffudd ap Madog Gloddaeth. Mam Gruffudd ap Madog Gloddaeth oedd Morfudd ferch *Syr Gruffudd Llwyd*.¹ Urddwyd Gruffudd yn farchog gan Edward i. yn 1284. Torrodd allan i wrthryfela yn erbyn Coron Lloegr yn 1322, ond daliwyd ef gan y Saeson a dienyddiwyd ef yng nghastell Rhuddlan.

¹ Dwnn ii. 103.

ll. 22. ffwg : sef Ffwg ap Gwarin (Sir Foulk Fitzwarine), barwn Normanaidd, ac un o arglwyddi'r goror yn amser Harri i. Yr oedd yn enwog am ei orchestion mewn amryw ryfeloedd a llawer twrnamant, ac anrhydedda'r bardd Rhys Wyn trwy ei gymharu â Syr Ffwg. Felly hefyd Lewis Glyn Cothi wrth ganu clod Hywel ap Dafydd ap Goronwy :

'Syr Ffwg a'i gwrser a'i ffon
Sain Sior iso'n Is Aeron.'¹

ll. 25. dafydd llwyd : mam Rhys Wyn oedd Gwenllian, ferch Rhys ap Gruffudd ap Madog Gloddaeth. Mam honno oedd Gwenllian, ferch Dafydd Vychan ap *Dafydd Llwyd*.²

ll. 29. Rolant : nai Siarlymaen : Rolando y Rhamantau.

ll. 79. Rhydderch : sef Rhydderch Iael ; cyffelybir Rhys Wyn iddo am ei haelioni.

XLIX.

ll. 10. Botffordd : ger Llangefni : yma y preswyliai Rhys Wyn.

ll. 14, 15, 16. Llywelyn, Tudur, Dafydd : hynafiaid Rhys Wyn. (Gwel. Nodiadau ar Rif xlv.)

ll. 20. Cadw ddoeth : Cattwg Ddoeth ap Gwynlliw Filwr, Arglwydd Gwynllwg, un o saint y bumed ganrif ac abad Llangarfan, ym Morgannwg. Priodolir iddo lawer o ddiarhebion firaeth ; ceir ei holl weithiau yn y *Myfyrian Archaeology*.

ll. 25. Nudd : enwir ef yn y Trioedd fel un o dri hael Ynys Prydain.

ll. 35. Beli : ceir hanes am amryw wroniaid o'r enw : Beli ap Dyfnwal Moelmud, Beli ap Benlli Gawr, Beli Mawr ap Manogan, a Beli ap Rhun ap Maelgwn Gwynedd.

L.

Ychydig wyddys am Sion ap Risiart ab Ieuan Goch, abad Llanegwestl. Yr oedd yn un o brif noddwyr beirdd Cymreig yn niwedd y hymthegfed ganrif, a thalodd Dafydd ab Edmwnd, Gutun Owen, a Thudur Aled deyrnged i'w ddyysg a'i haelioni. Nid yw ei linach yn Dwinn, a methais ddyfod o hyd iddi yn llawysgrifau Peniarth. Yr oedd yn ewythr i Gutun Owen o frawd ei fam.³ Cyfeiria'r bardd at y berthynas mewn cywydd i ofyn march ganddo :

'un waed rieni ydwyf
nai i chwi o'r un ach wyf.'⁴

¹ 'Gweithiau L.G.C.' iii. 15. ² Dwnn ii. 103. ³ Lloyd, 'History of Powys Fadog,' iii. 385. ⁴ G.B.C. t. 221.

Tefir ychwaneg o oleuni ar deulu r abad mewn cywyddau eraill o waith G.O. sydd hyd yn hyn heb eu cyhoeddi :

'arglwydd ial i roi gwledd wyd
wyr brenin edwin ydwyd
dy hyn oedd vrenhinoedd vrig
viodav kvneddaf wledic
Einion yrth yni nerthoedd
taid i chwi tu tad ywch oedd.'¹

Nid yw dyddiad ei benodi yn ben ar y mynachty ar gael, ond efe a ddilynodd Sion Llwyd oedd yn abad yn 1485. Bu farw cyn diwedd 1498, canys ceir fod Dafydd ab Ieuan yn abad yno yn y flwyddyn honno.²

ll. 1. Ial : yng nghwmwd Ial ym Mhowys Fadog y safai'r fynachlog.

ll. 2. pant y groes : gelwid mynachty Llanegwestl yn Fynachlog Glyn y Groes neu Pant y Groes (De Valle Crucis).

II.

Ceir ach Syr Howel ap y Dai yn P. 72, t. 259.³ 'Syr Howel ap dai ai vrodyr nid amgen siankin dekafl, ithel anwyl, Rhys wyn, ednyfed, Ieuan, meibion dai ap Ithel ap kynvrig ap bleddyn ap ithel anwyl ap bleddyn ap Ithel vychan ap ithel llwyd ap ithel gam ap mredudd ap vchdryd ap Edwin ap Goronwy, tywysog Tegeingl. Person Chwitfordd, ger Treffynnon, oedd Syr Howel yn ol y cywydd: rhoddid y teitl 'Syr' yn gyffredin i offeiriaid yr oes honno. Yr oedd mab iddo (John ap Howel ap Dai) yn Ficer y Wyddgrug yn 1506.⁴

ll. 11, 12. Cynwrig, Bleddyn : cyndadau Syr Howel (gwel yr ach). Lladdwyd Cynfrig pan yn amddiffyn Castell Harlech gyda Dafydd ab Ifan ab Einion (o Grynarth yn Edeirnion) yn erbyn Syr William Herbart yn 1468.⁵

ll. 13. Rhodri : wrth olrhain ach Syr Howel yn uwch nag Edwin ap Goronwy gwelwn yr henyw o Rodri Mawr, brenin Cymru yn y nawfed ganrif : Edwin ap Goronwy ab Owen ap Howel Dda ap Cadell ap Rhodri Mawr.

ll. 14. Rhirid Flaidd : Disgynai Syr Howel o Ririd Flaidd, Arglwydd Penllyn o du ei nain, Lowri, ferch Ieuan ap Gruffudd ap Madog ap Iorwerth ap Madog ap Rhirid Flaidd.

¹ Additional MS. 14967, p. 74. ² Lloyd, 'History of Powys Fadog,' v. 148. ³ Gwel hefyd 'History of Powys Fadog,' iii. 105. ⁴ Browne Willis, 'St. Asaph,' 394. ⁵ 'History of Powys Fadog,' iii. 105.

ll. 16. nannau waed : gwraig y Cynfrig enwir uchod oedd Angharad ferch Maredudd ap Gruffudd ap Llywelyn ap Ynnyrcyudad teulu Nannau.

edwin : ap Goronwy, tywysog Tegeingl a phennaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd.

ll. 45. Dewi : nawddsant Cymru.

ll. 48. Assa : Asaph sant. Dymunai'r bardd weled Syr Howel yn Esgob Llanelwy.

LII.

Cywydd deuaireu fyrion yw hwn i'r un Syr Howel ag y canwyd Rhif li.

LIII.

Pennill o foliant yw hwn i Ruffudd ap Nicolas, a ganwyd yn Eisteddfod Caerfyrddin 1451, pan oedd ef yn frawdwr ar y beirdd. Ceir ei ach yn Dwinn i. 210 : 'Gruff ap Niklas ap Ffilyp ap Sir Elidir Ddu . . . ap Urien Rheged.' Trigai yn Ninesfwr, ger Llandeilo Fawr, yn Sir Gaerfyrddin, ac wya iddo ef oedd Syr Rhys ap Thomas. Dywed Mr. Howell T. Evans yn y *Beirniad* cyf. iii. rhif 2., mai camgymeriad wnaeth awdur Hanes Gruffudd ap Nicolas yn y *Cambrian Register*, i. 56, pan ddywedodd iddo ymuno a theulu Iorc yn ystod Rhyfel y Rhosynnau yn erbyn Siasper, Iarll Penfro, a'r Goron. Nid oes sicrwydd chwaith mai ym mwydr Mortimer's Cross y cwmpodd; tebig yw iddo farw oddeutu 1459, yn frenhinwr pybyr.¹

LIX.

Cywydd Moliant Wiliam Fychan o Gaernarfon. Ceir ei ach yn P. 127, t. 138, a Dwinn ii. 154 : 'Wiliam Fychan ap Gwilym ap Gruff (ll. 5) ap Gwilym (ll. 8) ap Gruffudd ap Heilyn ap Syr Tudur (ll. 9) ap Ednyfed Fychan (ll. 14) ap Cynwrig ap Ierwerth ap Gwgan . . . ap Edryd . . . ap Marchudd.' Mam Wiliam Fychan oedd Sioned, ferch Syr Wiliam Stanley o Howton (ll. 16). Penodwyd ef yn Siambren Gwynedd, a chafodd fwynhau breintiau dinesydd ar yr amod nad oedd i briodi Cymraes.² Priododd Alis ferch Syr Richard Dalton, a merch iddo oedd Sioned, gwraig Syr Thomas Salbri o Leweni. (Gwel. Rhif xlv. ll. 29, 30). Daeth i feddiant o'i diroedd yn 1440,³ a cheir tystiolaeth ei fod yn fyw yn 1466.⁴ Bu mab iddo o'r enw Syr Wiliam Gruffudd yn Siambren Gwynedd ar ei ol, ac yr oedd hwnnw'n fyw yn 1520.⁵

¹ Y *Beirniad*, cyf. iii. rhif 2.
² Dwinn, ii. 89.

³ Dwinn, ii. 131.

⁴ *History of Powys Fadog*, iv. 341.
⁵ Dwinn, ii. 154.

LVI.

Marged, ferch Rhys ap Kynrig ap Robert : gwelir ei ach yn P. 128, t. 603 : 'Rys ap kynvric ap Rotpert ap bleddyn ap Rotpert goch ap Jer ap Rirrid ap Edynowain bendew.' Gwraig Rhys oedd Catrin, ferch Dafydd ab Ithel Fychan (Gwel. Nodiadau ar Rif xliii.), a bu iddo dri o blant, Dafydd, Tomas, a Marged. Priod Marged oedd John Hwks, ac ar ol ei farw ef y priodes hi Rhys ap Llywelyn ap Hwlcyn o Fon, brawd Elin a enwir yn Rhif. xli. a xlv. (Gwel. Nodiadau).

LVII.

Nid oes sicrwydd pwy yw awdur y cywydd hwn. Dafydd ab Edmwnd a'i cant yn ol P. 83 a C. 27, ond Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd yn ol M. 160 a Ll. 30, 35, 133. Ceir ach Trahaearn yn Harleian MS. 1975, t. 84 : 'Trahaearn ap Ieuan of Penros in munmthe ap meirick ap Howell gam ap Gruffeth ap Howell ap Arthan ap kynvyn, lord of Estrat Ewe, ap Maynarch, lord of Brecknock, descended from kradock vreichvras.' O Drahaearn ap Ieuan yr hanoedd Syr Roger Williams¹ (1540-1595), y cadfridog dewr a ymladdodd dros achos Protestaniaeth yn Ffrainc ac yn yr Iseldiroedd : 'Syr Roger Williams ap Thomas Williams ap William ap Watkyn ap Trahaearn.' I'r Trahaearn hwn yr ysgrifennodd Guto'r Glyn gywydd i ofyn benthg y greal dros abad Llanegwestl² : a dengys y cywydd ei fod yn wr dysgedig ac athrylithgar iawn :

'Genau dysg Beirdd Morgannwg
Gwir enau Llen Tir Gwaun Llwg . . .
Enw Dysgawdr llywiawdr pob Llen
Un mesur ag enw Moesen.'³

Cyfansoddodd Lewis Glyn Cothi hefyd awdl i'r un gwr.³

ll. 2. tri hael : Tri hael Ynys Prydain, Rhydderch Hael, Mordaf Hael, a Nudd Hael.

ll. 8. a ffenfro : Cyfeirir at Trahaearn gan Uto'r Glyn fel

'Un o weilch, a'i waew a'i nerth,
Iarl Herbert gerllaw Arberth.'

Ymladdai Wiliam Herbert, Iarl Penfro, ar ochr Iorc yn Rhyfel y Rhosynnau, a dienyddiwyd ef ar ol Brwydr Mambri, 1469.

ll. 9. tir Brychan : Brycheiniog.

ll. 42, 43. Brytys : ceir y chwedl am hun Brutus ar groen ewig wen yn nheml Diana yn *Ystoria Brenhinedd y Brutaniaid*. (Gwel. Dr. Gwenogvryn Evans, *The Red Book of Hergest*, ii. t. 5).

¹ Harl. MS. 1975, p. 84. ² Iolo MS. 324. ³ Gweithiau L.G.C., t. 97.

ll. 50. Gronwy ddy : Bardd o Fon yn ei flodau rhwng 1320 a 1370. Mae copi o ddarn o ryddiaith o'i waith yn dwyn yr enw 'Breuddwyd Gronw Ddu,' ar gael yn B.M. 35, 47, a 55.

LVIII.

Methais gael dim o hanes Robert ap Dafydd ap Robert o Nanheudwy. Gan na olrheindir ei ach yn uwch yn y cywydd, nid oes modd dywedyd ai yr un yw â'r hwn y ceir ei ach yn P. 132, t. 28 : 'Robert ap Dafydd ap Robin ap Llywelyn ap gwrgene ychban ap gwrgene ap meuric ap gwilim . . . ap Marchudd.'

LIX.

Am ach chwe mab Dafydd ab Ithel Fychan, gwel. Nodiadau ar Rif xliii.

LXII.

Dyma fel y sgrifennodd Dafydd Jones, person Llanfair Dyffryn Clwyd (1587) yn B.M. 29 am y cywydd hwn : 'Llyma'n canlyn y cowydd merch a wnaeth Daudi ap Edmunt pan erchis Gruffyth ap Nicolas ir prudyddion wneythur un bob un erbyn tranoeth pan fu r eisteddfod ynghaer fyrddin gar i fron ef ag i cas dd ap Edmwnd y gadair arian yn fwya o ran hwn.'

LXIII.

Englynion y Misoedd: enwir y seintiau a'r merthyron enwocaf goffeid yn y gwahanol fisoedd. Ceir eu hanes yn Baring-Gould & Fisher, *Lives of the Saints*; Rees, *Essay on the Welsh Saints*; a Smith, *Dictionary of Christian Antiquities*. Dyma ddyddiau'r gwyliau nodir yn ol calendar a ysgrifennodd Gutun Owen yn M. 88, ac eraill a welir yn P. 40, P. 172, J.C. 6, J.C. 7, Ll. 117, a B.M. 31. (Gwel. Dr. Gwenogvryn Evans, *Reports on MSS. in the Welsh Language*).

IONAWR : 1, Duw Calan; 6, Gwyl Ystwyll; 13, Gwyl Ilar Esgob; 15, Maurus; 20, Sebastianus (merthyr yn adeg Diocletian); 25, Gwyl Bawl pan droes i'r ffydd; Si : aillythren gyntaf enw sant yw hon? Gellir tybied hynny, canys defnyddir T. am Thomas yn yr englyn olaf : 'Dydd vrddas Tomas yw T.' Os felly, tebig gennyf mai Silin goffeid ar y 26ain o'r mis feddylir.

CHWEFROR : 1, G. San Ffraid; 2, G. Fair y canwyllau; 6, Vedaustus (Esgob Arras); 14, G. Valentini; 22, G. Bedr; 24, G. Vathias abostol.

MAWRTH : 1, G. Dewi Archesgob ; 3, G. Non (mam Dewi) ; 7, G. Perpetua (ferthyr) ; 12, G. Sain Grigor Bab ; 17, G. Badric ; 25, G. Vair y Gyhydedd.

EBRILL : 3, Risiart Esgob ; 4, G. Ambros Esgob ; 14, Tiburtius Ferthyr ; 19, Alphegius ; G1 : ? George, 23 ; y llew : defnyddid y llew mewn celf i arwyddocau Marc : 25, G. Vark evengyliwr.

MAI : 1, G. Phylip ; 3, G. y Grog (caffael y Groes) ; 19, G. dwnstian archesgob ; 25, G. urban ; d, ? Denis, 25,

MEHEFIN : 11, G. Barnabas ; 19, Antonina ; 26, Vitus Ferthyr ; 28, Marcella ; 23, G. Ieuan Fedyddiwr ; 29, G. Bedr.

GORFFENAF : 7, G. Thomas ; 17, G. Gynllo ; 20, G. Sant Margred ; 22, G. Vair Vadlen ; 25, G. Iago Abostol.

AWST : G. Bedr Abostol ; 5, Oswalld Ferthyr, Brenin Northumbria ; 15, G. Vair ; 24, G. bartholomeus.

MEDI : 1, Gwyl San Silin ; 4, G. Sant Gwddbert (Cuthbert, abad Lindisfarne) ; 8, g. Vair pan aned ; 21, G. Vathias abostol.

HYDREF : 6, Fides (Santes) ; 9, G. Denis ; 13, G. Edward Vrenin ; 18, G. Luc vengyliwr ; 28, G. Simon ; Si, ? Sutt, 28.

TACHWEDD : 2, G. yr eneidiau ; 11, G. Sant Martin Esgob ; 23, G. Clement Bab (a ferthyrwyd yn Rhufain adeg Trajan) ; 25, G. Sant y Katrin ; 30, G. Andras.

RHAGFYR : 8, G. Vair ; 21, G. Tomas Abostol ; 27, G. John Evangyliwr.

LXX.

Awdur : Iolo Goch neu D. ab Edmwnd, P. 94 ; Ll. 119. Dafydd ab Edmwnd, M. 131 ; Ll. 145.

ATODIAD II.

II. 24. owdl wilym. Dywed Thomas Williams o Drefriw, mewn nodyn ar ymyl y ddalen yn B.M. 32, mai Gwilym ap Sefnyn, bardd o Fon, yn ei flodau rhwng 1320 a 1370, a feddylir.

III.

II. 48. tair cerdd : cyfeiriad sydd yma at y ffaith mai i Degeingl y daeth y tri thlws, sef y Gadair, y Delyn, a'r Tafod, o Eisteddfod Caerfyrddin, 1451. Dafydd ab Edmwnd enillodd y Gadair Arian am ei ddosbarth ar y mesurau cerdd dafoed ; Cynfrig Bencerdd o Dreffynnon enillodd y Delyn Arian, a Rhys Bwting o Brestatyn a enillodd y Tafod yng nghystadlaeth y datceiniaid (P. 267, t. 53).

GEIRFA.

acdwn, llurig, *coat of mail*
 aelaw, hoff, annwyl
 aeth, poen, blinder
 afall, coed afalau
 afar, tristwch, gofid
 afi, *Ave Maria*
 anant, cerddorion, beirdd
 ancwyn, gwledd
 anrhaith, trysor, anwylyd
 asgen, niwed
 atcor, gwedd, *a ploughteam*
 balsamwn, *balsamine*
 bancaw, tusw
 bâr, cystudd, adfyd
 bawai, adyn
 beunoeth, bob nos
 bollt, picell
 braen, pwdr
 cae, pleth [o fedw]
 canel, *cinnamon*
 carl, cnaf
 carlwm, *ermine*
 carnfilain, taeg, delff
 ceifn, perthynas, câr
 cerlyn, taeg, *churl*
 cibws, *chilblains*
 clander, *one reputed for knowledge*
 clôs, buarth
 crinell, pren gwyw
 cuddigl, ystafell; yma, gorehudd
 culi, culni, *leanness*
 cwrsi, *kerchief*
 cwwaint, crefydd-dy, *convent*
 cydawr, gwaedd
 cynanu, liefaru, siarad
 cynydd, heliwr
 cyrs, ffurf lluosog y gair 'corsen'
 cytgam, cyd-fyned, ymddifyrru
 damasg, sidan caerog
 desgant, *descant*

diachen, *ignoble*
 diagr, prydferth
 didwn, cyfan, pur
 digardd, urddol
 dyhuddai, diddanydd
 effros, y gloywlys, *the eyebright*
 eilon, carw
 einym, lluosog 'mau'
 ener, tywysog
 erwaint, *meadow-sweet*
 ffluwch, gwallt
 ffunen, penwisg, *kerchief*
 gerlont, coronbleth o flodau neu
 ddail, *garland*
 gofeiliant, pryder
 golochwyd, cilfach, lloches, *re-*
 treat
 golof, gorchudd, cysgod, amddi-
 ffynfa
 gomach, coes
 gorddwy, gormes
 gorthir, mynydd-dir
 graen, trist
 graens, *grains*
 gwaewlori, paladr picell
 gwalc, gwallt y pen wedi ei droi
 i fyny
 heiniar, cnwd
 heiniau, clefydon
 hocrell, geneth, llances
 hur, cyflog, tal
 iolydd, canmolwr
 lir, pryd, gwedd
 llain, cleddyf
 lledw, *luxury, rarity*
 lleisw, *lye*
 lliaxu, gwahanu
 llios, -ydd, tyrfa
 llinon, onnen
 llyfasu, beiddio, anturio

llysiau Mair, *the common Bugle*
maelïer, enillydd
mail, cawg
mall, drwg, niweidiol
mau, *my*
meddf, tyner, mwyn
mên a threbl, *mean and treble*
merwerydd, swm y mor; yma ton-
 nau y mor
minws, gwefus
moled, *kerchief*
muned, llaw
mwsg, perarogl, *musk*
oraens, *orange*
osai, *cider*
pen llad, y prif dda
pennor, helm, penwisg ddur
pennwn, baner
pen rhaith, meist
perhon, er hynny, a chaniatau
peunes (xl.), merch fonheddig
pilyn, arwisg
plaid, pared, mur
por, arglwydd
prennol, blwch
presen, y byd presennol
pwmpa, afal
pwynt, cyflwr
rasbi, *rasberry*
rhaidd, gwaywffon
rheg, rhodd
rhi, blaenor, tywysog
rhidens, eddi, *fringe*
rhon, gwaywffon
rhwmnai, *Rhenish wine*
rhull, buan, cyflym
rhun, gwr hael
rhychor, yr ych nesaf at y gŵys
 wrth aredig

rhydain, carw ieuanc
rhygyr, rhuthr, ymgyrch
rhyswr, campwr, ymladdwr,
champion
safr, arogl
safri, *savory*
saffrwm, *saffron*
sens, perarogl
sewer, hulydd bwrdd
siambrlen (xvi.), gwas ystafell
sinamwn, *cinnamon*
sinsir, *ginger*
sirian, *cherries*
sirig, sidan
stumaich, *crys, stomacher*
swllt, trysor
syddyn, tyddyn
syndal, math o sidan main
sywidw, *timouse*
telediw, prydferth
tir gŵydd, *lay land*
toryn, mantell
torsed, cwrlid, huling, *coverlet*
tresiaw, llafurio; yma, curo, torri
tudded, gwisg, mantell
twyg, gwisg
tywyn, pelydr goleuni
wibwrn, glas
wtreswr, gloddestwr
ychen mannog, *the large-horned*
oxen
ysbeinus, dreiniog, pigog
ysgewyll, brigau
ysgyrio, holti, delltu
ysgyg, trydydd person unigol y
 ferf 'ysgogaf'
ysnoden, pen-rwymyn
ystof, *warp*

DANGHOSEG.

ENWAU PERSONAU.

Abel	105	Dafydd ap Gwilym,	
Addaf	82, 98, 102, 118, 120	3, 12, 20, 139, 141	
Adda Vras	140	Dafydd ab Ifan ap Hywel	76, 77
Angharad (ferch Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn)	77	Dafydd ab Ithel Fychan	82, 115, 116
Alexander	147	Dafydd (ap Llywelyn, tywys- og Gwynedd?)	85
Alffegiws	125	Dafydd Llwyd o Fon	94
Alun Dyfed	100	Dafydd Nanmor	137
Ambros	125	Dafydd Wan o Fon	136
Anna	10, 118	Dai Vergam	145
Andras	126	Daniel	105, 106
Antwn	125	Deifr Wallt Eurawg	25
Arthur	7, 39, 99, 147	Deiniol	104
Assa	104, 106	Denis	126
Awstin	51	Derfel	43
Barnabi	125	Deulwyn	137
Bartholomi	126	Dewi (Sant)	104, 125
Beli	84, 98	Dunstan	125
Bleddyn (ab Ithel Anwyl)	103	Dyttwn	86
Brochwel	106	Ednowain Bendew	84
Brutus	108, 112	Ednyfed	100
Cadw Ddoeth	97	Ednyfed (Fychan)	108
Cari Mwyn	5, 6, 9, 10	Edward (Frenin)	126
Catrin (Santes)	74, 126	Edwin	83, 88, 103
Clementi	126	Egwad	88
Crist	59, 98, 119	Eigr	16, 66, 68, 69
Cutbert	126	Emion	136
Cynfrig	92	Elien	61
Cynfrig (ap Bleddyn ab Ithel Anwyl)	103	Elin (ferch Llywelyn ap Hwl- cyn)	78, 87, 88, 89
Cynfrig ap Dafydd ab Ithel Fychan	83, 87, 88, 89, 116	Esyllt	16, 34, 56, 106
Cynllo	126	Falenti	125
Cyrys (o Ial)	147	Fedasti	125
Dafydd ab Edmwnd	49, 59, 137, 140, 142, 143, 144, (deikin, deio, dakyn) 145, 146 (Dai), 147	Fiti	125
		Fychan, William	107
		Ffidi	126

Ffired	125	Iolyn	131
Ffwg	94	Ithael	10, 12, 106
Gabriel	105	Ithel ap Dafydd ab Ithel	82, 116
Garmon	89	Ithel ap Dafydd o Gaerfallwch	131
Gei	88	Ithel Fychan	94
Goronwy	108	Ithel Hael	58
Gredifael	58	Kellin	88
Grigor	125	Lasar	60
Goronwy Ddu	112	Lug	126
Gruffudd ap Dafydd Fychan	145	Lles ap Coel	104
Gruffudd ap Dafydd ab Ithel	83, 116	Llowdden	145, 129
Gruffudd ap Nicolas,		Llywarch Hen	56
62, 107, 127, 128, 129 (Gutto)		Llywelyn (ein Llyw Olaf ?)	85
Gruffudd Llwyd o Wynedd	94	Madog (Benfras)	12
Guto'r Glyn	92, 145	Mair 58, 83, 89, 117, 119, 125,	126
Gwalchmai	114	Mair Fadlen	25
Gwen Hwlyn	124	Marcel	125
Gwenddydd	50	March Amheirchion	56
Gwenonwy	70	Margaret	126
Gwilym ap Dafydd ab Ifan		Marged ferch Rhys	29
ap Hywel	78	Marged ferch Rhys ap Cyn-	
Gwilym (ap Sefnyn ?)	141	irig ap Robert	110
Gwion Bach	143	Marthin	29, 126
Harri Hen	85	Mathe Wyn	125, 126
Hiraddug (Dafydd Ddu ?)	143	Mathi	125
Hors	92	Mawri	124
Howel ap Dafydd ab Ithel	83, 116	Melwas	17, 43
Howel ab Owain	145	Merddin	147
Howel Bika	144	Mili	126
Howel (Dda)	79	Moesen	4
Huw Konwy	86	Morien	107
Hwfa (ap Cynddelw)	88	Neifion	7
Hywel ap Dai ab Ithel		Nili	126
103, 104, 105, 106		Noe	56
Iago	126	Non	38, 59, 125
Ierwerth vab y kyriawc	11	Nudd	98
Ieuan	26	Nyniaw	103
Ieuan ap Dafydd ab Ithel	83, 116	Olwen	33, 54
Iesu	101, 118, 120, 125	Oswalld	106, 126
Ifan	92	Owain Vrych	54
Ifan Mon	92	Patrig	125
Ifor	97, 101, 107	Pedr	28, 51, 125 (Petri), 126
Ilar	124	Perpetui	125
John	125, 126	Pilsdwn	86
Iolo	140	Pirs ystanlai	86
		Plant Alis	103

Phylip	125	Salbri, Thomas Hen	85, 87
Reinalld (delynor)	80	„ Syr Thomas	85
Rhirid Flaidd	103, 111	Sawl	124
Rhiwallon	102	Sienkyn Don	86
Rhonwen	93, 95	Sienkyn Kwrtais	86
Rhodri (Mawr)	103	Silin	126
Rhuniel	105	Simon	70, 126
Rhydderch (Hael)	96	Sion Aer	86
Rhys	125	Sion ap Dafydd ab Ithel	83, 116
Rhys	109	Sion ap Risiart (abad Llan-	
Rhys ap Cynfrig ap Robert	110	egwestl)	101, 102
Rhys Wyn ap Llywelyn ap Tudur		Sion Eos	78, 79, 81
89, 90, 91, 92, 93, 94, 97, 98		Swlpws	124
Robert ap Dafydd ap Robert		Syr Rhys	145, 147
	113, 114, 115	Tegau	49, 66, 68
Rolant	94, 96	Tewdws	24
Sabestiani	124	Thomas	125, 126
Sain Sion	19	Tibwrti	125
Sain Sior	51	Tryhaearn ab Ieuan ap	
Salbri	130	Meurig	111
Salbri, Elizabeth	86	Trystan	31, 56
„ Ffwg	86	Urban	125
„ Harri	86	Uriel	106
„ Harri Hen	85	William Fychan	107
„ Robert	86	Ysdanlai	108
„ Sion	86	Ystanlai, Pirs	86

ENWAU LLEOEDD.

Aber	85	Caron	29
Aberconwy	47	Ceri	15
Arfon	93, 96	Clorach	32
Berwyn	60	Clwyd	85
Bethlem	51	Coedymynydd	83
Bodafon	32	Conwy	9, 129
Botfari	83	Chwitfordd	104
Botfordd	33, 97, 131	Dinbych	145, 146
Brynaich	61	Dinefwr	107
Caer	9	Dyfi	145
Caerfallwch	131	Dyffryn Clwyd	145
Caerfyrddin	140, 143	Edeirnion	145
Caerlleon	71, 86	Eglwys Siat	141
Caerwys	84	Elwy	54
Caeynarfon	108	Ewas	80
Camlan	26	Eutyn	115

Fflint	86, 130	Mor Iwerddon	72
Ffrainc	83, 90	Mor Tawch	91
Ffynnon Galabes (Galahad's Well, gwel. Rhys, <i>Ar- thurian Legend</i> , 167)	8	Mynyw	59
Gwaunysgor	104	Nanheudwy	114
Gwent	111	Nannau	103
Gwynedd	85, 114	Pantgroes	101
Hafren	145	Paris	49
Hanmer	14	Penfro	111
Ial	36, 101	Pengwern	86
Iork	48	Penllyn	145
Is Conwy	137, 143	Penrhos	33
Iwerddon	90	Powys	77, 111, 145
Kwlen	53	Powys Fadog	145
Lesedr	51	Rhiw	84
Lingcol	108	Rhiwabon	115
Longcastr	108	Rhiwfelen	24
Llanelwy	104	Rhon	108
Llaneurgain	82	Rhos	86, 96, 111
Llanfaes	78	Rhufain	95
Llangynin	58	Roesel (Rochelle)	105
Llanurful	61	Sieb (Cheapside)	46, 48
Lleweni	85	Sin	48
Lloegr	91	Tegeingl	82, 84, 103, 131, 143
Llundain	5, 79	Tir Brychan	111
Llwydiarth	77, 78, 83, 88	Tir Wysg	104
Llyn	36, 145	Traeth Dulas	33
Llyn Aerfen (Llyn Tegid)	61	Trefor	114
Llyn Archaddon	33	Troya	7
Mars	86, 108	Twrcelyn	77, 89
Maelawr	15, 24, 29, 86, 116, 145	Ty Ddewi	58
Mon	7, 46, 77, 78, 80, 86, 87, 88, 89, 91, 93, 95, 97, 98, 115	Uwch Conwy	78
		Waun, swydd y	79, 81
		Yrafia	51

Bangor: JARVIS & FOSTER, *Printers, Lorne House.*

SGU

